Rhif 32 | Mawrth 2021 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

Cyhoeddwyd gyda chymorth: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif 32 | Mawrth 2021 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Mari Fflur, Dr Angharad Watkins a Lois McGrath |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Dr Paula Roberts, Prifysgol Bangor |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru |
| | Yr Athro David Evans, Prifysgol Caerdydd |
| | Dr Gwennan Higham, Prifysgol Abertawe |
| | Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor |
| | Dr Sioned Vaughan Hughes, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| | Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| | Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe |
| | Yr Athro Ioan M. Williams |
| | Dr Kelly Young, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |


E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru


Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.



ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*
www.gwerddon.cymru

# Cynnwys

Golygyddol 5

Charlotte Greenway ac Alison Rees Edwards, 'Agweddau Athrawon tuag at ADCG: Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer y Dyfodol' 7

Einion Dafydd, 'Yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Undeb Ewropeaidd: Crefydd a Llywodraethiant yn yr Unfed Ganrif ar Hugain' 26

Jerry Hunter, 'Perthnasedd Poen ac Undonedd: Kate Roberts a Ffuglen y 1930au' 57

Cennydd Owen Jones, Arwyn Edwards a Hefin Wyn Williams, 'Adolygiad o Ffynonellau Amgylcheddol Twbercwlosis Buchol (*Mycobacterium bovis)*' 70

Cyfranwyr 95

# Golygyddol

Dr Anwen Jones

Mae'n braf iawn croesawu rhifyn arall o *Gwerddon* wrth i ni frasgamu dros drothwy blwyddyn newydd. Rydym ynghanol cyfnod cythryblus a heriol, ac mae pob un o'r erthyglau yn y rhifyn hwn yn cynnig mewnwelediad i ni ar argyfyngau a heriau wrth i ni geisio dygymod â'r gwahanol bwerau a phrofiadau sy'n agweddau anhepgor ar gymhlethdod bywydau a bywyd cyfoes.

Mae arlwy amrywiol iawn yn y rhifyn hwn, fel sy'n arferol i *Gwerddon,* ac mae sawl pryd arbenigol, amheuthun yn rhan o'r arlwy. Ceir cyfraniad cyfareddol gan Jerry Hunter wrth iddo drafod agweddau penodol ar waith a gweledigaeth llenyddol Kate Roberts. Rhydd yr erthygl olwg i ni ar *Traed mewn Cyffion* trwy lens deublyg; trafodaeth anffurfiol rhwng Kate a Saunders Lewis am ddrafft cyntaf y nofel, a dadansoddiad beirniadol o'r nofel ei hun. Mae haenau'r drafodaeth yn dwysáu eto fyth wrth i'r awdur gloriannu'r gwaith a'r gwerthoedd esthetig, moesol a chymdeithasol yng nghyd-destun gweithiau'r awdur Gwyddelig, Peadar O' Donnell, a'i ddylanwad ar feddylfryd estheteg. Beth bynnag fo barn darllenwyr am ddatganiad cignoeth Kate Roberts o blaid dylanwad 'poen ac undonedd' ar ei bywyd a'i phrofiad, rhaid edmygu pa mor glir a dewr yw ei llais mewn cymuned lenyddol lle y mae'r llais gwrywaidd, pa mor fonheddig bynnag y bo, yn hawlio'r blaendir. Diolch i Jerry am roi llwyfan i'w llais heddiw yn *Gwerddon*.

Mae cyfraniad Greenway ac Edwards yn canolbwyntio ar agweddau athrawon tuag at anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Mae pwyslais yr erthygl ar les a iechyd meddwl athrawon yn hynod o werthfawr, yn enwedig o ystyried ardrawiad argyfwng COVID-19 ar y sector addysg yn gyffredinol. Ceir gogwydd gwreiddiol iawn i'r erthgyl am ei bod yn galw am ofod diogel lle y gellir gwyntyllu rhagfarn a chamsyniadau greddfol neu ymwybodol er mwyn cyrraedd dealltwriaeth aeddfed o gyflyrau arbenigol fel ADHD. Yn yr un modd, mae'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd pob un o'r rhanddeiliaid perthnasol yn y fformiwla addysgiadol penodol dan sylw yn cynnig llwybr at lwyddiant i'r dyfodol.

Ceir cyfraniad hynod amserol gan Einion Dafydd ar bwnc sy'n gyffredinol berthnasol; rôl crefydd mewn llywodraethiant cyfoes. Mae'r ffocws ar y berthynas rhwng yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'r ffaith bod yr awdur yn cyfeirio ein sylw at natur y ddeinameg neilltuol hon ar amser mor dyngedfennol yn hanes ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi i'r erthygl arwyddocâd unigryw. Dyma wahoddiad i gamu o'r neilltu am ennyd rhag rhuthr grymoedd gwleidyddol oes sy'n fregus ac yn fyrbwyll am yn ail, i ystyried arwyddocâd oesol y berthynas rhwng pwerau gwleidyddol a phwerau ysbrydol neu grefyddol.

Gellir ystyried y drafodaeth am dwbercwlosis mewn gwartheg yn un o boenderau neu broblemau realaidd mewn meysydd amaethyddol yng Nghymru a thu hwnt. Dyma ni yn ôl yng nghanol berw bywyd ac yn mynd i'r afael ag un o'r heriau sy'n amlygu'r berthynas

ddwys rhwng natur a dyn, rhwng y gwâr a'r gwyllt. Mae astudiaeth Edwards, Jones a Williams yn gynhwysfawr ac yn wyddonol drylwyr, ac mae'r pwyslais neilltuol ar astudio'r amgylchfyd fel modd o ddylanwadu ar ledaeniad y clefyd yn un pwrpasol sy'n cydnabod y berthynas fythol rhwng agweddau gwahanol ar ein byd, ein profiad, ein poen a'n pleserau. Braf gweld ymchwilwyr crefftus yn cyfrannu at ddisgwrs hanfodol bwysig mewn cyd-destun rhyngwladol trwy astudiaeth iaith Gymraeg o dwbercwlosis yng Nghymru.

Diolch i gyfranwyr y rhifyn hwn am ardderchogrwydd ac amrywiaeth eu cyfraniadau. Mwynhewch y darllen!

# Agweddau Athrawon tuag at ADCG: Adolygiad ac Argymhellion ar gyfer y Dyfodol

Charlotte Greenway ac Alison Rees Edwards

*Ysgol Seicoleg a Chyngori ac Astudiaethau Plentyndod, Ieuenctid ac Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant,*

Cyflwynwyd: 7 Chwefror 2020; Derbyniwyd: 8 Gorffennaf 2020

**Crynodeb:** Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cyfraddau Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG) mewn dosbarthiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn llenyddiaeth, cydnabyddir arwyddocâd agweddau athrawon tuag at ADCG wrth iddynt wneud penderfyniadau am atgyfeirio ac ymyrraeth (Anderson et al., 2012) a sut y mae eu hagweddau'n effeithio ar ymddygiad a chanlyniadau disgyblion (Rush a Harrison 2008). Mae angen i athrawon ddarparu cefnogaeth i'r plant hyn ond, yn aml, maent yn teimlo'n amwys tuag at ADCG oherwydd diffyg gwybodaeth ddigonol (Alkahtani 2013), gwybodaeth anghyson ynghylch yr anhwylder (Dryer, Kiernan a Tyson 2013), gwahanol ddisgwyliadau diwylliannol (Moon 2012) a systemau addysgol (Timimi a Radcliffe 2005). Mae'r papur hwn yn darparu adolygiad o'r llenyddiaeth ynghylch agweddau athrawon tuag at ADCG, yn archwilio'r cyfyngiadau yn y llenyddiaeth gyfredol a'r pryderon ynghylch mesur agweddau athrawon tuag at ADCG. Mae'r papur yn gorffen gydag argymhellion ar gyfer y dyfodol.

**Allweddeiriau:** ADCG, agweddau, athrawon, cynorthwywyr addysgu, heriau, argymhellion i'r dyfodol.

## Teachers' Attitudes towards ADHD: A Review and Recommendations for the Future

**Abstract:** Attention-Deficit Hyperactivity Disorder (ADHD) rates in classrooms have increased in recent years. Literature has acknowledged the significance of teachers' attitudes towards ADHD when making referral and intervention decisions (Anderson et al., 2012) and how teachers' attitudes affect pupil behaviours and outcomes (Rush and Harrison 2008). Teachers need to provide support for these children, yet they often feel ambivalent towards ADHD due to a lack of sufficient knowledge (Alkahtani 2013), conflicting information surrounding the disorder (Dryer, Kiernan a Tyson 2013), different cultural expectations (Moon 2012) and educational systems (Timimi and Radcliffe 2005). This paper provides a review of the literature regarding teacher attitudes towards ADHD, explores limitations in the current literature and the concerns surrounding the measurement of teachers' attitudes towards ADHD. The paper ends with recommendations for the future.

**Key words:** ADHD, attitudes, teachers, teaching assistants, challenges, future recommendations.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

## Diffiniad a chyffredinrwydd

Mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG) yn anhwylder niwroddatblygiadol a nodweddir gan batrymau datblygiadol amhriodol o ddiffyg sylw a/neu orfywiogrwydd-byrbwylltra (American Psychological Association (APA) 2013). Oherwydd symptomau diffyg sylw, mae'n hawdd tynnu sylw plant, sydd felly'n ei chael yn anodd cwblhau tasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Mae symptomau gorfywiogrwydd yn cynnwys anhawster eistedd yn llonydd, gwingo a siarad yn ormodol, tra bod byrbwylltra yn ei gwneud yn anodd i blant aros eu tro, ac maent yn aml yn torri ar draws neu'n ymyrryd ar eraill. Yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE 2018), mae ADCG yn effeithio ar 3% i 9% o'r plant sy'n mynychu ysgolion y DU. Fodd bynnag, mae'n anodd canfod amlder ADCG gan fod y dulliau casglu data yn amrywio o astudiaeth i astudiaeth, gyda rhai'n dibynnu ar adroddiadau rhieni ac eraill ar ymchwil glinigol yn seiliedig ar feini prawf diagnostig gwahanol (Sayal et al., 2018). Er bod ADCG bellach yn cael ei dderbyn yn fwy cyffredinol yn y DU, mae'n parhau i fod yn ddiagnosis dadleuol ymhlith rhai clinigwyr ac athrawon. Mae'r materion cynhennus yn cynnwys: a) diffyg teclyn diagnostig penodol ar gyfer ADCG, b) yr arfer o ehangu meini prawf diagnostig dros amser sydd yn parhau i gynnwys torbwynt mympwyol ar gyfer symptomau sy'n aml yn arwain at benderfyniadau goddrychol am yr anhwylder, ac c) anghysondebau yn y cyfraddau diagnosis a'r defnydd o feddyginiaeth (Sayal et al., 2018).

## ADCG yn yr ystafell ddosbarth

Ynghyd ag ymyrryd ar allu plentyn i ddysgu, oblegid anhawster eistedd yn llonydd, gwrando a chwblhau tasgau (Kos, Richdale a Hay 2006), mae symptomau ADCG yn aml yn heriol i athrawon a chyfoedion (Brook a Geva 2001; Hong 2008). Adrodda athrawon mai'r symptomau sy'n gysylltiedig ag ADCG yw'r ymddygiadau mwyaf heriol yn yr ystafell ddosbarth, ac mae ymddygiad o'r fath yn creu emosiynau negyddol ymhlith athrawon, gan arwain yn aml at wrthdaro a chamau disgyblu (Nurmi 2012). At hynny, mae ymddygiadau megis torri ar ofod personol ac ymyrryd ag eraill yn aml yn arwain at fwlio, gwaharddiad cymdeithasol (Humphrey a Symes 2010) a gwrthodiad gan gymheiriaid (Barkley 2006). Mae plant sy'n wynebu cael eu gwrthod gan eu cymheiriaid yn fwy tebygol o gael eu heithrio o weithgareddau cymdeithasol pwysig (Buhs a Ladd 2001) sy'n darparu cyfleoedd hanfodol i ddatblygu cyfeillgarwch a mireinio'r sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen i lywio trwy fywyd ysgol (Parker et al., 2006). Dros amser, gall gwrthodiad gan gymheiriaid arwain at erledigaeth gan gymheiriaid (Efron et al., 2018) a mewnoliad o'u problemau (Reijntjes et al., 2010), gyda risg uwch o anawsterau dysgu ac anawsterau seicogymdeithasol yn y dyfodol (DuPaul a Stoner 2014).

## Y cyd-destun Cymraeg

Ar hyn o bryd, yng Nghymru, gelwir plant y cydnabyddir bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn yr ysgol yn 'blant ag anghenion addysgol arbennig' (AAA). Yn ôl diffiniad yn

Neddf Addysg 1996, mae'r rhain yn blant sy'n cael 'anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu' na'u cyfoedion (Llywodraeth Cymru 2015: t. 9), ac sydd fel arfer yn cael eu gwahanu i gategorïau o angen (gan gynnwys anghenion cyfathrebu, corfforol, synhwyraidd ac emosiynol) yn hytrach na labeli diagnostig, megis ADCG. Mae newidiadau sydd i ddod ym maes AAA yng Nghymru, gyda gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA), yn cynnwys terminoleg a phrosesau newydd, lle bydd plant ag AAA yn cael eu nodi fel plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fel y'i diffinnir mewn drafft o'r Cod ADY (Llywodraeth Cymru 2018: t. 20), mae gan blant ag ADY 'anhawster dysgu neu anabledd ... sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol' (DDY). Diffinnir DDY ymhellach fel 'darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a wneir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oed' (Llywodraeth Cymru 2018: t. 21). Ar gyfer ysgolion prif ffrwd, bydd yn ofynnol i ymarferwyr ddarparu DDY, fel y nodir yng Nghynlluniau Datblygu Unigol plant – dogfen statudol newydd sy'n disodli'r defnydd cyfredol o ddatganiadau anghenion arbennig. Er gwaethaf y newidiadau sylweddol hyn, fodd bynnag, nid yw ADCG yn rhan o'r ddogfennaeth ADY newydd.

Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru (2019a), nodwyd bod tua 104,000 o blant ag AAA yng Nghymru, sy'n cyfateb i oddeutu un o bob pump o ddysgwyr yn ystafelloedd dosbarth Cymru. Er ei bod yn anodd cael gafael ar y niferoedd penodol sy'n ymwneud ag ADCG, gan fod rhai plant yn parhau i fod heb ddiagnosis yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol, credir bod tua 3,000 o blant (tua 1–2%) wedi cael diagnosis swyddogol o ADCG yn ysgolion Cymru (Wales Healthcare 2019). Yn 2018, dyrannodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn o gyllid i gefnogi gweithredu Deddf ADYTA (Cymru) 2018, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r arian i'w ddefnyddio ar gyfer hyfforddi ymarferwyr (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018). Ar gyfer 2019–20, darparwyd cyllideb o £892 y plentyn ag AAA i ysgolion, i dalu am ddarpariaeth addysgol arbennig (Llywodraeth Cymru 2019b). Fodd bynnag, gyda gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae ysgolion Cymru yn dyrannu'r gyllideb hon, gydag ysgolion yn penderfynu eu hunain ble a sut i wario'r arian, mae plant ag AAA, gan gynnwys plant ag ADCG, yn debygol o gael profiadau amrywiol, gyda rhai plant yn cael cefnogaeth eithriadol tra bod eraill yn parhau i fod heb ddiagnosis a diffyg cefnogaeth.

Nodwyd mewn adroddiad gan BBC Cymru (Thomas 2020) y credir bod methiant ysgolion i adnabod ADCG (ac awtistiaeth) yn ffactor cyfrannol at gynnydd mewn gwaharddiadau parhaol. Mae'r adroddiad yn nodi nad yw ymarferwyr yn defnyddio adnoddau sydd yn gallu eu helpu i adnabod pam mae plant yn ymddwyn mewn modd amhriodol cyn dechrau prosesau gwahardd. Mae ymarferwyr yn fwy tebygol o dynnu plant aflonyddgar allan o ystafelloedd dosbarth yn hytrach na threulio amser yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Adroddodd Wales Healthcare (2019) bod rhaglenni hyfforddi athrawon yn cael eu hystyried yn 'annigonol' am nad oes ganddynt ffocws ar anhwylderau penodol, megis ADCG. O ganlyniad, ni all athrawon ddarparu gwybodaeth berthnasol a ddefnyddir i gefnogi diagnosisau swyddogol, na gweithredu ymyriadau priodol. Yn ôl canllawiau ADCG ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru 2019c), nid oes angen hyfforddiant arbenigol ar athrawon a chynorthwywyr addysgu i ddarparu strategaethau ar gyfer plant ag ADCG. Ac eto, nodir

o fewn yr un canllaw efallai y bydd angen ymarferwyr proffesiynol cymwys i ddarparu rhai strategaethau yn ogystal ag offer arbenigol i ddarparu ymyrraeth benodol ar gyfer ADCG. Fodd bynnag, dywed y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (2017) na chynigiwyd cefnogaeth ychwanegol i 87% o oedolion a phlant a gafodd ddiagnosis o ADCG (yn y DU) mewn lleoliadau addysgol.

Er gwaethaf cyflwyniad agos y cod ADY newydd yng Nghymru, mae'n ymddangos y bydd ADCG yn cael ei esgeuluso unwaith eto heb unrhyw arweiniad na hyfforddiant clir ar gyfer athrawon ac eraill sy'n cefnogi plant ag ADCG. Mae'n anochel y bydd goblygiadau i hyn o ran cefnogaeth a chynnydd plant, a lles ymarferwyr yng Nghymru.

## Y brif her i athrawon

Mae athrawon dan bwysau cynyddol i gyflawni'r amcanion dysgu cysylltiedig ag oedran a nodwyd gan y Cwricwlwm Cenedlaethol (Adran Addysg y DU 2013), tra'u bod hefyd yn darparu addysg gynhwysol i bawb. Gwelir heriau yn codi pan fydd cynnydd a pherfformiad plant yn cael eu heffeithio gan ymddygiadau aflonyddgar (Burton, Bartlett ac Anderson de Cuevas 2009). Adrodda athrawon eu bod wedi eu gorlethu â'r heriau o gefnogi plant sy'n arddangos ymddygiad aflonyddgar (Scanlon a Barnes-Holmes 2013), ac ymddengys mewn ymchwil bod cymaint â 42% o athrawon yn nodi bod problemau ymddygiad yn eu hysgolion yn effeithio ar eu haddysgu (NASUWT 2014). Nid y gallu i ymdopi â'r ymddygiad yw'r prif bryder i athrawon fel y cyfryw, ond y ffaith bod yr aflonyddwch yn effeithio ar ddysgu a chyrhaeddiad pob plentyn yn eu hystafell ddosbarth (NASUWT 2014).

Yn aml, athrawon yw'r cyntaf i sylwi ar symptomau ADCG. Gan fod athrawon yn gweithio'n agos gyda disgyblion yn ddyddiol, maent yn hanfodol ar gyfer darparu gwybodaeth werthfawr am ymddygiadau tebyg i ADCG a hanes disgybl. Hefyd, mae pryderon cychwynnol athrawon, ynghyd â disgrifiadau o ymddygiadau a ddogfennwyd, yn hynod o bwysig gan eu bod yn cael eu defnyddio i lywio prosesau atgyfeirio ac ymyriadau ymddygiadol dilynol (Anderson, Watt a Shanley 2017). Fodd bynnag, oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â diffyg hyfforddiant penodol i ADCG, nid yw athrawon bob amser yn gallu adnabod symptomau'r anhwylder (Bailey ac Owens 2005) ac, o ganlyniad, gallent oramcangyfrif neu danamcangyfrif mynychder ADCG yn eu hystafelloedd dosbarth (Glass a Wegar 2000; Havey et al., 2005; Sciutto ac Eisenberg 2007). Er mwyn i athrawon gydnabod plant y gallai fod angen atgyfeiriad arnynt ar gyfer ADCG, mae'n hanfodol bod ganddynt wybodaeth gadarn o'r anhwylder ac agwedd gadarnhaol tuag at blant sydd â'r anhwylder hwn, fel bod plant yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol sy'n ofynnol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

## Pwysigrwydd agweddau athrawon

Mae agwedd yn feddylfryd sy'n effeithio ar sut y mae person yn meddwl ac yn gweithredu, sydd wedyn yn dylanwadu ar berfformiad unigolyn, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Mae agweddau athrawon fel arfer yn cael eu ffurfio gan eu profiadau, ynghyd â ffactorau fel profiad

addysgu, hyfforddiant cychwynnol athrawon a chysylltiadau rhwng y plentyn a'r athro (Ernest 1989; Wubbels et al., 2014). Bydd agweddau yn effeithio ar sut y maent yn ymddwyn tuag at blant, a gall ymddygiadau negyddol arwain at ganlyniadau niweidiol i blant (Lee a Witruk 2016). Ar y llaw arall, gall athrawon sy'n dangos agweddau cadarnhaol ymdopi â heriau dyddiol a meddu ar safbwyntiau cadarnhaol (Omolara ac Adebukola 2015) sy'n hanfodol ar gyfer rheoli ystafell ddosbarth a llwyddiant plant (Bolhuis a Voeten 2004; Blotnicky-Gallant et al., 2015). Gall athrawon ag agweddau negyddol ymddangos yn anghyraeddadwy, a gallai hynny arwain at ymgysylltiad isel, ac ymddygiad a pherfformiad academaidd gwan gan blant (Steiner et al., 2014; Rush a Harrison 2008). I'r rhai ag ADCG, mae agweddau athrawon tuag at yr anhwylder yn cael effaith bwerus ar gyflawniadau'r dyfodol, perthnasoedd cymdeithasol a hunan-barch plant (Barkley 2006; Loe a Feldman 2007).

Yn aml, mae athrawon yn ei chael yn anodd rheoli ymddygiad myfyrwyr ag ADCG (Kos, Richdale a Hay 2006), ac mae tarfu yn yr ystafell ddosbarth yn arwain at agweddau negyddol (Ewe 2019). O ganlyniad i negeseuon anghyson yn y cyfryngau, mae gwybodaeth annigonol a thystiolaeth anghyson ynghylch yr hyn sy'n ei beri ac yn cyfrannu ato (Youssef, Hutchinson ac Youssef 2015; Dryer, Kiernan a Tyson 2013) yn debygol o gynyddu ansicrwydd ac amwysedd athrawon ynghylch addysgu plant ag ADCG (Nilholm 2014; Anderson et al., 2012). Gyda chymaint o ansicrwydd a'r heriau y gall plentyn ag ADCG eu cyflwyno, nid yw'n syndod y gall agweddau athrawon tuag at blant ag ADCG fod yn negyddol. Mae tystiolaeth wedi dangos bod athrawon sydd ag agweddau negyddol tuag at ADCG yn teimlo eu bod yn cael eu herio gan blant gorweithgar (Burkman 2012) a theimlent yn amharod wrth ddelio â'r disgyblion hyn (Murphy 2014). Gall hyn arwain at israddio plant ag ADCG a theimladau o hunan-ddibrisiant yn eu plith (Kendall 2016), a mwy o straen ar athrawon (Greene et al., 2002). Felly, mae ymchwil sy'n archwilio agweddau athrawon tuag at ADCG yn hanfodol os ydym am wella canlyniadau addysgol plant ag ADCG a lles athrawon.

## Dull

Yn wahanol i agweddau athrawon tuag at gynhwysiant, a gafodd lawer o sylw dros y degawdau diwethaf, cafodd eu hagweddau tuag at ADCG lawer llai o sylw. Yn ogystal, mae llawer o'r ymchwil wedi canolbwyntio ar athrawon yr UDA, y Dwyrain ac Awstralia, gydag ychydig iawn o ystyriaeth o athrawon y DU, sy'n amlwg yn ôl y diffyg papurau a adenillwyd o'r cronfeydd data. Yr hyn sydd yn amlwg o'r llenyddiaeth yw dylanwad gwahanol ddiwylliannau; yn benodol, mae amrywiadau mewn dehongliadau ac arferion diagnostig, rhoi meddyginiaeth, systemau ysgolion ac agweddau diwylliannol i gyd yn effeithio ar sut y mae ADCG yn cael ei ganfod a'i reoli (Moon 2012; Hinshaw et al., 2011). Gwelir y gwahaniaeth amlycaf yn yr amrywiad mewn cyfraddau mynychder traws-ddiwylliannol o 0.5–26% (Timimi a Taylor 2004). Nodwyd gan Dwivedi a Banhatti (2005) bod clinigwyr Tsieina ac Indonesia wedi rhoi sgoriau sylweddol uwch ar gyfer gorfywiogrwydd na chenhedloedd eraill, sy'n awgrymu lefel goddefgarwch is ar gyfer y math hwn o ymddygiad nag mewn diwylliannau eraill. Cefnogwyd hyn gan adroddiadau sy'n dangos bod yr ymddygiadau

aflonyddgar sy'n gysylltiedig ag ADCG mewn diwylliannau dwyreiniol (Corea, Tsieina) yn cael eu hystyried yn annormal ac yn aml yn cael eu camddehongli fel problemau disgyblu. Mae tystiolaeth hefyd bod diffyg addysg arbennig i blant ag ADCG; nid oblegid adnoddau neu bolisi ariannol annigonol ond, yn hytrach, agweddau negyddol y gymdeithas gyfan. Gall agweddau o'r fath effeithio ar ymdrechion rhieni neu athrawon plant ag ADCG i ganfod cymorth. Mewn astudiaeth am athrawon yn Hong Kong gan Liang a Gao (2016), roedd gan fwyafrif yr athrawon agweddau negyddol tuag at blant ag ADCG, ac roedd pawb a gyfwelwyd yn ystyried bod plant ag ADCG yn faich ar eu hystafelloedd dosbarth. Cyfeiriodd yr athrawon at aneffeithiolrwydd addysg athrawon a diwylliant Tsieineaidd fel cyfranwyr sylweddol at eu credoau negyddol am ADCG.

Gwelir mater arall o fewn systemau addysgol gwahanol wledydd. Er enghraifft, yn yr UDA, mae plant ag ADCG yn gymwys i gael gwasanaethau addysgol arbennig yn y categori 'nam iechyd arall', o dan y Ddeddf Addysg Unigolion gydag Anableddau (IDEA) (Davila, Williams a MacDonald 1991). Yn yr un modd, ar gyfer plant yn y DU, o dan y cod ymarfer anghenion addysgol arbennig ac anabledd: 0 i 25 oed (Adran Addysg y DU 2015), mae gan bob ysgol gydlynydd anghenion addysgol arbennig (CAAA) i ganfod plant sydd angen cefnogaeth. Mewn cyferbyniad â hyn, yn Ne Corea, ni chydnabyddir bod gan blant ag ADCG anabledd o dan y Gyfraith ar Hyrwyddo Addysg Arbennig, sy'n debygol o ddylanwadu ar allu athrawon i adnabod ac atgyfeirio plant sydd ag ADCG. At hynny, mae sut y mae ADCG yn cael ei gysyniadu (h.y. os yw diagnosis yn arwain at ddyrannu adnoddau ychwanegol) hefyd yn debygol o effeithio ar agweddau, profiad ac felly rheolaeth plant ag ADCG (Timimi a Radcliffe 2005).

Nid cyffredinoli yw nod yr adolygiad hwn, oherwydd nid oes modd cymharu ymchwil sydd yn mynd i'r afael ag agweddau athrawon tuag at ADCG a gynhelir mewn gwahanol wledydd, oblegid y gwahaniaethau yn eu diwylliant, eu polisïau a'u systemau addysg a drafodwyd uchod. Yn lle hynny, bydd yr adolygiad hwn yn darparu trosolwg o'r llenyddiaeth ar agweddau athrawon tuag at ADCG a thrafodaeth ar sut y mae agweddau tuag at ADCG yn cael eu mesur. Bydd y papur yn gorffen gydag argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Adolygwyd gwybodaeth o'r erthyglau a gynhwysir yn y papur presennol trwy ddilyn egwyddorion cyfosod integreiddiol (Torraco 2005), yn fras. Yn ôl Torraco (2005), mae adolygiad llenyddiaeth integreiddiol yn fath o ymchwil sy'n adolygu, yn beirniadu ac yn cyfosod llenyddiaeth gynrychioliadol ar bwnc i helpu i gynhyrchu safbwyntiau newydd trwy drafod goblygiadau ar gyfer ymchwil bellach. Chwiliwyd drwy gronfeydd data gan gynnwys ERIC, EBSCOHost, PsycARTICLES a ProQuest Central am erthyglau a oedd yn disgrifio agweddau athrawon tuag at ADCG. Cyfyngwyd y chwiliad am rai termau i'r crynodeb er mwyn delio gyda nifer y canlyniadau. Defnyddiwyd termau allweddol wrth ymchwilio, megis: 'anghenion addysgol arbennig' NEU 'AAA' ynghyd ag 'agweddau athrawon' a'r 'Deyrnas Unedig' NEU 'DU'; 'anhwylder gorfywiogrwydd diffyg sylw' NEU 'anhwylder diffyg sylw' NEU 'ADCG' wedi'i gyfuno ag 'agweddau athrawon' a'r 'Deyrnas Unedig' NEU 'DU'. Cafodd y term DU/Deyrnas Unedig ei ddileu fel term chwilio penodol ar gyfer ADCG oherwydd y nifer isel o ganlyniadau (llai na deg ar draws yr holl gronfeydd data).

Canfuwyd 584 erthygl, a ostyngodd i 299 ar ôl gwaredu dyblygiadau. Penderfynwyd ar y meini prawf cynhwysiad a gwahardd ar gyfer yr astudiaethau ar ddechrau'r broses, a dim ond ymchwil gyda ffocws ar agweddau athrawon tuag at ADCG a gyhoeddwyd yn yr ugain mlynedd diwethaf (2000-20) a gafodd ei gynnwys. Roedd y meini prawf gwahardd yn cynnwys papurau nas cyhoeddwyd mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid a'r rhai nas cyhoeddwyd yn Saesneg. Roedd adnoddau pellach yn cynnwys rhestrau cyfeirio o lyfrau perthnasol (e.e. Barkley 2006; DuPaul a Stoner 2014), a chwiliwyd drwy adroddiadau perthnasol (e.e. Adran Addysg y DU 2013, 2015; NASUWT 2014) am gyfeirnod ychwanegol. Hefyd, daeth naw erthygl arall o'r cyfnodolion rhyngwladol canlynol: *Australian Journal of Learning Difficulties*; *British Journal of Educational Psychology*; *British Journal of Special Education*; *Educational Psychology*; *European Journal of Special Needs Education*; *Journal of Learning Disabilities*; a'r *Journal of Special Education*; *International Journal of Educational Research* a *Psychology in the Schools*.

## Beth y mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud am agweddau athrawon tuag at ADCG?

Yn 2010, datblygodd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2010) fenter i wella rôl yr athro o ran plant ag AAA. Canfu'r adroddiad nad oedd traean o'r holl athrawon yn defnyddio adnoddau yn weithredol neu'n rheolaidd i gefnogi arfer cynhwysol. Yn ôl Forlin, Keen a Barrett (2008), mae llwyddiant neu fethiant i weithredu polisi ac arfer addysg gynhwysol yn dibynnu ar agwedd a chredoau athrawon ynghylch mentrau o'r fath. Mae gan hyn oblygiadau i arfer gan nad oes gan bob athro agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys plant ag AAA. Canfu Cook, Cameron a Tankersley (2007) fod athrawon yn fwy tebygol o wrthod plant ag AAA, a'u bod yn llai ynghlwm â nhw. Daeth Hammond ac Ingalls (2003) i'r casgliad nad oedd mwyafrif yr athrawon yn eu hastudiaeth yn cefnogi cynhwysiant, er bod gan eu hysgolion raglenni cynhwysol. Canfu Burke a Sutherland (2004) ganlyniadau tebyg lle'r oedd agweddau athrawon tuag at gynhwysiant yn negyddol. I rai athrawon, mae'r math o anabledd dan sylw yn effeithio ar eu hagwedd. Er enghraifft, dangosodd Avramidis, Bayliss a Burden (2000) fod plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn achosi llawer mwy o bryder (a llai o bositifrwydd) i athrawon na phlant â mathau eraill o anabledd.

Yn yr un modd, nododd Cook (2001) fod plant ag anableddau dysgu penodol fel ADCG neu anhwylderau ymddygiadol yn llai tebygol o gael eu derbyn gan athrawon na'r rhai ag anableddau di-aflonyddgar. Gellid priodoli'r canfyddiadau hyn i hyfforddiant a chefnogaeth ymarferol annigonol ar gyfer y math hwn o anabledd. At hynny, roedd diffyg mynediad at wybodaeth sy'n ofynnol i alluogi athrawon i deimlo'n hyderus wrth weithredu arferion cynhwysol hefyd wedi cyfrannu at agweddau negyddol yn astudiaeth Monsen, Ewing a Kwoka (2014). Yn ddiddorol, canfu Forlin, Keen a Barrett (2008) fod mwy o weithredu cynhwysol ymhlith staff addysgu iau a llai profiadol, gyda phryderon ynghylch cynhwysiant yn cynyddu gydag oedran a blynyddoedd o brofiad addysgu. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn yn groes i ganfyddiad ymchwil arall a ddatgelodd fod athrawon ar y cyfan yn gadarnhaol

ynghylch cynnwys plant AAA yn eu hystafelloedd dosbarth, waeth beth fo'u blynyddoedd o brofiad addysgu (Ross-Hill 2009).

Mae'n ymddangos bod y llenyddiaeth ar agweddau tuag at AAA yn darparu canfyddiadau anghyson a gwrthgyferbyniol, yn rhannol oblegid nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at ffurfio agwedd. Mae'r llenyddiaeth ar agweddau tuag at ADCG yn rhoi darlun yr un mor gymhleth, gydag athrawon yn arddel agweddau cadarnhaol a negyddol (Mulholland, Cumming a Jung 2015; Anderson, Watt a Shanley 2017; Greenway a Rees Edwards 2020). Mae agweddau cadarnhaol yn cynnwys credu bod 'ADCG yn anhwylder dilys a bod ymddygiad problemus sy'n gysylltiedig ag ADCG y tu hwnt i reolaeth plentyn' (Blotnicky-Gallant et al., 2015: t. 15), tra bod agweddau negyddol yn cynnwys bod 'ADCG yn rhoi esgus i blant gamymddwyn ac ni ddylid dysgu plant ag ADCG mewn system ysgol reolaidd' (Youssef, Hutchinson ac Youssef 2015: t. 6). Mewn un astudiaeth, nododd Al-Omari, Al-Motlaq ac Al-Modallal (2015: t. 133) fod athrawon yn credu y 'byddai cyflawniad addysgol plant ag ADCG yn llai na chyflawniad y rhai heb ADCG', a bod y mwyafrif o athrawon yn anghytuno â datganiadau megis, 'mae IQ plant ag ADCG yn fwy nag IQ plant nad ydynt ag ADCG'. Mewn astudiaeth ddiweddarach, nododd Amiri et al. (2017: t. 3) fod bron i draean o'r athrawon a arolygwyd o'r farn negyddol 'bod ymddygiadau plant ag ADCG yn fwriadol'. Gall negyddiaeth o'r fath a fynegir gan athrawon arwain at ddisgwyliadau isel a'r bygythiad o broffwydoliaeth hunangyflawnol, ac yna canlyniadau negyddol i ddisgyblion ag ADCG (Lee a Witruk 2016). Ymddengys bod amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar agweddau athrawon tuag at ADCG. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth, profiad o ddysgu plant ag ADCG, blynyddoedd o wasanaeth a hyfforddiant penodol i ADCG

### *Gwybodaeth ac agweddau*

Archwiliwyd y berthynas rhwng gwybodaeth ac agweddau tuag at ADCG lawer gwaith. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n anghyson, gyda rhai astudiaethau'n nodi cydberthynas gadarnhaol (Nur a Kavakci 2010; Alfageer et al., 2018) a dim perthynas o gwbl mewn eraill (Youssef, Hutchinson ac Youssef 2015). Mae Ghanizadeh, Bahredar a Moeini (2006) yn honni po fwyaf o wybodaeth sydd gan athrawon am blant ag ADCG, y mwyaf cadarnhaol yw eu hagwedd tuag at gynnwys plant â'r anhwylder hwn. Yn 2016, ni chanfu Liang a Gao unrhyw berthynas rhwng gwybodaeth ac agweddau mewn astudiaeth o athrawon cyn-wasanaeth ac athrawon mewn swydd yn Hong Kong. Er bod lefelau gwybodaeth y cyfranogwyr ar gyfartaledd yn 69% ar gyfer athrawon mewn swydd a 67% ar gyfer athrawon cyn-wasanaeth, roedd eu hagweddau, ar y cyfan, yn negyddol. Er enghraifft, roedd mwyafrif yr athrawon yn credu mai rhianta gwael sydd yn achosi ADCG, gan nodi llwyth gwaith cynyddol, dosbarthiadau mawr a diffyg hyfforddiant fel rhesymau dros eu hagweddau negyddol. Nododd yr athrawon hefyd fod ffactorau o'r fath wedi effeithio ar eu hyder i ddelio â'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ADCG.

Yn yr un modd, ni adroddodd Anderson, Watt a Shanley (2017) unrhyw gysylltiad sylweddol rhwng gwybodaeth ac agweddau. Fodd bynnag, mae'r awduron yn dadlau bod y berthynas rhwng gwybodaeth ac agweddau yn un gymhleth. Er enghraifft, yn eu hastudiaeth

o athrawon cyn-wasanaeth ac athrawon mewn swydd, roedd athrawon gwybodus yn arddangos ymddygiadau mwy cyson tuag at blant ag ADCG (h.y. addasu gwersi a rhoi sylw a chefnogaeth i'r plentyn), ond roedd ganddynt gredoau llai cyson am ADCG (h.y. ddim yn cytuno bod addysgu plant ag ADCG yn werth chweil). Mae'r awduron yn defnyddio'r term 'amwysedd agwedd' i ddisgrifio'r duedd i arddel agweddau cadarnhaol a negyddol ar yr un pryd, ac yn dod i'r casgliad nad yw agweddau amwys yn syndod gan fod yr ymddygiadau aflonyddgar sy'n gysylltiedig ag ADCG, a'r wybodaeth sy'n aml yn gyferbyniol a gyflwynir gan y cyfryngau, yn gallu herio penderfyniadau athrawon a'u rhyngweithiadau gyda phlant ag ADCG.

Er gwaethaf y ffaith nad yw'r ddwy astudiaeth uchod wedi nodi unrhyw gysylltiad rhwng gwybodaeth ac agweddau, mae'n anodd gwneud cymariaethau a chasgliadau oblegid gwahaniaethau methodolegol, arferion addysgu a gwahaniaethau diwylliannol. Er enghraifft, archwiliodd Anderson, Watt a Shanley (2017) 127 o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn Awstralia, ond dim ond 35 o athrawon ysgolion uwchradd a archwiliodd Liang a Gao. Yn astudiaeth Anderson, Watt a Shanley, ar gyfartaledd, roedd gan athrawon 15 mlynedd o brofiad addysgu, ond nid yw Liang a Gao yn nodi blynyddoedd y profiad addysgu ar gyfer eu hathrawon. Hefyd, nododd 45 o athrawon yn Awstralia eu bod wedi derbyn hyfforddiant ADCG i gymharu â dim ond 9 yn astudiaeth Liang a Gao. Yn ogystal, cymerwyd agweddau Liang a Gao o gyfweliadau lled-strwythuredig, ac nid o raddfa agwedd ddilysedig. Er gwaethaf yr anghysondebau ar draws yr astudiaethau, mae rôl gwybodaeth wrth ddeall agweddau athrawon tuag at ADCG yn parhau i fod yn un bwysig y mae angen ei hymchwilio ymhellach.

### *Blynyddoedd o wasanaeth, profiad ac agweddau*

Mae profiad athrawon yn effeithio'n uniongyrchol ar eu hagweddau tuag at blant ag ADCG. Mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod gan athrawon sydd â mwy o brofiad proffesiynol agweddau mwy ffafriol tuag at blant ag ADCG o gymharu ag athrawon sydd â llai o brofiad proffesiynol (Bekle 2004; Hodge et al., 2002). Fodd bynnag, ar gyfer Avramidis a Norwich (2002), roedd athrawon iau a'r rheini â llai o flynyddoedd o brofiad yn fwy cefnogol o integreiddio/cynhwysiant na'r rhai gyda mwy o brofiad. Yn ddiweddarach, nododd Anderson et al. (2012) bod athrawon gyda mwy o brofiad addysgu yn dangos ymddygiad mwy ffafriol tuag at blant ag ADCG nag athrawon cyn-wasanaeth. Noda'r awduron, pan ddechreuodd athrawon cyn-wasanaeth eu cyrsiau hyfforddi athrawon, roedd eu hagweddau tuag at ADCG yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gyda mwy o brofiad addysgu, daethant yn llai ffafriol. Mae astudiaeth fwy diweddar o athrawon Cymreig (Greenway a Rees Edwards 2020) yn cefnogi'r syniad hwn bod agweddau'n newid gyda phrofiad. Datgelodd eu hymchwil gysylltiad negyddol â chredoau cadarnhaol a blynyddoedd o wasanaeth, gan awgrymu bod cynnydd mewn gwasanaeth yn golygu gostyngiad mewn credoau cadarnhaol. Efallai bod y dirywiad mewn agwedd wedi digwydd oherwydd wrth i athrawon ennill profiad a gwybodaeth am ADCG, maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'r anawsterau sy'n wynebu'r unigolyn a phlant eraill yn eu hystafell ddosbarth.

### *Hyfforddiant ac agweddau*

Prin yw'r ymchwil sy'n edrych ar sut y mae hyfforddiant yn effeithio ar agweddau athrawon. Mae'r llenyddiaeth sydd yn bodoli yn tueddu i archwilio rôl hyfforddiant mewn perthynas â gwybodaeth a sut y mae'r wybodaeth honno'n effeithio ar agweddau. Mewn un astudiaeth (Lasisi et al., 2017) o 159 o athrawon ysgolion cynradd yn Nigeria, nododd yr awduron gynnydd sylweddol mewn gwybodaeth ac agweddau llai negyddol yn dilyn sesiwn hyfforddiant tair awr (a sesiwn atgyfnerthu am hanner awr bythefnos yn ddiweddarach). Fodd bynnag, mae'r awduron yn cydnabod sawl cyfyngiad i'r astudiaeth, megis cyfyngiadau amser ac adnoddau a wnaeth effeithio ar hyd yr hyfforddiant a dulliau samplu gwael. Yn fwy diweddar, canfu Greenway a Rees Edwards (2020) fod gan athrawon heb hyfforddiant gredoau mwy negyddol na'r rhai â hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r awduron yn cydnabod, oherwydd na ofynnwyd i athrawon yn benodol am y math o hyfforddiant a dderbyniwyd, na hyd a maint y sesiynau a dderbyniwyd, ni ellir dod i gasgliad pendant ynghylch effaith hyfforddiant, ac maent yn awgrymu bod angen ymchwiliad pellach sy'n archwilio'r ffactorau hyn.

Mae'n werth nodi yma yr amrywioldeb mewn hyfforddiant ar draws diwylliannau. Mewn llawer o'r adolygiadau sy'n archwilio dulliau o hyfforddi athrawon (Awstralia, UDA a Chanada: Singh a Squires 2014; DU: Stewart 2006), ni chafodd mwyafrif yr athrawon dan hyfforddiant gyfarwyddyd na chefnogaeth gydag ADCG. Yn aml, gall diffyg hyfforddiant arwain at ganfyddiadau ac agweddau negyddol, a all effeithio ar ryngweithiadau ac ymddygiad athrawon tuag at blant ag ADCG (Mulholland, Cumming a Jung 2015). Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant bob amser yn ddigonol i wrthdroi'r credoau negyddol sydd gan ddiwylliant penodol. Er enghraifft, nododd Lee a Witruk (2016) fod gan athrawon yn yr Almaen agweddau mwy ffafriol (ond eu bod wedi sgorio'n is o ran gwybodaeth) tuag at ADCG nag athrawon yng Nghorea, er gwaethaf y ffaith bod athrawon yng Nghorea wedi derbyn mwy o hyfforddiant na'u cymheiriaid yn yr Almaen.

## Mesur agweddau athrawon tuag at ADCG

Mae teclynnau sy'n mesur agweddau athrawon tuag at ADCG yn brin. O'r rhai sydd yn bodoli, cwestiynwyd eu dibynadwyedd i fesur agweddau athrawon tuag at ADCG. Hefyd, cwestiynwyd eu cymhlethdod gan fod y mwyafrif ohonynt yn tueddu i ganolbwyntio ar gydrannau agwedd fyd-eang neu sengl, ac felly nid ydynt yn benodol i athrawon na'r ystafell ddosbarth (Soroa, Gorostiaga a Balluerka 2013), gyda rhai'n ychwanegu cwestiynau agwedd ar ddiwedd holiadur gwybodaeth (e.e. Bekle 2004; Al-Omari, Al-Motlaq ac Al-Modallal 2015; Ghanizadeh, Bahredar a Moeini 2006). Un enghraifft yw'r *Attention Deficit Hyperactivity Disorder Questionnaire* (Kos, Richdale a Jackson 2004), sy'n casglu amrywiaeth o wybodaeth yn ymwneud ag ADCG ac sy'n cynnwys 131 o eitemau wedi'u rhannu'n chwe adran. Mae gan adrannau D ac E 87 o eitemau sy'n ymwneud ag agweddau a chredoau am ADCG sy'n gofyn am ymateb ar raddfa analog o 10cm, gyda gwaelod y raddfa yn dangos cytundeb llwyr â'r datganiad (Cytuno'n Gryf), a brig y raddfa yn

nodi anghytundeb llwyr (Anghytuno'n Gryf). Mae'r raddfa wedi cael ei beirniadu'n fawr oherwydd ei hyd a'i chymhlethdod, a'r sampl fach ddaearyddol homogenaidd o 120 o athrawon ysgolion cynradd. Yn ogystal, mae cyflwyniad yr eitemau a'r fformatau ymateb yn wahanol ym mhob adran, ac mae'r graddfeydd analog yn ei gwneud yn anodd dehongli'r ymatebion a roddwyd (Soroa, Gorostiaga a Balluerka 2013). Hefyd, nid yw'r wybodaeth sy'n ymwneud â datblygiad y teclynnau na'r priodweddau seicometrig yn hysbys, sy'n golygu bod canlyniadau a goblygiadau'r rhai sy'n defnyddio'r raddfa hon yn annibynadwy.

Yn yr un modd, mae awduron (e.e. Rodrigo et al., 2011) sy'n honni eu bod yn mesur agweddau wedi defnyddio'r Raddfa Gwybodaeth am Anhwylderau Diffyg Sylw (KADDS) (Sciutto, Terjesen a Frank 2000), ond nid yw'r raddfa'n cynhyrchu gwybodaeth ddibynadwy neu gywir am agweddau athrawon sy'n benodol ynghylch ADCG.

Mewn ymgais i ddileu'r materion uchod, creodd Mulholland, Cumming a Jung (2015) raddfa agwedd benodol i ADCG (SASA – *Scale for ADHD Specific Attitudes*) gyda'r nod o asesu agweddau athrawon tuag at ymddygiadau tebyg i ADCG. Mae'r raddfa yn archwilio credoau gwybyddol: meddyliau a chredoau am ADCG; cyflyrau affeithiol: teimladau tuag at ADCG; a'r rheolaeth ganfyddedig ar ymddygiad unigolyn tuag at ADCG. Yn yr astudiaeth wreiddiol o 116 o athrawon ysgolion cyhoeddus yn Awstralia, adroddodd Mulholland, Cumming a Jung (2015) fod agweddau athrawon tuag at ADCG yn gadarnhaol ar y cyfan, ond bod ganddynt hefyd nifer o agweddau a chredoau negyddol tuag at yr anhwylder. Er enghraifft, cytunodd 64% o athrawon fod gweithio gyda phlant ag ADCG yn werth chweil, a nododd 70% fod ADCG yn achosi straen. Fodd bynnag, mae maint bach y sampl, diffyg manylder am y math o ysgol sydd dan sylw (cynradd neu uwchradd) a diffyg grŵp cymhariaeth yn awgrymu bod angen archwiliad pellach gan ddefnyddio'r raddfa SASA.

## Argymhellion i'r dyfodol

Mae'r adolygiad o agweddau athrawon tuag at ADCG wedi amlinellu rhai o'r meysydd y mae angen eu harchwilio ymhellach. Yn benodol, gyda'r dystiolaeth bod gwybodaeth yn hanfodol wrth ffurfio agweddau, mae angen sicrhau bod pob athro – athrawon cyn-wasanaeth, athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon profiadol – yn cael hyfforddiant penodol a phriodol ar ADCG fel eu bod yn gallu adnabod y cyflwr a chefnogi a rheoli plant ag ADCG. Mae angen ymchwil pellach hefyd i ddatblygu graddfeydd agweddau diwylliannol-benodol priodol i gael gwybodaeth am agweddau athrawon tuag at ADCG fel anhwylder, yr ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ef a'u teimladau ynghylch addysgu plant ag ADCG. Yn olaf, mae angen archwilio agweddau'r rhai sy'n gweithio'n agos gyda phlant ag ADCG. Hyd yn ddiweddar, nid oes unrhyw ymchwil wedi archwilio agweddau cynorthwywyr addysgu, er bod yr unigolion hyn yn aml yn cael eu cyflogi i weithio ar sail un i un gyda phlant ag ADCG.

### *Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus*

Er mwyn hwyluso gwybodaeth well i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ADCG, dylid ystyried hyfforddiant a chefnogaeth i bawb sy'n gweithio gyda phlant ag ADCG. Fodd bynnag, mae angen i raglenni hyfforddi ystyried y canfyddiadau a amlinellwyd gan Greenway a Rees Edwards (2020), sef bod hyfforddiant yn ddigonol i rai athrawon ar gyfer deall agweddau cadarnhaol ADCG ond nad yw'n gwneud llawer i ddileu'r credoau a'r teimladau negyddol sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant ag ADCG. Daw'r awduron i'r casgliad, os yw credoau negyddol yn bodoli er gwaethaf hyfforddiant ADCG, yna gall rhaglenni hyfforddi fod yn canolbwyntio'n ormodol ar yr ymddygiadau a'r anawsterau negyddol sy'n wynebu plant ag ADCG. Gwelwyd canlyniadau negyddol hyfforddiant gan Ohan et al. (2011): yn eu hastudiaeth, gwnaethant archwilio canfyddiadau ac ymatebion athrawon i blant gyda label diagnostig o ADCG a heb label o'r fath. Adroddwyd bod hyfforddiant ADCG yn gysylltiedig â graddfeydd effaith negyddol uwch ar gyfer ymatebion emosiynol.

Yn sgil y drafodaeth uchod am bwysigrwydd hyfforddiant, mae angen archwilio darpariaeth cwricwlwm yr hyfforddiant cychwynnol cyfredol ar gyfer athrawon newydd, a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer athrawon sy'n gwasanaethu ers amser. Byddai'n ddoeth i golegau a phrifysgolion ymgorffori cynnwys craidd ADCG fel archwiliad o ymyriadau ystafell ddosbarth llwyddiannus ac amlygiad i ADCG, sy'n darparu gwybodaeth am fwy na symptomau ac ymddygiadau negyddol a arddangosir gan blant ag ADCG. At hynny, mae angen i raglenni DPP ddarparu llwyfan fel bod staff yn gallu trafod eu profiadau a'u pryderon er mwyn iddynt gael sicrwydd bod eu teimladau a'u credoau yn normal, yn enwedig o ystyried eu bod yn aml yn derbyn gwybodaeth gyferbyniol, ynghyd a gorfod ymdopi gydag amgylchiadau heriol sy'n ymwneud ag ymddygiadau tebyg i ADCG yn yr ystafell ddosbarth. Byddai cynnig strategaethau ymdopi sy'n gwella arferion ystafell ddosbarth ar eu cyfer eu hunain a phlant ag ADCG yn sicrhau bod athrawon yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu rolau, a gallai helpu i negyddu'r teimladau a'r credoau negyddol sydd ganddynt.

### *Ffyrdd newydd o fesur agweddau*

Mae mwyafrif yr astudiaethau sy'n archwilio agweddau athrawon tuag at ADCG wedi defnyddio holiaduron. Trafodwyd y materion sy'n gysylltiedig â'r mesuriadau hyn uchod. Felly, yn ogystal â'r angen i efelychu canlyniadau SASA, mae angen dilysu graddfeydd diwylliannol-benodol newydd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar agweddau a theimladau athrawon tuag at ADCG. Hyd yn hyn, nid oes graddfa agwedd yn bodoli yn y DU, ac o ystyried y ffordd wahanol o gael diagnosis a sut i reoli ADCG, efallai y byddai'n ddoeth i ymchwilwyr y dyfodol greu teclyn dilys a dibynadwy sy'n mesur agweddau pawb sy'n gweithio'n agos gyda phlant ag ADCG (cynorthwywyr addysgu ac athrawon). Mae'r diffyg dulliau ansoddol amlwg yn rhoi cyfle i ymchwilwyr gael mewnwelediadau manwl i brofiadau'r rhai sy'n gweithio'n agos gydag ADCG. Gallai defnyddio cyfweliadau neu grwpiau ffocws i archwilio profiadau personol athrawon a chynorthwywyr addysgu ein helpu i ddeall dyfnder a datblygiad eu hagweddau tuag at ADCG.

### *Archwiliad o'r rhai sy'n gweithio'n agos gyda phlant ag ADCG*

Er bod llawer o ystafelloedd dosbarth yn cyflogi staff ychwanegol i gefnogi plant ag ADCG, ychydig iawn sy'n hysbys am agweddau'r gweithwyr proffesiynol hyn. Gelwir y rhain yn gynorthwywyr addysgu yng Nghymru, a'u rôl yw cefnogi plant ag anghenion addysgol ac anawsterau ymddygiad, a chynnig cymorth hanfodol i athrawon sy'n delio ag ymddygiadau tebyg i ADCG (Blatchford et al., 2009). O ystyried nifer yr achosion o gynorthwywyr addysgol sy'n gweithio'n agos gyda phlant ag ADCG, mae'n syndod mai dim ond un astudiaeth a gafwyd hyd yma (Greenway a Rees Edwards 2020) sy'n archwilio eu hagweddau tuag at ADCG. Yn eu hastudiaeth, cymharodd Greenway a Rees Edwards agweddau athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd a chynorthwywyr addysgu. Gwnaethant adrodd ei bod yn ymddangos bod gan gynorthwywyr deimladau mwy cadarnhaol, a llai o deimladau a chredoau negyddol nag oedd gan athrawon. Maent yn awgrymu y gellir egluro eu canfyddiadau ar sail natur y berthynas rhwng cynorthwyydd a phlentyn ag ADCG, yn yr ystyr bod cynorthwywyr yn treulio mwy o amser unigol gyda phlant ag ADCG, tra bod yr athro'n canolbwyntio ar weddill y dosbarth, sy'n arwain at lai o amser i athrawon ddelio ag ymddygiadau tebyg i ADCG (Sharples, Webster a Blatchford 2015). Yn sgil y canfyddiadau newydd a adroddwyd yn astudiaeth Greenway a Rees Edwards, mae angen mwy o ymchwil ar brofiadau ac agweddau cynorthwywyr i wella ein dealltwriaeth o'r rhai sy'n gweithio gydag ADCG. At hynny, efallai y bydd addysgwyr a llunwyr polisi am weithio ochr yn ochr â chynorthwywyr i helpu i wella cyfleoedd adnabod ac ymyrraeth i sicrhau bod plant a staff yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth briodol sy'n annog canlyniadau cadarnhaol i unigolion ac ystafelloedd dosbarth.

## Casgliad

Mae'r papur hwn wedi darparu adolygiad cynhwysfawr o'r ddealltwriaeth fwyaf cyfredol o agweddau athrawon tuag at ADCG. O ystyried yr adolygiad uchod a'r dystiolaeth flaenorol bod agweddau athrawon tuag at ADCG yn dylanwadu ar eu dewis o strategaethau yn yr ystafell ddosbarth a phenderfyniadau atgyfeirio (Blotnicky-Gallant et al., 2015; Anderson, Watt a Shanley 2017), a bod yr ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ADCG yn cynyddu'r risg o straen ar athrawon (Greene et al., 2002), mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gweithio gydag ADCG yn cael y modd i ddatblygu strategaethau ymdopi ar gyfer rheoli teimladau negyddol, teimladau o rwystredigaeth a blinder sy'n codi o weithio gyda phlant ag ADCG. Mae angen gwella hyfforddiant penodol i ADCG ar unwaith trwy hyfforddiant athrawon cychwynnol neu gyfleoedd DPP i helpu i leihau ansicrwydd, camsyniadau ac agweddau negyddol dilynol. Mae angen i systemau yn yr ysgol sefydlu amgylchedd diogel, cefnogol ac anfeirniadol, lle gall athrawon a chynorthwywyr drafod eu profiadau, eu pryderon a'u hagweddau tuag at ADCG. Bydd strategaethau o'r fath yn helpu ysgolion i amddiffyn lles eu staff ac yn caniatáu i athrawon a chynorthwywyr addysgu deimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu rôl i sicrhau bod plant ag ADCG yn cael cyfle i ffynnu.

## Cyfeiriadau

Al-Omari, H., Al-Motlaq, M. A. ac Al-Modallal, H. (2015), 'Knowledge of and attitude towards attention-deficit hyperactivity disorder among primary school teachers in Jordan', *Child Care in Practice*, 21, 128–39.

Alfageer, H. H., et al. (2018), 'Knowledge and attitude of male primary school teachers about attention deficit and hyperactivity disorder in Riyadh, Saudi Arabia', *Journal of Natural Science, Biology and Medicine*, 9, 257.

Alkahtani, K. D. (2013), 'Teachers' knowledge and misconceptions of attention deficit/hyperactivity disorder', *Psychology*, 4, 963.

American Psychological Association (2013), *Publication manual of the American Psychological Association* (6ed argraffiad) (Washington, DC: American Psychological Association).

Amiri, S., et al. (2017), 'Knowledge and attitudes of preschool teachers regarding attention deficit hyperactivity disorder', *Iranian Journal of Pediatrics*, 27, e3834.

Anderson, D. L., et al. (2012), 'Knowledge of attention deficit hyperactivity disorder (ADHD) and attitudes toward teaching children with ADHD: The role of teaching experience', *Psychology in the Schools*, 49, 511–25.

Anderson, D. L., Watt, S. E. a Shanley, D. C. (2017), 'Ambivalent attitudes about teaching children with attention deficit/hyperactivity disorder (ADHD)', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 22, 332–49.

Avramidis, E., Bayliss, P. a Burden, R. (2000), 'Student teachers' attitudes towards the inclusion of children with special educational needs in the ordinary school', *Teaching and Teacher Education*, 16, 277–93.

Avramidis, E. a Norwich, B. (2002), 'Teachers' attitudes towards integration/inclusion: a review of the literature', *European Journal of Special Needs Education*, 17, 129–47.

Bailey, R. K. ac Owens, D. L. (2005), 'Overcoming challenges in the diagnosis and treatment of attention-deficit/hyperactivity disorder in African Americans', *Journal of the National Medical Association*, 97, 5.

Barkley, R. A. (2006), *Attention-deficit hyperactivity disorder: A handbook for diagnosis and treatment* (3ydd argraffiad) (Efrog Newydd: Guilford).

Bekle, B. (2004), 'Knowledge and attitudes about attention-deficit hyperactivity disorder (ADHD): A comparison between practicing teachers and undergraduate education students', *Journal of Attention Disorders*, 7, 151–61.

Blatchford, P., et al. (2009), *The deployment and impact of support staff in schools: Characteristics, working conditions, job satisfaction and impact of workforce remodeling. Report on findings from the three national questionnaire surveys of schools, support staff and teachers. (Strand 1 Waves 1–3 – 2004, 2006 and 2008)* (Llundain: DCSF) <http://maximisingtas.co.uk/assets/content/disss1w123r.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2020].

Blotnicky-Gallant, P., et al. (2015), 'Nova Scotia teachers' ADHD knowledge, beliefs, and classroom management practices', *Canadian Journal of School Psychology*, 30, 3–21.

Bolhuis, S. a Voeten, M. J. (2004), 'Teachers' conceptions of student learning and own learning', *Teachers and Teaching*, 10, 77–98.

Brook, U. a Geva, D. (2001), 'Knowledge and attitudes of high school pupils towards peers' attention deficit and learning disabilities', *Patient Education and Counseling*, 43, 31–6.

Buhs, E. S. a Ladd, G. W. (2001), 'Peer rejection as antecedent of young children's school adjustment: An examination of mediating processes', *Developmental Psychology*, 37, 550.

Burke, K. a Sutherland, C. (2004), 'Attitudes toward inclusion: Knowledge vs. Experience', *Education*, 125, 163–72.

Burkman, A. (2012), 'Preparing novice teachers for success in elementary classrooms through professional development', *Delta Kappa Gamma Bulletin*, 78, 23–33.

Burton, D. M., Bartlett, S. J. ac Anderson de Cuevas, R. (2009), 'Are the contradictions and tensions that have characterised educational provision for young people with behavioural, emotional and social difficulties a persistent feature of current policy?', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 14, 141–55.

Cook, B. G. (2001), 'A comparison of teachers' attitudes toward their included students with mild and severe disabilities', *Journal of Special Education*, 34, 203.

Cook, B. G., Cameron, D. L. a Tankersley, M. (2007), 'Inclusive teachers' attitudinal ratings of their students with disabilities', *Journal of Special Education*, 40, 230–8.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015), *Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru* <https://www.snapcymru.org/wp-content/uploads/2015/10/15-025-cy.pdf> [Cyrchwyd: 12 Mai 2020].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), *Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru* <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf> [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2020].

Davila, R. R., Williams, M. L. a MacDonald, J. T. (1991), 'Memorandum: Clarification of policy to address the needs of children with Attention Deficit Disorders within general and/or special education' (U.S. Department of Education: Office of Special Education and Rehabilitative Services).

Department for Children, Schools and Families (DCSF) (2010), *Evaluation of impact of DCSF investment in initiatives designed to improve teacher workforce skills in relation to SEN and disabilities: The first 6 months* (Llundain: DCSF) <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/521507/DFE-RR115-SEND-improving-teacher-skills-final-report.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2020].

Department for Education (2013), *The national curriculum in England, Framework Document for Consultation, Department for Education* <http://media.education.gov.uk/assets/files/pdf/n/national%20curriculum%20consultation%20-%20framework%20document.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2020].

Department for Education (2015), *SEND Code of Practice 0–25 Years* (Llundain: Department for Education, Department of Health).

Dryer, R., Kiernan, M. J. a Tyson, G. A. (2013), 'Do professions differ in their beliefs about ADHD?', *ADHD: Cognitive Symptoms, Genetics and Treatment Outcomes*, 61–80.

DuPaul, G. J. a Stoner, G. (2014), *ADHD in the Schools: Assessment and Intervention Strategies* (Efrog Newydd: Guilford Publications).

Dwivedi, K. N. a Banhatti, R. G. (2005), 'Attention deficit/hyperactivity disorder and ethnicity', *Archives of Disease in Childhood*, 90, 10–12.

Efron, D., et al. (2018), 'Peer victimisation in children with ADHD: a community-based longitudinal study', *Journal of Attention Disorders*, 1087054718796287.

Ernest, P. (1989), 'The knowledge, beliefs and attitudes of the mathematics teacher: A model', *Journal of Education for Teaching*, 15, 13–33.

Ewe, L. P. (2019), 'ADHD symptoms and the teacher–student relationship: a systematic literature review', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 24, 136–55.

Forlin, C., Keen, M. a Barrett, E. (2008), 'The concerns of mainstream teachers: Coping with inclusivity in an Australian context', *International Journal of Disability, Development and Education*, 55, 251–64.

Ghanizadeh, A., Bahredar, M. J. a Moeini, S. R. (2006), 'Knowledge and attitudes towards attention deficit hyperactivity disorder among elementary school teachers', *Patient Education and Counseling*, 63, 84–8.

Glass, C. S. a Wegar, K. (2000), 'Teacher perceptions of the incidence and management of attention deficit hyperactivity disorder', *Education*, 121.

Greene, R. W., et al. (2002), 'Are students with ADHD more stressful to teach? Patterns of teacher stress in an elementary school sample', *Journal of Emotional and Behavioral Disorders*, 10, 79–89.

Greenway, C. W. a Rees Edwards, A. (2020), 'Knowledge and attitudes towards attention-deficit hyperactivity disorder (ADHD): a comparison of teachers and teaching assistants', *Australian Journal of Learning Difficulties*, 1–19.

Hammond, H. ac Ingalls, L. (2003), 'Teachers Attitudes toward Inclusion: Survey Results from Elementary School Teachers in Three Southwestern Rural School Districts', *Rural Special Education Quarterly*, 22, 24–30.

Havey, J. M., et al. (2005), 'Teachers' perceptions of the incidence and management of attention-deficit hyperactivity disorder', *Applied Neuropsychology*, 12, 120–7.

Hinshaw, S. P., et al. (2011), 'International variation in treatment procedures for ADHD: social context and recent trends', *Psychiatric Services*, 62 459–64.

Hodge, S. R., et al. (2002), 'Comparison of practicum types in changing preservice teachers' attitudes and perceived competence', *Adapted Physical Activity Quarterly*, 19, 155–71.

Hong, Y. (2008), 'Teachers' perceptions of young children with ADHD in Korea', *Early Child Development and Care*, 178, 399–414.

Humphrey, N. a Symes, W. (2010), 'Perceptions of social support and experience of bullying among pupils with autistic spectrum disorders in mainstream secondary schools', *European Journal of Special Needs Education*, 25, 77–91.

Kendall, L. (2016) '"The teacher said I'm thick!" Experiences of children with Attention Deficit Hyperactivity Disorder within a school setting', *Support for Learning*, 31, 122–37.

Kos, J. M., Richdale, A. L. a Jackson, M. S. (2004), 'Knowledge about Attention-Deficit/Hyperactivity Disorder: A comparison of in-service and preservice teachers', *Psychology in the Schools*, 41, 517–26.

Kos, J. M., Richdale, A. L. a Hay, D. A. (2006), 'Children with attention deficit hyperactivity disorder and their teachers: A review of the literature', *International Journal of Disability, Development and Education*, 53, 147–60.

Lasisi, D., et al. (2017), 'Effect of attention-deficit-hyperactivity-disorder training program on the knowledge and attitudes of primary school teachers in Kaduna, North-West Nigeria', *Child and Adolescent Psychiatry and Mental Health*, 11, 15.

Lee, Y. a Witruk, E. (2016), 'Teachers' knowledge, perceived teaching efficacy, and attitudes regarding students with ADHD: a cross-cultural comparison of teachers in South Korea and Germany', *Health Psychology Report*, 4, 103–15.

Liang, L. a Gao, X. (2016), 'Pre-service and in-service secondary school teachers' knowledge about attention-deficit hyperactivity disorder (ADHD) and attitudes toward students with ADHD', *International Journal of Disability, Development and Education*, 63, 369–83.

Loe, I. M. a Feldman, H. M. (2007), 'Academic and educational outcomes of children with ADHD', *Journal of Pediatric Psychology*, 32, 643–54.

Llywodraeth Cymru (2018), *Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru* <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/AccessandInclusiontoEducation/AdditionalLearningNeedsAct/DraftAdditionalLearningNeedsCodeforWales.pdf> [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2020].

Llywodraeth Cymru (2019a), *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2019* <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-737.pdf> [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2020].

Llywodraeth Cymru (2019b), *Budgeted Expenditure on Special Educational Needs (SEN) Provision: 2019–20 – Revised* <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/gwariant-sydd-wedii-gyllidebu-ar-gyfer-darpariaeth-anghenion-addysgol-arbennig-aaa-ebrill-2019-i-mawrth-2020-diwygiedig_0.pdf> [Cyrchwyd: 20 Mehefin 2020].

Llywodraeth Cymru (2019c), *Cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) mewn lleoliadau addysgol* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ffyrdd-o-gefnogi-dysgwyr-ag-anhwylder-diffyg-canolbwyntio-a-gorfywiogrwydd-adhd.pdf> [Cyrchwyd: 19 Mehefin 2020].

Monsen, J. J., Ewing, D. L. a Kwoka, M. (2014), 'Teachers' attitudes towards inclusion, perceived adequacy of support and classroom learning environment', *Learning Environments Research*, 17, 113–26.

Moon, S. (2012), 'Cultural perspectives on attention deficit hyperactivity disorder: A comparison between Korea and the US', *Journal of International Business and Cultural Studies*, 6, 1.

Mulholland, S. M., Cumming, T. M. a Jung, J. Y. (2015), 'Teacher attitudes towards students who exhibit ADHD-type behaviours', *Australasian Journal of Special Education*, 39, 15–36.

Murphy, S. (2014), 'Finding the Right Fit: Inclusive Strategies for Students with Characteristics of ADHD', *Young Children*, 69, 66–71 <https://www.jstor.org/stable/ycyoungchildren.69.3.66?seq=1#page_scan_tab_contents> [Cyrchwyd: 23 Mai 2020].

NASUWT (2014), *Verbal abuse of teachers on the increase* <https://www.politicshome.com/news/uk/education/press-release/nasuwt/51768/verbal-abuse-teachers-increase> [Cyrchwyd: 15 Mai 2020].

National Centre for Mental Health (2017), *New report highlights lack of services for people with ADHD* <https://www.ncmh.info/2017/11/06/new-report-highlights-lack-of-services-for-people-with-adhd/> [Cyrchwyd: 24 Mai 2020].

National Institute for Health and Care Excellence (NICE) (2018), *Attention deficit hyperactivity disorder: diagnosis and management* <https://www.nice.org.uk/guidance/ng87/chapter/recommendations> [Cyrchwyd: 24 Mai 2020].

Nilholm, C. (2014), 'ADHD: an educational challenge', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 19, 324–6.

Nur, N. a Kavakci, O. (2010), 'Elementary school teachers' knowledge and attitudes related to attention deficit hyperactivity disorder', *HealthMED*, 4, 350–5.

Nurmi, J. E. (2012), 'Students' characteristics and teacher-child relationships in instruction: A meta-analysis', *Educational Research Review*, 7, 177–97.

Ohan, J. L., et al. (2011), 'Teachers' and education students' perceptions of and reactions to children with and without the diagnostic label "ADHD"', *Journal of School Psychology*, 49, 81–105.

Omolara, S. R. ac Adebukola, O. R. (2015), 'Teachers' Attitudes: A Great Influence on Teaching and Learning of Social Studies', *Journal of Law, Policy and Globalization*, 42, 131.

Parker, J. G., et al. (2006), *Peer relationships, child development, and adjustment: A developmental psychopathology perspective* <https://www.researchgate.net/profile/Kenneth_Rubin/publication/306198516_Peer_relationships_and_developmental_psychopathology/links/57d2d21708ae601b39a41d8a.pdf> [Cyrchwyd: 15 Mai 2020].

Reijntjes, A., et al. (2010), 'Peer victimisation and internalising problems in children: A meta-analysis of longitudinal studies', *Child Abuse and Neglect*, 34, 244–52.

Rodrigo, M. D. A., et al. (2011), 'The knowledge and attitude of primary school teachers in Sri Lanka towards childhood attention deficit hyperactivity disorder', *Ceylon Medical Journal*, 56, 51–4.

Ross-Hill, R. (2009), 'Teacher attitude towards inclusion practices and special needs students', *Journal of Research in Special Educational Needs*, 9, 188–98.

Rush, C. a Harrison, P. (2008), 'Ascertaining teachers' perceptions of working with adolescents diagnosed with attention-deficit/hyperactivity disorder', *Educational Psychology in Practice*, 24, 207–23.

Sayal, K., et al. (2018), 'ADHD in children and young people: prevalence, care pathways, and service provision', *Lancet Psychiatry*, 5, 175–86.

Scanlon, G. a Barnes-Holmes, Y. (2013), 'Changing attitudes: Supporting teachers in effectively including students with emotional and behavioural difficulties in mainstream education', *Emotional and Behavioural Difficulties*, 18, 374–95.

Sciutto, M. J. ac Eisenberg, M. (2007), 'Evaluating the evidence for and against the overdiagnosis of ADHD', *Journal of Attention Disorders*, 11, 106–13.

Sciutto, M. J., Terjesen, M. D. a Frank, A. S. B. (2000), 'Teachers' knowledge and misperceptions of attention-deficit/hyperactivity disorder', *Psychology in the Schools*, 37, 115–22.

Sharples, J., Webster, R. a Blatchford, P. (2015), *Making Best Use of Teaching Assistants. Guidance Report*, Mawrth 2015 (Llundain: Education Endowment Foundation) <https://educationendowmentfoundation.org.uk/uploads/pdf/Making_best_use_of_TAs_printable.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2020].

Singh, A. a Squires, J. (2014), 'ADHD in preschool: approaches and teacher training', *Journal of the American Academy of Special Education Professionals*, 3, 122–49.

Soroa, M., Gorostiaga, A. a Balluerka, N. (2013), 'Review of tools used for assessing teachers' level of knowledge with regards attention deficit hyperactivity disorder (ADHD)', yn Banerjee, S. (gol.), *Attention Deficit Hyperactivity Disorder in Children and Adolescents* (Rijeka, Croatia: InTech), tt. 151–77.

Steiner, N. J., et al. (2014), 'Classroom behavior of participants with ADHD compared with peers: Influence of teaching format and grade level', *Journal of Applied School Psychology*, 30, 209–22.

Stewart, W. (2006), 'Can you handle overactive pupils?', *Times Educational Supplement*, 1, 23.

Thomas, D. (2020), 'Autism and ADHD "not being spotted" as exclusions rise' <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51384024> [Cyrchwyd: 24 Mehefin 2020].

Timimi, S. a Radcliffe, N. (2005), 'The rise and rise of attention deficit hyperactivity disorder', *Journal of Public Mental Health*, 4, 9.

Timimi, S. a Taylor, E. (2004), 'ADHD is best understood as a cultural construct', *The British Journal of Psychiatry*, 184, 8–9.

Torraco, R. J. (2005), 'Writing integrative literature reviews: Guidelines and examples', *Human Resource Development Review*, 4, 356–67.

Wales Healthcare (2019), *ADHD: a quest for more* <http://waleshealthcare.com/adhd-a-quest-for-more/> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2020].

Wubbels, T., et al. (2014), 'Teacher-student relationships and classroom management', yn Emmer, E. T., Sabornie, E., Evertson, C. ac Weinstein, C. (goln), *Handbook of classroom management: Research, practice, and contemporary issues* (2ail argraffiad) (Efrog Newydd: Routledge), tt. 363–86.

Youssef, M. K., Hutchinson, G. ac Youssef, F. F. (2015), 'Knowledge of and attitudes toward ADHD among teachers: insights from a Caribbean Nation', *Sage Open*, 5, 1–8.

# Yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Undeb Ewropeaidd: Crefydd a Llywodraethiant yn yr Unfed Ganrif ar Hugain[1]

Einion Dafydd

Cyflwynwyd: 22 Chwefror 2020; Derbyniwyd: 11 Medi 2020

**Crynodeb**: Mae'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae'r Eglwys Gatholig Rufeinig a'r gymuned Gatholig ehangach yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Amlinella ffurf sefydliadol a threfniadaethol y prif gyrff Catholig sy'n weithredol ym Mrwsel, a dengys sut y maent yn ymwneud â phrosesau polisi'r UE. Seilir y gwaith dadansoddi ar gorff o gyfweliadau gwreiddiol a gynhaliwyd ag ymarferwyr. Dengys fod y berthynas rhwng y gymuned Gatholig a'r UE yn gweithredu ar dair lefel – lefel ddiplomyddol, lefel led ffurfiol a sefydliadol, a lefel anffurfiol – a bod yn rhaid cadw golwg ar y tair lefel er mwyn cael darlun clir o'r modd y gweithreda'r gymuned Gatholig mewn perthynas â'r UE. Cyflwynir tair set o oblygiadau sy'n datblygu dealltwriaeth o rôl crefydd mewn llywodraethiant cyfoes.

**Allweddeiriau:** Yr Eglwys Gatholig Rufeinig, Yr Undeb Ewropeaidd, lobïo, eirioli, crefydd, llywodraethiant.

## The Roman Catholic Church and the European Union: Religion and Governance in the Twenty-first Century

**Abstract**: This study considers how the Roman Catholic Church and the broader Catholic community interacts with the European Union (EU). It outlines the organisational form of the most active Catholic bodies, and sets out how they engage with EU policy processes. The empirical analysis draws on original interviews carried out with practitioners. It demonstrates that the relationship between the Catholic community and the EU operates on three levels – on the diplomatic level, on a partly formalised institutional level and on an informal level – and that an appreciation of all three levels is necessary in order to understand how the Catholic community operates in Brussels. Three sets of consequences are presented and these develop understanding of the role of religion in contemporary governance.

**Key words**: The Roman Catholic Church, The European Union, lobbying, advocacy, religion, governance.

[1] Dymuna'r awdur ddiolch am nawdd hael Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa Saunders Lewis a ddarparwyd i gefnogi'r gwaith maes sy'n sail i'r astudiaeth hon, gwaith a gynhaliwyd pan oedd yr awdur yn gysylltiedig ag Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd. Nid yw'r astudiaeth hon o reidrwydd yn adlewyrchu barn cyflogwr presennol yr awdur na barn Cronfa Goffa Saunders Lewis.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

## Cyflwyniad

Astudir yma natur y berthynas sy'n bodoli rhwng yr Eglwys Gatholig Rufeinig (yr Eglwys) a'r Undeb Ewropeaidd (yr UE). Mae'r astudiaeth yn mantoli sut y mae'r Eglwys a mudiadau Catholig annibynnol yn ymwneud â phrosesau polisi'r UE, ac yn ystyried ffurf sefydliadol a threfniadaethol y cyrff Catholig sy'n weithredol. Mae'r gwaith dadansoddi yn seiliedig ar gasgliad o gyfweliadau gwreiddiol rhwng yr awdur a chynrychiolwyr yr Eglwys, ac â chynrychiolwyr grwpiau pwyso o amryw gefndiroedd ffydd a di-ffydd. Prif ganfyddiad yr astudiaeth yw bod y berthynas rhwng y gymuned Gatholig a'r UE yn gweithredu ar dair lefel. Yn gyntaf, ceir perthynas ddiplomyddol rhwng y Babaeth a'r UE fel dau endid sofran. Yn ail, ceir perthynas strwythuredig a lled ffurfiol rhwng Comisiwn Cynadleddau Esgobion y Gymuned Ewropeaidd (COMECE), y corff sy'n cynrychioli'r Eglwys ym Mrwsel, a'r UE. Yn drydydd, ceir amryw o gyrff sy'n hyrwyddo buddiannau Catholig ym Mrwsel ond sy'n gweithredu o hyd braich, neu'n gyfan gwbl annibynnol ar yr Eglwys; mae'r rhain yn gweithredu fel grwpiau pwyso traddodiadol, heb berthynas ffurfiol â'r UE. Ergyd yr astudiaeth yw bod yn rhaid cadw golwg ar y tair lefel o weithgaredd er mwyn deall natur y berthynas sy'n bodoli rhwng yr Eglwys a'r UE.

Stwythurir yr astudiaeth fel a ganlyn. Yn gyntaf cyflwynir arolwg o'r llenyddiaeth sydd ar gael ar yr Eglwys mewn perthynas ag Ewrop, gan dynnu sylw at ei phrif gryfderau a'i gwendidau. Mae'r ail adran yn cyflwyno'r cwestiwn ymchwil sy'n ganolog i'r astudiaeth, ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddiwyd i'w ateb. Mae'r drydedd adran yn darparu trosolwg cryno o statws ffurfiol y Babaeth mewn perthynas â'r UE. Yna cyflwynir y canfyddiadau empeirig mewn tair adran sy'n ystyried strwythur a dull gweithredu eiriolwyr Catholig ar y tair lefel a amlinellwyd uchod. Rhestrir yn adran olaf yr astudiaeth y prif ganfyddiadau, gan ystyried rhai goblygiadau ar gyfer deall y berthynas sydd rhwng crefydd a llywodraethiant yn y cyfnod cyfoes.

## Yr Eglwys ac Ewrop: adolygu'r llenyddiaeth

O ystyried bod 240 miliwn o ddinasyddion yr UE yn aelodau o'r Eglwys,[2] nid yw'n syndod bod ymdriniaethau ar glawr sy'n trafod rhai agweddau ar y berthynas rhwng yr Eglwys a llywodraethiant yn Ewrop. Mae Kratochvíl a Doležal yn trafod diwinyddiaeth wleidyddol yr Eglwys.[3] Astudiwyd agwedd gwahanol Babau at y term 'Ewrop', ac at rôl yr Eglwys o fewn yr Ewrop honno.[4] Rhoddwyd sylw i ymdrechion y Pab Ioan Pawl II i ddylanwadu ar

[2] Y Comisiwn Ewropeaidd (2012), *Special Eurobarometer 393: Discrimination in the EU in 2012* <http://ec.europa.eu/public_opinion/archives/ebs/ebs_393_en.pdf> [Cyrchwyd: 15 Awst 2015].

[3] Kratochvíl, P. a Doležal, T. (2015), *The European Union and the Catholic Church: Political Theology of European Integration* (Basingstoke: Palgrave MacMillan).

[4] Sutton, M. (1997), 'John Paul II's Idea of Europe', *Religion, State & Society*, 25 (1), 17–29; Rowland, T. (2008), *Ratzinger's Faith: The Theology of Pope Benedict XVI* (Rhydychen: Oxford University Press); O'Mahony, A. (2009), 'The Vatican and Europe: Political Theology and Ecclesiology in Papal Statements from Pius XII to Benedict XVI', *International Journal for the Study of the Christian Church*, 9 (3), 177–94.

wleidyddiaeth gwledydd canol a dwyrain Ewrop yn ystod y Rhyfel Oer,[5] a'i rôl o ran ailuno Ewrop yn dilyn cwymp Mur Berlin.[6]

Ceir ymdriniaethau ar rôl gwleidyddion Catholig yn y broses o uno Ewrop yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae i syniadaeth Gatholig arweinwyr gwleidyddol y cyfandir, megis Adenauer, Schuman a de Gaulle – a'r drafodaeth ynghylch i ba raddau y dylanwadodd eu syniadaeth ar ddatblygiad sefydliadol integreiddio Ewropeaidd – rôl ganolog mewn astudiaethau hanesyddiaethol ar yr UE.[7] Gyda hyn yn gefndir, diddorol yw gweld bod lefel y gefnogaeth i'r UE yn gryfach ymysg Catholigion nag ymysg grwpiau crefyddol eraill.[8]

Gwendid amlwg y llenyddiaeth bresennol yw'r diffyg sylw a delir ynddi i weithgaredd yr Eglwys ym mhrosesau polisi'r UE. Pa mor weithredol yw hi mewn gwirionedd? Darpara Turner[9] rai manylion ffeithiol am waith COMECE. Gwendidau'r astudiaeth yw'r diffyg dadansoddi, a'r ffaith nad oes modd cyd-destunoli'r gweithgaredd hwn o fewn gweithgareddau ehangach y gymuned Gatholig am fod y ffocws ar un sefydliad yn unig. Disgrifia Liedhegener y cyfleon y mae'r UE a sefydliadau gwleidyddol Unol Daleithiau America yn eu cynnig i'r Eglwys i weithredu, ond nid yw'n trafod a yw hi'n manteisio ar y cyfleon hynny.[10] Ni roddir unrhyw sylw i weithgaredd sefydliadau crefyddol gan astudiaethau prif ffrwd ar lobïo yn yr UE ychwaith.[11] Mae'r astudiaethau, un ac oll, yn dawedog iawn ar fater ymdrechion yr Eglwys o ddydd i ddydd i lobïo sefydliadau'r UE.

---

[5] Ornatowski, Cezar M. (2009), 'Rhetoric of Pope John Paul II's Visits to Poland 1979–99', yn Blaney, Joseph R. a Zompetti, Joseph P. (goln.), *The Rhetoric of Pope John Paul II* (Lanham, MD: Lexington Books), tt. 103–50; Weigel, G. (2010), *The End and the Beginning: Pope John Paul II – The Victory of Freedom, the Last Years, the Legacy* (Efrog Newydd: Doubleday).

[6] Byrnes, T. A. (2001), *Transnational Catholicism in Postcommunist Europe* (Lanham, MD: Rowman & Littlefield); Walsh, Michael (2008), 'From Karol Wojtyla to John Paul II: Life and Times', yn Mannion, Gerard (gol.), *The Vision of John Paul II: Assessing His Thought and Influence* (Collegeville, MN: Liturgical Press), tt. 10–28; Burns, David P. (2009), 'The Laying of Hands: Pope John Paul II and the Catholic Church's Political Role in Poland Pre- and Post-1989', yn Blaney, Joseph R. a Zompetti, Joseph P. (goln.), *The Rhetoric of Pope John Paul II* (Lanham, MD: Lexington Books), tt. 151–72.

[7] Foret, F. (2015), *Religion and Politics in the European Union* (Efrog Newydd: Cambridge University Press); Kaiser, W. (2007) *Christian Democracy and the Origins of European Union* (Caergrawnt: Cambridge University Press); Schulz-Forberg, H. a Stråth, B. (2010) *The Political History of European Integration: The Hypocrisy of Democracy-Through-Market* (Abingdon: Routledge).

[8] Medrano, J. D. (2003), *Framing Europe: Attitudes to European Integration in Germany, Spain, and the United Kingdom* (Princeton, NJ: Princeton University Press); Nelsen, B. F., Guth, J. L., a Highsmith, B. (2011), 'Does Religion Still Matter? Religion and Public Attitudes toward Integration in Europe', *Politics and Religion*, 4 (1), tt. 1–26; Grötsch, F. a Schnabel, A. (2012), 'Integration – what integration? The religious framing of the European integration process between 1990 and 2000', *European Societies*, 14 (4), tt. 586–610.

[9] Turner, Frank (2013), 'The Roman Catholic Church and the European institutions: dialogue and advocacy at the European Union', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God matter?* (Llundain: Routledge), tt. 77–90.

[10] Liedhagener, Antonius (2013), 'Why Brussels is neither Washington nor Berlin: Political Catholicism in differing political systems', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God matter?* (Llundain: Routledge), tt. 185–98.

[11] Coen, D. a Richardson, J. (goln.) (2009), *Lobbying the European Union: Institutions, Actors, and Issues* (Rhydychen: Oxford University Press).

Mae'r diffyg sylw hwn yn anfoddhaol ar sawl cyfrif. Yn gyntaf, mae'n awgrymu mai prin yw gweithgaredd yr Eglwys ar y lefel hon, awgrym sy'n anodd ei gynnal. Disgwylir bod sefydliad sydd mor fawr a phwysig â'r Eglwys yn gweithio'n agos gyda sefydliadau'r UE. Gan fod yr UE yn enwog am ei pharodrwydd i gydweithio â'r amrediad ehangaf posib o gyrff cymdeithas sifil, byddai'n sicr yn croesawu cyfleon i dderbyn mewnbwn gan gorff y mae yn agos at hanner poblogaeth yr Undeb yn aelod ohoni. Mae'r UE yn gwneud penderfyniadau mewn amrediad eang o feysydd polisi, gan gynnwys meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r Eglwys, er enghraifft polisi cymdeithasol, ymchwil wyddonol a chymorth dyngarol. Gellid disgwyl bod yr Eglwys yn teimlo dyletswydd i gynnig cyngor ac arweiniad moesol yn y meysydd hyn. Ymhellach, mynegodd cyfres o Babau y dylai'r Eglwys chwarae rhan ganolog ym mywyd cymdeithasol a gwleidyddol Ewrop.[12] Byddai darganfod nad yw'n weithgar yn y cyd-destun hwn yn annisgwyl, ac yn awgrymu bod gagendor mawr rhwng y rhethreg a'r realiti.

Yn ail, mae deall sut y mae'r Eglwys yn mynd ati i hybu ei buddiannau yn fater pwysig, ac yn un sy'n effeithio ar y modd y caiff ei haelodau eu cynrychioli o fewn yr UE. Gall yr Eglwys gynrychioli ei haelodau mewn modd na all cynrychiolwyr etholedig Ewrop (sy'n cyfarfod yn Senedd Ewrop), neu gynrychiolwyr y gwladwriaethau (sy'n cyfarfod yng Nghyngor yr UE), ei wneud. Mae'n ddigon rhesymol awgrymu bod nifer o Gatholigion Ewrop – a nifer o arweinwyr Catholig – yn disgwyl bod yr Eglwys yn gweithio ar ran ei haelodau a'i dysgeidiaeth yn y cyd-destun gwleidyddol hwn. Dylid canfod felly i ba raddau – a sut – y mae'r Eglwys yn gweithredu ar ran ei haelodau.

Yn drydydd, drwy anwybyddu'r gweithgarwch hwn, mae ysgolheigion wedi colli cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o rôl yr Eglwys yn yr Ewrop gyfoes, ac o rôl crefydd mewn prosesau gwleidyddol ar gyfandir lle y mae naws seciwlar i fywyd cyhoeddus. Yr Eglwys yw cymuned ffydd fwyaf yr UE, a hi oedd un o'r rhai cyntaf i sefydlu swyddfa ym Mrwsel er mwyn datblygu cysylltiadau â'r UE,[13] felly mae'n rhesymol disgwyl mai'r Eglwys sydd â'r drefniadaeth lobïo fwyaf soffistigedig o holl grwpiau crefyddol Ewrop. Drwy ddatblygu dealltwriaeth o'r drefniadaeth sefydliadol hon, ac o strategaeth lobïo'r Eglwys, gellir canfod i ba raddau y mae modd i gyrff crefyddol fel yr Eglwys geisio dylanwadu ar benderfyniadau polisi, a llywio dyfodol Ewrop.

## Yr Eglwys ac Ewrop: adolygu'r llenyddiaeth

Y cwestiwn ymchwil sy'n ganolog i'r astudiaeth hon yw: beth yw strwythur sefydliadol a phrif nodweddion gweithgareddau lobïo yr Eglwys a'r gymuned Gatholig ehangach mewn perthynas â sefydliadau a phrosesau polisi'r UE?

---

[12] O'Mahony, 'The Vatican and Europe'.

[13] Leustean, Lucian N. (2013), 'Does God matter in the European Union?', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God matter?* (Llundain: Routledge), tt. 1–31.

Sail adrannau empeirig yr astudiaeth yw cyfres o 16 cyfweliad lled-strwythuredig, wyneb-yn-wyneb ag unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o weithgaredd lobïo crefyddol. Yn eu mysg y mae swyddogion yr Eglwys, mudiadau cysylltiedig sydd wedi'u lleoli ym Mrwsel, cyrff sy'n lobïo ar y cyd â'r Eglwys neu yn erbyn ei buddiannau, ynghyd ag Aelod Seneddol Ewropeaidd (ASE) sydd â diddordeb penodol mewn hyrwyddo materion ffydd. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn ystod cyfres o ymweliadau â Brwsel rhwng gwanwyn 2016 a haf 2018. Dylid pwysleisio i'r cyfweliadau gael eu cynnal â lobïwyr ac nid â'r unigolion sy'n cael eu targedu ganddynt. Ni cheisia'r astudiaeth ganfod i ba raddau y mae'r gweithgaredd lobïo yn llwyddiannus, nac i ba fesur y mae'r actorion hyn yn dylanwadu. Mae'r dewis o ymatebwyr yn gyson â phrif amcan yr astudiaeth, sef amlinellu strwythur a dulliau lobïo'r actorion dan sylw yn unig. Gan fod lobïo yn faes sensitif, cynhaliwyd y cyfweliadau yn ddienw er mwyn cynhyrchu'r data cryfaf posibl.

## Y cyd-destun: y Babaeth, gwleidyddiaeth ryngwladol a'r UE

Cyflwyna'r adran hon drosolwg o statws y Babaeth yn y gymuned ryngwladol a'r modd y mae'n strwythuro ei horganau llywodraethol er mwyn gweithredu'n rhyngwladol. Trafodir hefyd statws ffurfiol y Babaeth mewn perthynas â'r UE.

### *Y Babaeth a gwleidyddiaeth ryngwladol*

Mae'r Babaeth wedi cael ei chydnabod yn endid sofran ers yr Oesoedd Canol, statws a ffurfiolwyd gan gyfraith ryngwladol. Nid oes ganddi diriogaeth, ond mae'n sofran dros Wladwriaeth Dinas y Fatican, gwladwriaeth a grëwyd yn dilyn cytundeb a wnaed yn 1929 rhwng y Babaeth a'r Eidal i sicrhau annibyniaeth absoliwt a gweladwy'r Babaeth. Y Pab yw pennaeth y Babaeth a phennaeth Gwladwriaeth Dinas y Fatican. Oherwydd bod cyfraith ryngwladol yn rhoi personoliaeth gyfreithiol lawn i'r Babaeth, gall ffurfio a chynnal perthynas ddiplomyddol ffurfiol â gwladwriaethau, a bod yn aelod llawn o sefydliadau rhyngwladol. Mae ganddi berthynas ddiplomyddol â 183 gwladwriaeth, â'r UE, ac ag Urdd Sofran Malta.[14]

Y *Curia* (Llys y Pab) yw system lywodraethol y Babaeth. Ysgrifenyddiaeth y Wladwriaeth yw rhan bwysicaf y *Curia.* Medda'r pennaeth, sef Ysgrifennydd y Wladwriaeth, ar rôl debyg i brif weinidog ac adrodda'n uniongyrchol i'r Pab. Gweithreda Ysgrifennydd yr Adran Cysylltiadau â gwladwriaethau fel ysgrifennydd tramor.

Er natur hynod y Babaeth, strwythura ei pherthnasau rhyngwladol fel endidau sofran eraill. Cynhalia lysgenhadaeth ym mwyafrif llethol gwladwriaethau'r byd.[15] Adwaenir llysgennad y Pab fel Nuncio Apostolaidd ac fe'i cynorthwyir fel arfer gan un aelod staff.[16]

---

[14] Press Office of the Holy See (2018), *Note on the Diplomatic Relations of the Holy See, 08.01.2018* <https://press.vatican.va/content/salastampa/en/bollettino/pubblico/2018/01/08/180108a.html> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

[15] *The Economist* (2007), *Papal Diplomacy: God's ambassadors* <https://www.economist.com/international/2007/07/19/gods-ambassadors> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

[16] Cyfweliad N; *The Economist, Papal Diplomacy: God's ambassadors.*

Mae dros 140 o wladwriaethau yn anfon llysgenhadon i Rufain,[17] ac fe'u hachredir i'r Babaeth yn hytrach nag i Wladwriaeth Dinas y Fatican.[18]

### *Statws y Babaeth mewn perthynas â'r UE*

Nid yw'r Babaeth na Gwladwriaeth Dinas y Fatican yn aelodwladwriaethau o'r UE am eu bod yn cael eu llywodraethu fel 'absolute monarchy'[19] ac mae'n rhaid i aelodwladwriaethau'r UE fod yn wladwriaethau democrataidd gyda marchnad rydd.[20]

Serch hynny, ceir perthnasau agos rhwng y Babaeth a'r UE, sy'n anochel o ystyried maint Dinas y Fatican, a'i bod wedi'i llwyr amgylchynu gan yr Eidal, un o sylfaenwyr yr UE. Lluniwyd cytundebau penodol i ddelio â rhai o'r materion ymarferol sy'n deillio o sefyllfa unigryw Dinas y Fatican, ac mae'r UE yn caniatáu iddi weithredu ar delerau ffafriol mewn sawl ffordd. Yn wahanol i aelodwladwriaethau'r UE, nid oes disgwyl i Ddinas y Fatican fod yn rhan o undeb tollau'r UE nac yn rhan o'r ardal treth ar werth, ac nid yw gofynion arferol tollau a threthi yr UE yn berthnasol iddi.[21] Er nad yw Dinas y Fatican yn un o aelodwladwriaethau'r UE, rhoddwyd hawl iddi ddefnyddio'r ewro fel arian swyddogol ac i fathu hyd at €1m y flwyddyn.[22] Mae gwerthu darnau arian yn ffynhonnell incwm i'r Babaeth.[23]

## Canfyddiadau: gweithredu ar dair lefel

Gellir grwpio'r actorion Catholig gweithredol yn dri chategori, a hynny ar sail natur eu perthynas â'r UE, natur eu perthynas â'r Eglwys a'u dulliau gweithredu. Mae'r categori cyntaf – actorion diplomyddol – yn cynnwys yr actorion sy'n cynrychioli'n ffurfiol endid sofran y Babaeth, sef y Pab a'i Nuncio Apostolaidd sy'n gweithredu ar lefel ryngwladol ac yn cynnal perthynas ddiplomyddol â'r UE. Yn yr ail gategori mae COMECE, corff sy'n cynrychioli'r Eglwys yn ffurfiol, ond nid yn ddiplomyddol, ym Mrwsel. Mae gan COMECE berthynas led ffurfiol â sefydliadau'r UE oherwydd ei statws fel aelod o'r 'ddeialog' rhwng yr UE a chymunedau ffydd. Mae'r trydydd categori yn cynnwys grwpiau pwyso ac unigolion sy'n ymgyrchu ar sail daliadau'r ffydd Gatholig, ond sy'n gweithredu'n

---

[17] The Holy See (2018), *Liste du CORPS DIPLOMATIQUE près le Saint-Siège: Janvier 2018* <http://www.vatican.va/roman_curia/secretariat_state/cd/rc-saint-siege_cd.html> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018]. Nid yw pob llysgenhadaeth i'r Babaeth yn un amser llawn.

[18] European External Action Service (2016b), *The Holy See and the EU* <https://eeas.europa.eu/headquarters/headquarters-homepage_en/2355/The%20Holy%20See%20and%20the%20EU> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

[19] Vatican City State (2018), *State Departments* <http://www.vaticanstate.va/content/vaticanstate/en/stato-e-governo/organi-dello-stato.html> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

[20] Y Comisiwn Ewropeaidd (2018), *Accession criteria* <https://ec.europa.eu/neighbourhood-enlargement/policy/glossary/terms/accession-criteria_en> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

[21] European External Action Service, *The Holy See and the EU.*

[22] Ibid.

[23] Vatican City State (2018), *Numismatic Issues – 2018* <http://www.vaticanstate.va/content/vaticanstate/en/servizi/ufficio-filatelico-e-numismatico/emissioni-numismatiche/ultime-emissioni.paginate.1.html> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

annibynnol neu'n lled annibynnol ar yr Eglwys. Ni ddyry'r UE gydnabyddiaeth ffurfiol i'r grwpiau hyn ymhellach na'r gydnabyddiaeth sy'n cael ei rhoi i unrhyw grŵp pwyso cyffredin. Creffir ar ddau fudiad o'r fath, sef y Jesuit European Social Centre (JESC) a'r Federation of Catholic Family Associations in Europe (FAFCE). Dengys y gwaith dadansoddi fod yn rhaid cadw golwg ar y tair lefel – y diplomyddol, y lled ffurfiol a sefydliadol, a'r anffurfiol – er mwyn cael darlun clir o'r modd y gweithreda'r gymuned Gatholig mewn perthynas â'r UE.

## Lefel 1: y berthynas ddiplomyddol

Mae perthynas ddiplomyddol ffurfiol a chynnes rhwng y Babaeth a'r UE, ac mae Pabau wedi annerch cyfarfodydd sefydliadau'r UE a chwrdd ag arweinwyr Ewropeaidd yn Rhufain droeon.[24] Yn 2017, anerchodd y Pab Ffransis gyfarfod o benaethiaid gwladwriaethau a llywodraethau'r UE i nodi 60 mlynedd ers arwyddo Cytundeb Rhufain, y ddogfen a arweiniodd at greu'r UE;[25] anerchodd Senedd Ewrop yn 2014;[26] a derbyniodd lywyddion y tri phrif sefydliad Ewropeaidd ar y pryd, José Manuel Barroso (y Comisiwn Ewropeaidd), Herman Van Rompuy (y Cyngor Ewropeaidd) a Martin Schultz (Senedd Ewrop) yn y Fatican wedi iddo gael ei sefydlu'n Bab yn 2013.[27] Croesawodd y Pab Bened XVI Barroso i'r Fatican yn 2006, a derbyniodd ddau o lywyddion olynol Senedd Ewrop, Hans-Gert Pöttering a Jerzy Buzek, yn 2007 a 2011.[28] Mae cynsail hanesyddol i'r ymwneud hwn: bu Ioan Pawl II yn annerch y Comisiwn Ewropeaidd[29] a Senedd Ewrop yn 1988.[30]

O ran y berthynas ddiplomyddol o ddydd i ddydd, mae'r Babaeth a'r UE yn cynnal cynrychiolwyr diplomyddol ym mhrif ganolfannau ei gilydd. Anfonwyd Nuncio Apostolaidd i weithredu mewn perthynas â'r Gymuned Ewropeaidd, Gwlad Belg a Lwcsembwrg yn 1970[31]

---

[24] Delegation of the European Union to the Holy See/L'Osservatore Romano (2017), *The Popes and Sixty Years of European Integration* (Y Fatican: Delegation of the European Union to the Holy See/ L'Osservatore Romano).

[25] Y Pab Francis (2017), *Address of His Holiness Pope Francis to the Heads of State and Government of the European Union in Italy for the celebration of the 60th anniversary of the Treaty of Rome* <http://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2017/march/documents/papa-francesco_20170324_capi-unione-europea.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

[26] Y Pab Francis (2014), *Address of Pope Francis to the European Parliament* <http://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2014/november/documents/papa-francesco_20141125_strasburgo-parlamento-europeo.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

[27] Kratochvíl a Doležal, *The European Union and the Catholic Church.*

[28] Ibid.

[29] Y Pab Ioan Pawl II (1988), *Address of the Holy Father John Paul II to the European Commission and the European Courts of Human Rights* <http://www.vatican.va/content/john-paul-ii/en/speeches/1988/october/documents/hf_jp-ii_spe_19881008_human-rights.html> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

[30] Y Pab Ioan Pawl II (1988), *Discorso di Giovanni Paolo II durante la visita al Parlamento Europeo* <http://www.vatican.va/content/john-paul-ii/en/speeches/1988/october/documents/hf_jp-ii_spe_19881011_european-parliament.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

[31] Albrieux, C. (dim dyddiad), *History: 1980–2015* <http://www.comece.eu/dl/tploJmoJKKJqx4KJKJKJnmll/COMECE_HISTORY_EN.pdf> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018]; European External Action Service, *The Holy See and the EU.*

a chrëwyd rôl benodol ar gyfer yr UE yn 1996.[32] Penodwyd deiliad presennol y swydd, Archesgob Alain Paul Lebeaupin, yn 2012.

Sefydlodd yr UE ddirprwyaeth yn Rhufain yn 2006. Cefnogir y Llysgennad i'r Babaeth, Jan Tombinski, gan oddeutu deg aelod staff.[33] Mae'r llysgenhadon wedi cyfarfod â'r Pabau yn rheolaidd.[34] Mynna'r UE fod sefydlu dirprwyaeth yn Rhufain yn brawf o'i hymrwymiad i gynnal perthnasau diplomyddol llawn rhwng yr UE a'r Babaeth.[35]

Nid yw'r Nuncio Apostolaidd yn lobïo yn ôl Catholigion blaenllaw ym Mrwsel,[36] ac nid yw gwrthwynebwyr yr Eglwys ar faterion atgenhedlu yn ei weld fel bygythiad.[37] Dywedir mai cynnal perthnasau diplomyddol a chynrychioli'r Babaeth yw ei swyddogaeth.[38] Nodir na fyddai'n addas i lysgennad a anfonwyd i wladwriaeth lobïo llywodraeth y wlad honno ar ei materion polisi domestig, a honnir na fyddai'n addas lobïo sefydliadau'r UE pan nad yw'r Babaeth yn aelodwladwriaeth. Mae'n glir nad yw'r Nuncio Apostolaidd yn ceisio dylanwadu ar yr UE ar draws ystod eang o feysydd polisi mewn modd systematig, fel sy'n wir am gynrychiolwyr y gwladwriaethau hynny sy'n meddu ar genadaethau mawr ym Mrwsel. Er ei fod mewn cyswllt ysbeidiol â'r prif grwpiau pwyso Catholig ym Mrwsel,[39] un cynorthwyydd ysgrifenyddol sydd ganddo[40] felly nid yw'r adnoddau'n caniatáu iddo ymwneud mewn manylder â phrosesau polisi. Mae hefyd yn glir nad yw'n eirioli yn gyhoeddus fel y gwna grwpiau pwyso; oherwydd ei statws, 'he cannot take a public stand on almost any issue'.[41] I'r graddau y mae'n lleisio safbwyntiau polisi neu'n tynnu sylw'r Comisiwn Ewropeaidd at achosion penodol, gwna hynny yn y dirgel.[42]

Fodd bynnag, ceir tystiolaeth fod y Nuncio Apostolaidd yn gweithredu mewn modd sydd o leiaf yn ymylu ar lobïo, yn yr ystyr ei fod yn ceisio hybu buddiannau Catholig o fewn cylchoedd polisi'r UE. Mae gan y Nuncio Apostolaidd fynediad at unigolion hynod ddylanwadol. Gall, i bob diben, drefnu cyfarfodydd ag unrhyw un o arweinwyr yr UE.[43] Bu'n cyfarfod â chomisiynwyr dros 20 gwaith rhwng 2013 a 2019.[44] Cyfrifir yn eu mysg

---

[32] Kratochvíl a Doležal, *The European Union and the Catholic Church.*

[33] European External Action Service (2016), *About the Delegation of the European Union to the Holy See, Order of Malta, UN Organisations in Rome, Republic of San Marino* <https://eeas.europa.eu/delegations/un-rome/1703/about-delegation-european-union-holy-see-order-malta-un-organisations-rome-republic-san-marino_en> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018]; SIR (2016), *International Scenarios: 'Close relations between Europe and the Holy See' for Jan Tombinski, new EU envoy to the Vatican* <https://agensir.it/europa/2016/11/10/close-relations-between-europe-and-the-holy-see-for-jan-tombinski-new-eu-envoy-to-the-vatican/> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

[34] European External Action Service, *The Holy See and the EU.*

[35] Ibid.

[36] Cyfweliad N; cyfweliad K.

[37] Cyfweliad E.

[38] Cyfweliad N; cyfweliad O.

[39] Cyfweliad H.

[40] Cyfweliad N.

[41] Cyfweliad H.

[42] Ibid.

[43] Ibid.

[44] Rojas, G. (2019), *Meetings held with the Apostolic Nuncio, Alain Paul Lebeaupin* <https://www.asktheeu.org/en/request/meetings_held_with_the_apostolic> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020]. Cyfarfu

gomisiynwyr a oedd yn gyfrifol am feysydd polisi sydd o bwys mawr i'r Eglwys. Dengys cyfres o ymatebion rhyddid gwybodaeth mai 'cyfarfodydd cwrteisi' oedd nifer o'r rhain.[45] Pwrpas cyfarfodydd o'r fath yw rhoi cyfle i'r ddwy ochr gyflwyno'u hunain a'u blaenoriaethau, ond nid i gynnal trafodaethau manwl ar unrhyw bolisi penodol.

Serch hynny, awgryma nifer o'r nodiadau briffio a baratowyd ar gyfer comisiynwyr cyn cyfarfod â'r Nuncio Apostolaidd eu bod wedi paratoi ar gyfer trafod materion polisi sensitif a oedd yn flaenoriaeth gan yr Eglwys. Pan gyfarfu'r Nuncio Apostolaidd â'r comisiynydd ymchwil, gwyddoniaeth ac arloesi, Carlos Moedas, ar 14 Ionawr 2019, roedd nodyn briffio'r comisiynydd yn cynnwys adran ar ganllawiau'r rhaglen *Horizon Europe* (rhaglen ariannu ymchwil arfaethedig y comisiwn, gwerth tua €100bn) ynghylch defnyddio embryonau a bôn-gelloedd embryonig dynol.[46] Noda dogfen friffio ar gyfer y comisiynydd materion economaidd ac ariannol, treth a thollau, Pierre Moscovici, fod y Nuncio Apostolaidd wedi mynegi dymuniad i drafod dimensiwn cymdeithasol a diwylliannol Ewrop a chwestiwn ymfudwyr yn ystod eu cyfarfod ar 15 Chwefror 2018.[47] Mae'r ddogfen yn rhagweld y byddai'r Nuncio Apostolaidd yn defnyddio'r cyfarfod i alw ar y comisiwn i weithredu yng nghyd-destun mudo; cyfeirir at lythyr a anfonodd y Nuncio Apostolaidd at lywydd y Comisiwn y mis blaenorol lle 'pwysleisiodd fod y Pab am weld ffoaduriaid ac ymfudwyr yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y cymunedau, a'i fod yn poeni am y cynnydd mewn anoddefgarwch mewn rhai gwledydd'.[48] Mae'r ddogfen friffio ar gyfer comisiynydd yr amgylchedd, materion morol a physgodfeydd, Karmenu Vella, cyn eu cyfarfod ar 17 Mawrth 2017[49] yn rhagweld y byddai'r Nuncio Apostolaidd am drafod masnachu pobl, a'r safbwyntiau a fynegodd y Pab Ffransis yn *Laudato si'*[50] ynghylch llywodraethiant y môr. Mae'r Nuncio Apostolaidd hefyd yn gweithredu ar ran rhai o'r grwpiau pwyso Catholig drwy dynnu sylw arweinwyr

â saith comisiynydd ac â'r ysgrifennydd cyffredinol rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2019, sef misoedd olaf tymor y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â phrif gynghorwyr llywydd y comisiwn, Jean-Claude Juncker, ym mis Hydref 2018. Gw. Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *Briefing file for Commissioner Thyssen: Bilateral meeting with H.E. Monsignor Lebeaupin, Apostolic Nuncio to the European Union* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/22153/attach/4/147%202019%20MT%20B%201265%20Mtg%20Lebeaupin%20Apostolic%20Nuncio%20to%20EU%2029%2003%20docx%20Redacted.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

[45] Rojas, *Meetings held with the Apostolic Nuncio, Alain Paul Lebeaupin.*

[46] Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *Meeting with Archbishop Lebeaupin, Apostolic Nuncio to EU Commissioner's Office, Berlaymont* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/21991/attach/4/BASIS%20823%20Meeting%20Apostolic%20Nuncio%20to%20EU%20rev10%2001%20002%20Redacted.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

[47] Y Comisiwn Ewropeaidd (2018), *Rencontre avec le Nonce Apostolique Auprès de l'Union Européenne* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/22235/attach/6/Briefing.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

[48] Ibid. Cyfieithiad yr awdur o'r Ffrangeg.

[49] Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *Meeting with Archbishop Alain Paul Charles Lebeaupin* <https://www.asktheeu.org/en/request/6738/response/22136/attach/5/ARES%202019%203282165%20Annex%20Briefing.pdf> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2020].

[50] Cylchlythyr y Pab Ffransis i holl esgobion Eglwys Rufain. Gw. Y Pab Francis (2015), *Laudato Si'* <w2.vatican.va/content/francesco/en/encyclicals/documents/papa-francesco_20150524_enciclica-laudato-si.html> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2020].

Ewropeaidd at achosion penodol, er enghraifft lle y mae unigolion mewn perygl.[51] Tystia hyn fod y Nuncio Apostolaidd yn cyfarfod yn gyson â chomisiynwyr Ewropeaidd i hybu safbwyntiau polisi ar ran y Babaeth ac i nodi achosion penodol.

## Lefel 2: Comisiwn Cynadleddau Esgobion y Gymuned Ewropeaidd (COMECE)

Y prif gorff sy'n cynrychioli'r Eglwys mewn perthynas â sefydliadau'r UE o ddydd i ddydd yw COMECE. Gweithreda fel fforwm lle y gall holl esgobion Catholig y diriogaeth dan sylw drafod materion allweddol,[52] a chynrychiola holl Gynadleddau Esgobion yr UE.[53] Dirprwya pob Cynhadledd Esgobion un esgob i fod yn aelod o COMECE. Cyfarfyddant, ynghyd â'r Nuncio Apostoliadd i'r UE,[54] yn y Cynulliad Cyflawn ddwywaith y flwyddyn i drafod un o faterion llosg y prosiect Ewropeaidd, a phennu blaenoriaethau'r corff. Mae strwythur hierarchaidd clir i COMECE, a rhaniad llafur rhwng tri math o grŵp: y pwyllgor llywio, y comisiynau pynciol a grwpiau gwaith, ac ysgrifenyddiaeth barhaol y corff.

Y pwyllgor sefydlog sy'n rhoi arweiniad strategol i COMECE ac nid yw'n gweithredu'n ddyddiol. Fe'i hetholir gan y Cynulliad Cyflawn ac mae'n cynnwys llywydd, pedwar is-lywydd ac ysgrifennydd cyffredinol (sy'n rôl apwyntiedig). Etholwyd Archesgob Lwcsembwrg, Jean-Claude Hollerich,[55] yn llywydd am dymor o bum mlynedd ym mis Mawrth 2018 pan ddaeth ail dymor ei ragflaenydd, Cardinal Reinhard Marx, i ben.[56] Mae'r llywydd yn ffigur blaenllaw. Roedd Cardinal Marx, er enghraifft, yn archesgob ar un o esgobaethau cyfoethocaf Ewrop (Munich a Freising) ac roedd yn agos at rai o brif arweinwyr seciwlar Ewrop, gan gynnwys Angela Merkel a Jean-Claude Juncker, canghellor yr Almaen a llywydd y Comisiwn Ewropeaidd ar y pryd.[57]

---

[51] Cyfweliad H.

[52] Am statws cyfreithiol Cynadleddau Esgobion gw. canonau 447–59 yn The Holy See (1983), 'Code of Canon Law' <http://www.vatican.va/archive/ENG1104/__P1L.HTM> [Cyrchwyd: 10 Gorffennaf 2018]; hefyd Y Pab Ioan Pawl II (1998), *Apostolos Suos* <http://w2.vatican.va/content/john-paul-ii/en/motu_proprio/documents/hf_jp-ii_motu-proprio_22071998_apostolos-suos.html> [Cyrchwyd: 10 Gorffennaf 2018].

[53] Roedd 27 o Gynadleddau Esgobion yn yr UE (EU28) adeg ysgrifennu'r astudiaeth. Yn achos 24 o'r 28 aelodwladwriaeth yn yr UE, mae un Gynhadledd Esgobion i bob gwlad; un Gynhadledd Esgobion ar y cyd yn Sweden, Denmarc a'r Ffindir (Cynhadledd Esgobion Llychlyn); a dwy Gynhadledd Esgobion yn y Deyrnas Unedig, un yng Nghymru a Lloegr, a'r llall yn yr Alban. Gw. COMECE (2018), *Who we are* <http://www.comece.eu/site/en/whoweare> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

[54] Cyfweliad N.

[55] Dyrchafwyd Hollerich yn Gardinal ar 5 Hydref 2019, yn ystod ei dymor fel llywydd COMECE. Gw. COMECE (2019), *The COMECE President created Cardinal by Pope Francis* <http://www.comece.eu/the-comece-president-created-cardinal-by-pope-francis> [Cyrchwyd: 14 Ionawr 2020].

[56] COMECE (2018), *Archbishop Jean-Claude Hollerich S.J. elected new President of COMECE* <http://www.comece.eu/archbishop-jean-claude-hollerich-s.j.-elected-new-president-of-comece> [Cyrchwyd: 5 Mehefin 2018].

[57] Eder, F. a Barigazzi, J. (2018), *God's man in Brussels: With allies in Brussels and the Vatican, Cardinal Reinhard Marx has shaped the European debate* <https://www.politico.eu/article/cardinal-reinhard-marx-gods-man-in-brussels-catholic-church/> [Cyrchwyd: 31 Hydref 2019].

Ceir tri chomisiwn pynciol a dau grŵp gwaith, a'r rhain sy'n darparu'r gyriant o ran datblygu polisi. Delia'r tri chomisiwn â materion cymdeithasol, materion cyfreithiol ac â pherthnasau'r UE â gwledydd sydd y tu hwnt i'w ffiniau. Meysydd y ddau grŵp gwaith yw moeseg mewn ymchwil a meddygaeth ar y naill law, a mudo a lloches ar y llall. Etholir esgob o blith aelodaeth COMECE yn llywydd i bob un o'r tri chomisiwn pynciol ac i'r ddau grŵp gwaith. Cynorthwyir y llywydd gan arbenigwr(aig) polisi neu gyfreithiol o ysgrifenyddiaeth barhaol COMECE, gan arbenigwyr sy'n cael eu henwebu gan y Cynadleddau Esgobion unigol, a chan sefydliadau Catholig sy'n weithgar mewn meysydd perthnasol.[58] Paratoa'r pwyllgorau hyn bapurau barn, ac adroddiadau ar faterion perthnasol, gyda'r bwriad o lywio'r drafodaeth o fewn y gymuned bolisi Ewropeaidd.

Cefnogir holl ymdrechion COMECE gan ysgrifenyddiaeth barhaol sydd wedi'i lleoli ym Mrwsel ac sy'n gweithredu mewn perthynas â sefydliadau'r UE o ddydd i ddydd. Mae gan COMECE gyfanswm o 14 aelod staff, ac arweinir gwaith yr ysgrifenyddiaeth gan yr ysgrifennydd cyffredinol, y Brawd Manuel Enrique Barrios Prieto. Mae wyth aelod staff yn arbenigwyr polisi neu gyfreithiol, sy'n golygu bod gwir allu llunio polisi gan y corff.

Mae safbwyntiau COMECE yn cyd-fynd â dysgeidiaeth yr Eglwys. Ymgyrcha dros hawliau ymfudwyr a cheiswyr lloches,[59] dros amddiffyn bywyd 'each human person ... from conception until natural death',[60] dros gynaliadwyedd amgylcheddol,[61] dros hawliau cymunedau ffydd i arfer eu crefydd heb gamwahaniaethu,[62] a galwa ar wledydd cyfoethocaf parth yr Ewro i wneud mwy i gefnogi eraill.[63] Ceir yma gyfuniad o safbwyntiau ceidwadol (yr hawl i fywyd) a radical (ar yr amgylchedd ac ar bolisi economaidd a chymdeithasol). Nid yw gwrthwynebwyr yr Eglwys ar faterion atgenhedlu yn ystyried COMECE fel:

> the primary antagonistic organisation in this area. They are the official representatives of the Church to the EU, so they have to look good and they have to be on their best behaviour and they portray the positive agenda of the Church. Their positions on sexual and reproductive health

[58] COMECE (2018), *Commissions & Working Groups* <http://www.comece.eu/site/en/whoweare/commissionsworkinggroups> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2018]; cyfweliad H.

[59] Cyfweliad H; COMECE (2020), *Migration & Asylum* <http://www.comece.eu/migration-asylum-comece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020]. Mae gan COMECE ddiddordeb arbennig mewn effaith polisïau mudo a lloches ar y teulu. Cydweithia gyda JRS yn y maes hwn, ond mae diddordeb JRS yn fwy uniongyrchol mewn polisi mudo a lloches.

[60] COMECE (2020), *Factsheet: Health, Research & Bioethics* <http://www.comece.eu/dl/KpMqJmoJKkJqx4KJKJKJnmLN/3_Factsheet_Health_Research_Bioethics_EN.pdf> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[61] COMECE (2020), *Ecology & Sustainability* <http://www.comece.eu/ecology-and-sustainabilitycomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[62] COMECE (2020), *Justice & Fundamental Rights* <http://www.comece.eu/ustice-and-fundamental-rightscomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020]; COMECE (2020), *Religious Freedom* <http://www.comece.eu/religious-freedomcomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[63] COMECE (2020), Social & Economic Policies <http://www.comece.eu/social-and-economic-policiescomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

> and rights will remain unchanged and they voice those every now and then, but the work is done by others who are at arm's length from the COMECE.[64]

Credant mai mudiadau fel FAFCE (a drafodir isod) ac ymgyrchwyr unigol sy'n arwain yn y maes hwn a'u bod yn cael eu cynorthwyo yn y dirgel gan rai o esgobion COMECE.[65]

Mae'n glir fod COMECE yn barod i gydweithio â sefydliadau ac unigolion sy'n rhannu'r un safbwyntiau polisi. Wedi'i ethol yn llywydd, cyhoeddodd Archesgob Hollerich ei fod yn barod 'to work together with all persons of good will who are dedicated to respect and protect human dignity'.[66] Partneriaid craidd COMECE yw'r grwpiau Catholig JESC a FAFCE (a drafodir isod), mudiadau Catholig eraill fel Caritas Europa[67] a'r Jesuit Refugee Service (JRS),[68] a'r Conference of European Churches (CEC),[69] corff sy'n cynrychioli Eglwysi Protestannaidd ac Uniongred. Mae hefyd yn aelod o'r Christian Group, rhwydwaith anffurfiol sy'n cynnwys mudiadau Catholig a Phrotestannaidd ac sy'n cyfarfod yn chwarterol i ddatblgu papurau polisi.[70]

Ar lefel COMECE y mae'r cysylltiadau amlycaf â chynrychiolwyr eglwysi Protestannaidd ac Uniongred. Ar y cyfan, mae CEC yn arddel safbwyntiau mwy rhyddfrydol na COMECE, gyda'r Eglwysi Uniongred a'u pwyslais ar y 'Traddodiad' yn arwain at duedd mwy ceidwadol. Serch y gwahaniaethau, ceir tir cyffredin. Amcan craidd y tri thraddodiad yw brwydro yn erbyn y duedd i seciwlareiddio, a chau'r gagendor rhwng crefydd â llywodraethiant. Cyfeirir isod at y cydweithio sydd rhwng COMECE a CEC i ffurfioli'r berthynas â'r Comisiwn Ewropeaidd. Ceir cyd-weld amlwg rhwng COMECE a'r Eglwysi Uniongred ar faterion fel erthylu a'r defnydd o gelloedd bonyn, hawliau dynol a rhyddid crefyddol, ac addysg. Serch hynny, o ran gwaith eirioli, cymharol gyfyngedig yw'r cydweithio rhwng COMECE a'r chwe swyddfa sy'n cynrychioli Eglwysi Uniongred cenedlaethol ym Mrwsel ac â'r mudiad sy'n dod â'r rhain at ei gilydd, y Committee of Representatives of the Orthodox Churches to the European Union (CROCEU).[71] Yn 2019, teithiodd ysgrifennydd cyffredinol COMECE i Romania i fynychu cyfarfod â llywyddiaeth cyngor yr UE, ynghyd â chynrychiolwyr CROCEU a CEC. Llwyddodd y tri mudiad i gydeirioli yn gyfforddus wrth drafod effaith datblygiadau

[64] Cyfweliad E. Ni fu modd gwirio'r honiad pellach isod, ond mae'n darlunio bydolwg gwrthwynebwyr yr Eglwys: 'COMECE, the Holy See and the Catholic Church in general, they won't openly be the ones organising the networks or the campaigns against certain areas of sexual and reproductive health and rights, but they will facilitate those actors of civil society to do so. So they'll open up their meeting space for them. They may convene [meetings]. They may make it just that little bit easier [for aligned civil society groups], but at the same time keeping at arm's length and providing for plausible deniability of their direct involvement.'

[65] Cyfweliad E.

[66] COMECE, *Archbishop Jean-Claude Hollerich S.J. elected new President of COMECE.*

[67] Cyfweliad M.

[68] Cyfweliad H.

[69] Cyfweliad P.

[70] Cyfweliad M; cyfweliad H.

[71] Ceir trafodaeth ar strwythur sefydliadol Eglwysi Uniongred yn Selaru, Sorin (2015), 'Representing the Orthodox Churches to the European Union', *Ortodoksia*, 54, 54–80.

technolegol ar y gymdeithas, problemau amgylcheddol a'r angen i wella llythrennedd grefyddol drwy addysg.[72] Arweiniwyd yr ymweliad hwn gan CROCEU a gosodwyd y sail ar ei gyfer mewn cyfarfod rhwng llywydd COMECE a chynrychiolwyr CROCEU ym mis Medi 2018.[73]

## *COMECE a'r ddeialog (Erthygl 17 Cytundeb Lisbon)*

Gwrthoda COMECE y label 'grŵp pwyso', er ei fod yn ymdebygu i grŵp pwyso o ran ffurf, dull gweithredu ac (i raddau) natur ei amcanion. Honna ei swyddogion fod y sefydliad yn sylfaenol wahanol i'r myrdd o grwpiau pwyso sy'n gweithredu ym Mrwsel, ac mai cynrychiolydd i'r gymuned ffydd Gristnogol yw COMECE, yn hytrach na grŵp pwyso. Pwysleisiwyd hyn yn y cyfweliadau perthnasol, a mynegodd Archesgob Hollerich yn gyhoeddus: 'Christians [h.y. COMECE] are not an interest group speaking in favour of religions, but European citizens committed to the construction of Europe, our common house.'[74] Maent yn gwahaniaethu rhwng COMECE a grwpiau Catholig eraill sy'n gweithredu o fewn cylchoedd polisi Brwsel, gan gategoreiddio'r mudiadau eraill fel grwpiau pwyso sy'n lobïo.[75]

Er bod angen troedio'n ofalus, mae un ystyriaeth sy'n cefnogi dadansoddiad COMECE o'i statws dyrchafedig. Mae Cytundeb Lisbon, sef fersiwn cyfredol o gyfansoddiad yr UE, yn rhoi hawl arbennig i gynrychiolwyr grwpiau ffydd fel yr Eglwys gymryd rhan mewn deialog ffurfiol â'r UE. Mae Cymal 3 Erthygl 17 y Cytundeb ar Weithrediad yr UE yn datgan y bydd yr undeb yn cynnal deialog agored, dryloyw a chyson gyda'r eglwysi a'r sefydliadau hyn, gan roi statws arbennig i grwpiau ffydd cydnabyddedig o fewn system wleidyddol yr UE, a mecanwaith unigryw ar gyfer rhyngweithio â'i sefydliadau. Er bod Erthygl 17 yn rhoi hawliau tebyg i sefydliadau athronyddol ac anffyddiol fel y Seiri Rhyddion a grwpiau dyneiddiol, mae'n arwyddocaol na chynhwysir grwpiau pwyso traddodiadol (gan gynnwys rhai Catholig nad ydynt yn perthyn i strwythurau ffurfiol yr Eglwys) yn y ddeialog. Canlyniad hyn yw bod statws arbennig gan yr Eglwys (a grwpiau ffydd eraill) o fewn cylchoedd polisi yr UE.

Arweiniwyd y ddeialog yn ystod y tymor llywodraethu 2014–19 gan is-lywydd cyntaf y Comisiwn Ewropeaidd, Frans Timmermans, ac un o swyddogion y comisiwn a oedd yn gyfrifol am gydgysylltu'r ddeialog o ddydd i ddydd. Penododd Senedd Ewrop un o'i his-lywyddion i gefnogi'r ddeialog ar ran y sefydliad, sef Mairead McGuinness, ASE o Iwerddon.[76]

Cymharol gyfyngedig yw'r gweithgaredd a gynhelir fel rhan o'r ddeialog. Uchafbwynt y calendr blynyddol yw'r Cyfarfod Lefel-uchel gydag arweinwyr crefyddol, lle y mae'r ddau

---

[72] Representation of the Church in Cyprus to the European Union (2019), *Churches-EU Dialogue: Meeting with the Romanian Presidency of the EU Council. 28-01-2019* <https://www.churchofcypruseu.com/index.php/en/news/296-churches-eu-dialogue-meeting-with-the-romanian-presidency-of-the-eu-council-28-01-2019> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[73] Permanent Office of the Romanian Orthodox Church to the European Institutions (2017), *Meeting between CROCEU and COMECE delegations* <https://www.romorth.eu/single-post/2018/09/20/Meeting-between-CROCEU-and-COMECE-delegations> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[74] COMECE, *Archbishop Jean-Claude Hollerich S.J. elected new President of COMECE.*

[75] Cyfweliad N.

[76] Ibid.; cyfweliad P.

is-lywydd perthnasol o'r comisiwn a'r senedd yn arwain digwyddiad hanner diwrnod, sy'n cynnig cyfle i dynnu 'llun teulu' o arweinwyr y cymunedau ffydd,[77] i gynnal trafodaeth ddwy awr ar thema benodol, ac i rwydweithio.[78] Cynrychiolir yr Eglwys yn y cyfarfodydd blynyddol gan esgob o blith is-lywyddion COMECE.[79]

Mae'n arferol hefyd i swyddogion y comisiwn wahodd y sefydliadau sy'n gymwys yn ôl gofynion Erthygl 17 i oddeutu ddau gyflwyniad yn flynyddol ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. Arweinir y cyfarfodydd hyn gan swyddog y comisiwn sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r ddeialog. Gan mai swyddog yn hytrach na chomisiynydd sy'n cadeirio, cynrychiolir COMECE gan aelod staff ar lefel swyddog polisi yn hytrach na chan yr ysgrifennydd cyffredinol neu esgob.[80] Awgryma hyn nad yw COMECE yn gweld y cyfarfodydd fel fforymau sy'n cynnig cyfleon addawol i lywio prosesau polisi yr UE.

Mae elfen o baradocs yn agwedd COMECE tuag at y ddeialog. Ar y naill law, gwêl COMECE yr hawliau a ddyry Erthygl 17 i'r Eglwys fel peth dymunol ac arwyddocaol. Yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at lunio Cytundeb Lisbon, pwysodd ar yr UE i roi sail gyfreithiol i'r rhyngweithio anffurfiol a oedd eisoes yn digwydd rhwng y cymunedau ffydd a'r UE.[81] Tystia dogfen a gyhoeddwyd gan COMECE a CEC yn 2010[82] i'w hymdrechion i berswadio'r Comisiwn Ewropeaidd i ddehongli gofynion Erthygl 17 yn y modd ehangaf posib, ac i ddatblygu gweithdrefnau a fyddai'n rhoi'r sgôp mwyaf posib i gyfranogwyr yn y ddeialog ymwneud â sefydliadau'r UE.[83] Pwyleisia cyhoeddiadau COMECE drosodd a thro fod Erthygl 17 yn rhoi statws arbennig i'r Eglwys,[84] sy'n awgrymu ei fod yn falch o gael bod yn rhan o'r ddeialog.

Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth nad yw COMECE yn gwbl fodlon â'r cyfleon ymarferol a gynigir drwy'r ddeialog. Roedd penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd i benodi swyddog canolradd i arwain gwaith y ddeialog yn destun siom. Nododd un o swyddogion COMECE

---

[77] Cyfweliad N; cyfweliad P.

[78] Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *High-level meeting with Religious Leaders from across Europe* <https://ec.europa.eu/commission/news/high-level-meeting-religious-leaders-across-europe-2017-nov-07_en> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

[79] Jean-Claude Hollerich S.J., Archesgob Lwcsembwrg, a fynychodd y Cyfarfod Lefel-uchel gydag Arweinwyr Crefyddol ar 7 Tachwedd 2017. Gw. Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *Future of Europe: Commission brings together religious leaders to discuss a value-based and effective Union* <http://europa.eu/rapid/press-release_IP-17-4342_en.htm> [Cyrchwyd: 9 Awst 2018]. Roedd Hollerich yn un o is-lywyddion COMECE ar y pryd.

[80] Cyfweliad N.

[81] Gw. yn enwedig tt. 13–14 a t. 59 yn Hogebrink, Laurens (2015), *Europe's Heart and Soul: Jacques Delors' Appeal to the Churches* (Genefa: Globethics.net a CEC).

[82] COMECE a CEC (2010), *Article 17 of the Treaty on the Functioning of the European Union: General considerations on the implementation of the dialogue forseen by its paragraph 3* <http://www.comece.eu/dl/qkrrJKJKoKkkJqx4KJK/20100521_COMECE-CSC_CEC_joint_position_Art.17.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2018].

[83] Arfer COMECE yw defnyddio priflythyren wrth gyfeirio at y 'Ddeialog' ym mhob cyhoeddiad, er mai llythyren fach a ddefnyddir yn y Cytundeb ar Weithrediad yr UE, gw. e.e. COMECE (2018), *Dialogue with EU Institutions* <http://www.comece.eu/site/en/ourmission/dialoguewitheuinstitution> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2018].

[84] Ibid.

fod tair haen o swyddogion rhwng y swyddog hwn ac is-lywydd y comisiwn a bod hynny'n cael ei ystyried yn adlewyrchiad o bwysigrwydd y ddeialog ym marn y comisiwn.[85] Nid yw'r Cyfarfod Lefel-uchel gydag arweinwyr crefyddol blynyddol yn bodloni ychwaith: fe'i disgrifiwyd fel 'digwyddiad hanner diwrnod a oedd yn cyflawni fawr mwy na rhoi cyfle i Is-Lywydd y Comisiwn gael tynnu ei lun gydag arweinwyr crefyddol Ewrop'.[86]

Felly, tra bod COMECE yn falch o'i bartneriaeth rannol strwythuredig a lled ffurfiol gyda sefydliadau'r UE, a'i fod yn bachu ar bob cyfle i dynnu sylw at y statws ffafriol y mae Erthygl 17 yn ei roi i'r Eglwys, sylweddola mai cymharol gyfyngedig yw'r cyfleon eiriolaeth sy'n deillio o'r ddeialog. Ar sail y patrwm a ganfyddir wrth olrhain hanes COMECE, disgwylir y bydd yn parhau i geisio cryfhau'r fframwaith a gynigir gan y ddeialog, ac i geisio sicrhau bod y trafodaethau a gynhelir yn fwy ystyrlon a sylweddol.

O ran ymwneud COMECE â chyrff eraill yr UE, gellid disgwyl iddo dargedu'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (EESC), sef y sefydliad a grëwyd i weithredu fel llais cymdeithas sifil o fewn yr UE. Ond mewn gwirionedd, prin yw dylanwad y corff hwn, ac fel y dywed Eising, '[i]nterest groups consider the EESC to be of much less importance for the representation of interests within the EU than direct contacts with EU institutions'.[87]

O ystyried y cyswllt sydd rhwng COMECE a'r comisiwn, a'r ffaith nad yw COMECE yn ystyried ei hun yn grŵp pwyso, mae'n ddealladwy mai'n anaml y mae'n ceisio dylanwadu ar y corff.[88] Serch hynny, ceir peth ymwneud rhyngddynt. Er enghraifft, yn 2018, cynhaliodd COMECE a'r EESC gynhadledd yn adeilad yr EESC i drafod dyfodol gwaith o safbwynt ffydd.[89]

## Lefel 3: grwpiau pwyso Catholig ac unigolion amlwg

Y drydedd haen o weithgaredd yw'r mudiadau Catholig a fyddai, yn wahanol i COMECE, yn derbyn eu bod yn lobïo. Mae sgôp sylweddol i grwpiau pwyso Catholig sydd â chysylltiadau llai ffurfiol â'r Eglwys ymwneud â sefydliadau'r UE. Anoga'r UE gyrff cymdeithas sifil i ffurfio cysylltiadau â sefydliadau'r undeb ac i gyfrannu at ei phrosesau polisi. Cydnabyddir yn eang fod rhai o'r prif sefydliadau yn croesawu cael eu targedu gan lobïwyr. Brwsel yw

---

[85] Cyfweliad N.

[86] Ibid. Cyfieithiad yr awdur.

[87] Eising, Rainer (2016), 'Interest Groups and the European Union', yn Michelle Cini a Nieves Pérez-Solórzano Borragan (goln), *European Union Politics* (5ed argraffiad) (Rhydychen: Oxford University Press), t. 182.

[88] Fel cynrychiolydd diplomyddol y Pab, ni fyddai'r Nuncio Apostolaidd yn ystyried ei hun yn rhan o gymdeithas sifil, ac oherwydd ei fod yn gallu cyfarfod â haen ucha'r UE, ni fyddai disgwyl iddo ganolbwyntio ei ymdrechion ar gorff ymylol fel yr EESC. Serch hynny, aeth i gyfarfod â'r llywydd newydd yn 2016. Gw. European Economic and Social Committee (2016), *Georges Dassis, EESC President, receives His Excellency Monsignor Lebeaupin, Apostolic Nuncio to the European Union* <https://www.eesc.europa.eu/en/news-media/news/georges-dassis-eesc-president-receives-his-excellency-monsignor-lebeaupin-apostolic-nuncio-european-union> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].

[89] COMECE (2018), *Shaping the future of work: A faith-based contribution to the ILO centenary initiative* <http://www.comece.eu/shaping-the-future-of-work-a-faith-based-contribution-to-the-ilo-centenary> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].

canolfan lobïo fwyaf y byd oni bai am Washington, DC, ac amcangyfrifir bod dros 30,000 o lobïwyr yn gweithredu mewn perthynas â'r UE.[90]

Cyflwyna'r adran hon drosolwg o weithgaredd dau fudiad Catholig sy'n amlwg ym Mrwsel, sef JESC a FAFCE. Dyma ddau gorff sydd â statws a meddylfryd gweithredu tebyg i fudiadau Catholig eraill sy'n amlwg ym Mrwsel ac a astudiwyd fel rhan o'r gwaith maes; mudiadau fel Caritas Europa[91] a'r JRS.[92] Mae'r cyrff hyn yn ceisio gweithredu ewyllys a chenhadaeth yr Eglwys er nad ydynt yn atebol iddi yn yr ystyr sefydliadol a'u bod yn gweithredu'n annibynnol arni. Nodwedd amlwg sy'n perthyn i weithgareddau'r mudiadau hyn yw eu parodrwydd i gydweithio â mudiadau eraill sydd â buddiannau cyffredin, boed yn rhai Catholig, yn rhai sy'n cynrychioli enwad neu grefydd wahanol, neu'n rhai seciwlar.

### *Jesuit European Social Centre (JESC)*

Sefydlodd JESC swyddfa ym Mrwsel yn 1963 dan y teitl Office Catholique d'Information sur les Problèmes Européens,[93] a mabwysiadodd ei theitl cyfredol yn 2012.[94] Mae JESC yn gynnyrch ymrwymiad y Jeswitiaid i Ewrop 'where human rights, freedom and solidarity are the foundation of integration'.[95] Cred y Jeswitiaid fod sylfaenwyr yr UE wedi'u hysbrydoli gan syniadaeth gymdeithasol Gatholig ac maent am weld y dylanwadau Cristnogol yn parhau.[96]

Bu cefnogaeth y Jeswitiaid i'r prosiect integreiddio yn gryf o'r dechrau. Yn ôl cynrychiolydd:

> There were French Jesuits in the concentration camps in Nazi Germany serving their countrymen and they started working for reconciliation between Germany and France and they formed a European community of Jesuits, first in Strasbourg when the institutions of the EU were still predominantly in Strasbourg and then later on when the institutions were more established in Brussels they moved to Brussels.[97]

---

[90] *The Guardian* (2014), *30,000 lobbyists and counting: is Brussels under corporate sway?* <https://www.theguardian.com/world/2014/may/08/lobbyists-european-parliament-brussels-corporate> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018]; Transparency International EU (2016), *How many lobbyists are there in Brussels?* <https://transparency.eu/lobbyistsinbrussels/> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

[91] Cyfweliad M. Mae Caritas Europa, y gangen o Caritas sydd wedi'i lleoli ym Mrwsel ac sy'n gweithredu mewn perthynas â sefydiadau'r UE, yn gweithio gyda'r rhwydwaith o fudiadau Caritas ledled Ewrop. Mae dau brif ffocws i waith Caritas Europa, sef eirioli a gweinyddu rhaglenni. Ariennir rhai o'r rhaglenni hyn gan y Comisiwn Ewropeaidd. Y prif feysydd polisi sydd o ddiddordeb i Caritas Europa a rhwydwaith ehangach Caritas yn Ewrop yw gwasanaethau cymdeithasol, mudo ac atgyfnerthu sefydliadol, ac mae cynghori ei phartneriaid ledled Ewrop a chyfnewid gwybodaeth yn rhan bwysig o waith Caritas Europa.

[92] Cyfweliad H.

[93] Leustean, 'Does God matter in the European Union?', tt. 1–32.

[94] Cyfweliad F.

[95] JESC (2018), *Jesuit European Social Centres* <https://jesuits.eu/home/what-we-do/finding-god-2/jesc> [Cyrchwyd: 2 Gorffennaf 2018].

[96] Cyfweliad F.

[97] Ibid.

Parha'r gefnogaeth er gwaethaf bwriad JESC 'to seek a critical but constructive engagement with the EU'.[98]

Gellir mapio perthynas JESC ag Urdd y Jeswitiaid ac â'r Eglwys. Ar gyfandir Ewrop, trefnir Urdd y Jeswitiaid yn daleithiau, a Chynhadledd Jeswitaidd y Taleithwyr Ewropeaidd sy'n cydlynu'r gwaith rhwng y taleithiau. Cyllidir JESC gan y gynhadledd ac mae'n atebol i'r llywydd.[99] Arweinir gwaith JESC o ddydd i ddydd gan y cyfarwyddwr, y Tad Peter Rožič, ac nid oes cyfrifoldebau gweithredol gan lywydd y Gynhadledd Jeswitaidd. Mae JESC felly yn gorff sy'n gweithredu'n lled annibynnol ar y taleithiau Jeswitaidd unigol.

Fel mudiad sy'n rhan o Urdd y Jeswitiaid, mae JESC yn lled annibynnol ar strwythurau ffurfiol yr Eglwys gan nad yw'r urdd 'under the direct command ... of the Vatican or of the Bishops'.[100] Serch hynny, mae JESC yn falch o gydnabod ei bod o fewn yr Eglwys Gatholig ac yn cydweithio'n agos â chynrychiolaeth swyddogol yr esgobion Ewropeaidd yn Mrwsel, sef COMECE.[101] Cyhoedda JESC gylchlythyr misol, *EuropeInfos*, ar y cyd â COMECE, ei phartner agosaf.[102] Cydweithia'n agos hefyd â'r Nuncio Apostolaidd sy'n gwahodd swyddogion JESC i gyfarfod â'i westeion os yw'n credu y byddai hynny o fudd i JESC.[103]

Amcan syfaenol JESC yw datblygu 'values and visions for Europe' ac i fod yn llais i'r rhai 'who have no voice in Europe; we try to be the lobby of those who have no lobby'.[104] Mae iddi alwedigaeth ddeuol, ac mae ei gwaith o eirioli ar faterion polisi yn cydredeg â'i chenhadaeth fugeiliol.

Yn gyntaf, mae JESC yn cynnal swyddfa ym Mrwsel lle y gall ymwneud â sefydliadau'r UE ac â mudiadau cymdeithas sifil. Wrth wneud ei gwaith eirioli, mae'n canolbwyntio'i hadnoddau cymharol brin ar nifer cyfyngedig o feysydd polisi. Mae JESC yn fwy rhyddfrydol na'r actorion eraill a astudir. Nid yw'n ymgyrchu ar faterion dadleuol fel biofoeseg ac mae ei safbwyntiau'n cyd-fynd ar y cyfan â daliadau'r prif ffrwd ym Mrwsel. Bu ei ffocws yn ddiweddar ar newid hinsawdd, cydsafiad economaidd a'r ymateb i dlodi yn Affrica. Mae'n datblygu deunyddiau ar gyfer lobïo ym Mrwsel ac i hyrwyddo gweithgaredd ymgyrchu cyhoeddus yn ehangach.

Yn ail, gweithreda yn y sffêr gymdeithasol drwy drefnu gweithgaredd sy'n gysylltiedig â ffydd. Er enghraifft, cefnoga Chapel for Europe, eglwys Gatholig sy'n gweithredu'n eciwmenaidd ac sydd wedi'i lleoli dafliad carreg o brif sefydliadau'r UE ym Mrwsel. Mae gweithredu'n eciwmenaidd yn ddeisyfiad creiddiol i JESC ac mae'r gwaith gyda Chapel for Europe yn arwain at gydweithio â phartneriaid Catholig, Protestannaidd ac Uniongred.

---

[98] JESC, *Jesuit European Social Centres.*

[99] Cyfweliad F. Mae perthynas debyg rhwng Cynhadledd y Taleithiau a'r JRS, mudiad Catholig sy'n ymgymryd â gweithgaredd eiriolaeth ym Mrwsel. Oherwydd cyfyngiadau hyd, nid oes modd i'r astudiaeth hon gynnig trafodaeth gynhwysfawr ar waith JRS.

[100] Cyfweliad F; cyfweliad H.

[101] Cyfweliad F.

[102] Ibid.

[103] Ibid.; cyfweliad H.

[104] Cyfweliad F.

Cynhelir yma ddigwyddiadau fel cynadleddau, trafodaethau panel a nosweithiau ffilm sy'n rhoi cyfle i weision sifil yr UE a'r gymuned bolisi ehangach drafod a gweddïo dros yr heriau mawr cyfoes.[105] Pwrpas y digwyddiadau yw creu fforwm drafod, nid creu cyfleon i geisio dylanwadu ar y sefydliadau Ewropeaidd.[106]

Cydnebydd JESC mai grŵp lobïo, neu'n hytrach 'grŵp eiriolaeth', ydyw. Mae swyddogion polisi yn meithrin cysylltiadau yn y sefydliadau Ewropeaidd, yn trefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus, ac yn cyfrannu tystiolaeth i ymgyngoriadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae nifer o swyddogion y sefydliadau yn barod i gydweithio â JESC am iddynt fynychu ysgolion neu brifysgolion Jeswitaidd. Un sydd â chyswllt â'r Jeswitiaid yw Frans Timmermans, prif is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, un a addysgwyd gan Ffransisgiaid a oedd dan gomisiwn y Jeswitiaid. Yn ddiweddar, mynychodd swyddog JESC ddiwrnod myfyrio mewn mynachlog Fenedictaidd gyda Herman van Rompuy, aelod blaenllaw o'r Eglwys a chyn-lywydd y Cyngor Ewropeaidd, un o brif sefydliadau'r UE.

Serch hynny, mae JESC yn ymwybodol mai mudiad bach ydyw yng nghyd-destun y myrdd o lobïwyr sy'n targedu'r comisiwn. Senedd Ewrop yw'r prif darged. Ceisia weithio'n agos gyda'r ASEau hynny sy'n rhannu ei daliadau. Yn ddiweddar, bu'n cydweithio â grŵp rhyngseneddol Senedd Ewrop ar 'Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol'.[107] O ganlyniad i'w chysylltiadau yn Senedd Ewrop, gall JESC drefnu bod cynrychiolwyr o'r taleithiau Jeswitaidd yn cwrdd ag ASEau.[108] Nid yw JESC yn ceisio dylanwadu ar safbwyntiau'r EESC, ond ceir peth cyswllt. Anerchodd llywydd yr EESC, Luca Jahier, a addysgwyd gan Jeswitiaid, sesiwn hyfforddi JESC yn 2019.[109]

Creda JESC ei bod yn hanfodol cydweithio nid yn unig â mudiadau Catholig, ond hefyd ag eglwysi a mudiadau Cristnogol yn ehangach.[110] Fel COMECE, cydweithia â CEC a chyda mudiadau seciwlar sy'n ymddiddori yn yr un meysydd polisi. Gweithiodd am gyfnod ar fater 'gemau gwaed' (*blood gems*) ac adnoddau naturiol yn Affrica.[111] Wrth ddatblygu adnoddau gwybodaeth i lobïo yn y maes hwn, cydweithiodd â mudiadau fel yr European Coalition for Corporate Justice, CONCORD: the European NGO Confederation for Relief and Development a'r European Network for Central Africa.[112] Cymerodd ran mewn digwyddiadau lle y bu rhwydwaith o fudiadau Cristnogol a seciwlar yn trafod ecoleg a newid hinsawdd, sy'n faes polisi pwysig i JESC yng nghyd-destun *Laudato si'*.[113] Mae cydweithio cyfyngedig hefyd â grwpiau Uniongred, Iddewig a Mwslemaidd, lle ceir egwyddorion tebyg; er enghraifft,

---

105 Ibid.
106 Ibid.
107 Tan etholiadau 2019, cadeiriwyd y grŵp rhyngseneddol gan Sylvie Goulard ASE. Yn 2019, fe'i henwebwyd gan arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron, fel ymgeisydd Ffrainc ar gyfer aelodaeth o'r Comisiwn Ewropeaidd. Gwrthododd Senedd Ewrop yr enwebiad a bu'n rhaid i Macron gynnig ymgeisydd arall.
108 Cyfweliad F.
109 JESC (2019), *Ready for a European Renaissance?* <https://jesc.eu/ready-for-a-european-renaissance/> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].
110 Cyfweliad F.
111 Ibid.
112 JESC (2018), *Our Partners* <http://jesc.eu/our-partners/> [Cyrchwyd: 3 Gorffennaf 2018].
113 Cyfweliad F.

yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ym Mrwsel yn 2016, trefnodd JESC drafodaeth banel ar y cyd ag esgob yr Eglwys Uniongred, Prif Rabi Brwsel, a chynrychiolydd y gymuned Fwslemaidd.[114] Mae'r Jeswitiaid yn cydnabod eu bod yn fwy rhyddfrydol na'r Eglwys a bod hynny'n rhoi 'delwedd dda' iddynt; credant fod grwpiau o'r tu allan i'r gymuned ffydd yn fwy parod i gydweithio â mudiadau fel JESC a JRS o'r herwydd.[115]

### *The Federation of Catholic Family Associations in Europe (FAFCE)*

Grŵp pwyso yw FAFCE sy'n cynnig 'political representation for family interests from a Catholic perspective, on the basis of the Catholic Church's Social and Family teaching'.[116] Mudiad ymbarél ydyw sy'n cydweithio â thua 20–25 o fudiadau teulu Catholig o fewn gwledydd unigol yn Ewrop.[117] Ei rôl yw cynrychioli llais y teulu mewn perthynas â'r sefydliadau Ewropeaidd,[118] a honna mai ef yw'r unig fudiad teulu 'that explicitly refers to the social teaching of the Catholic Church'.[119] Ceir dau edefyn i waith polisi FAFCE. Eiriola o blaid creu amgylchiadau gwaith a strwythurau economaidd sy'n caniatáu i deuluoedd ffynnu,[120] ond mae ei brif ffocws ar yr agenda 'urddas dynol'. Mae ei safbwyntiau yng nghyd-destun yr ail edefyn hwn yn ddadleuol a thu hwnt i brif ffrwd yr UE. Ymgyrcha yn erbyn erthylu,[121] dirprwyo genedigaeth i fam arall,[122] ac ewthanasia,[123] a phwysleisia bwysigrwydd priodas, gan ddadlau mai'r uned deuluol sy'n sylfaen i'r gymdeithas.[124] Gyda'i ffocws yn fwy amlwg ar hybu'r safbwyntiau hyn, caiff FAFCE ei weld fel mudiad sydd ymhellach o'r brif ffrwd na COMECE, er eu bod yn rhannu bydolwg tebyg.

Sefydlwyd FAFCE yn 1997 ac fe'i cofrestrwyd yn Strasbourg, cartref Cyngor Ewrop, sefydliad sy'n annibynnol ar yr UE ac sydd o ddiddordeb mawr i FAFCE am fod ei waith yn canolbwyntio ar hawliau dynol. Yma, gall FAFCE eirioli o blaid gwerthoedd y teulu. Derbyniodd FAFCE statws 'Non-Governmental Organisation with participative status' gan Gyngor Ewrop yn 2001,[125] ac o'r herwydd gall gymryd rhan mewn rhai o weithgareddau'r

[114] Ibid.
[115] Cyfweliad H.
[116] FAFCE (2018), *The FAFCE in a nutshell* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=98&Itemid=197&lang=en> [Cyrchwyd: 29 Mai 2018].
[117] Cyfweliad O.
[118] Ibid.
[119] FAFCE, *The FAFCE in a nutshell.*
[120] FAFCE (2020), Family Policies <https://www.fafce.org/family-policies/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].
[121] E.e. FAFCE (2017), *Press Release: Full support to the Polish citizens initiative #StopAbortion* <https://www.fafce.org/press-release-full-support-to-the-polish-citizens-initiative-stopabortion/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].
[122] E.e. FAFCE (2020), *Surrogacy: the slippery slope towards 'the right to a child'* <https://www.fafce.org/surrogacy-the-slippery-slope-towards-the-right-to-a-child/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].
[123] E.e. FAFCE (2016), *Press release: Life overcomes! Pro-euthanasia written declaration fails in the European Parliament* <https://www.fafce.org/press-release-life-overcomes-pro-euthanasia-written-declaration-fails-in-the-european-parliament/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].
[124] FAFCE, *The FAFCE in a nutshell.*
[125] Cyfweliad H; FAFCE (2018), *History* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=101&Itemid=200&lang=en> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].

sefydliad.[126] Agorodd FAFCE swyddfa ym Mrwsel yn 2009[127] ac mae ei ffocws bellach ar sefydliadau'r UE, er ei fod yn parhau i weithredu yn Strasbourg.[128] Tybir bod tua 70% o amser swyddogion yn cael ei dreulio ar waith mewn perthynas â'r UE.[129]

O ran strwythur FAFCE, mae dylanwad y mudiadau cenedlaethol hynny sy'n aelodau yn amlwg ar y bwrdd sy'n llywio'i weithgaredd. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolydd bob mudiad sy'n aelod, llywydd, dau is-lywydd, trysorydd a'r ysgrifennydd cyffredinol.[130] Arweinir y gwaith o ddydd i ddydd gan yr ysgrifennydd cyffredinol gyda chymorth un aelod staff, gyda'r ddau wedi'u lleoli ym Mrwsel.

Yn swyddogol, gweithreda FAFCE yn annibynnol ar y Babaeth ac nid oes cyswllt ffurfiol rhyngddo a'r Eglwys,[131] er bod cyswllt ffurfiol rhwng yr Eglwys a rhai o'r mudiadau teulu cenedlaethol sy'n aelodau. Ni chaiff ei ariannu gan yr Eglwys yn ganolog ac mae'r gefnogaeth gan COMECE yn amrywio gan ddibynnu ar frwdfrydedd yr arweinwyr ar y pryd ynghylch amcanion FAFCE.[132] Dibynna ar ei aelodau am gyllid,[133] a gweithreda 'on a shoestring' am fod denu cyllid yn broblem.[134] Mae'r ysgrifennydd cyffredinol yn rhannu ei amser rhwng y gwaith codi arian a lobïo, ac mae'r dasg o feithrin cysylltiadau yn y gwahanol wledydd ac annerch eu cyfarfodydd hefyd yn cymryd amser.[135] Lleolir FAFCE yn adeilad COMECE, dafliad carreg o'r sefydliadau Ewropeaidd;[136] mae'n talu rhent i COMECE ac mae'n cael defnyddio rhai o'r ystafelloedd cyfarfod sydd yn yr adeilad yn ôl yr angen. Mae'r ysgrifennydd cyffredinol yn atebol i fwrdd FAFCE ac nid oes disgwyl iddo roi cyfrif i'r Eglwys.[137]

Er nad oes perthynas hierarchaidd ffurfiol rhwng FAFCE a COMECE, mae'r berthynas yn un agos a chynnes. Mae'r ddau fudiad i bob pwrpas yn rhannu'r un gweithle, a'u swyddogion yn cydweithio fel 'cyfeillion'.[138] Er nad oes awgrym fod FAFCE yn derbyn cyfarwyddiadau'n uniongyrchol gan yr Eglwys, cydnabyddir ei fod yn fudiad a ysbrydolwyd gan Gatholigiaeth a bod ei aelodau yn cael eu galw 'as every Catholic is called to do, to listen to the voice of the Pope and the bishops'.[139] Mae'r Eglwys yn cefnogi FAFCE. Cynhaliodd y Pab Ffrancis dderbyniad esgobol ar y cyd â swyddogion FAFCE yn 2017. Diolchodd iddynt

---

[126] Ymhellach, gw. The Council of Europe (2019), *Participatory status with the Council of Europe* <https://www.coe.int/en/web/ingo/participatory-status> [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2019].
[127] FAFCE, *History*.
[128] Cyfweliad O.
[129] Ibid.
[130] Ibid.; FAFCE (2019), *FAFCE's Board & Secretariat* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=100&Itemid=199&lang=en> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].
[131] Cyfweliad O. Medda FAFCE ar statws 'cymdeithas annibynnol' ac felly nid oes cysylltiadau ffurfiol rhyngddo a'r Pab nac ag Ysgrifenyddiaeth y Wladwriaeth.
[132] Cyfweliad G.
[133] Cyfweliad O.
[134] Cyfweliad G.
[135] Ibid.
[136] Cyfweliad E; cyfweliad G.
[137] Cyfweliad O.
[138] Ibid.; cyfweliad N.
[139] Cyfweliad O; atgyfnerthir hyn gan sylwadau yng nghyfweliad E. Dywed fod FAFCE a'i gynghreiriaid yn 'fully sincere in what they are saying, but their sincerity is an emanation of their loyalty to Rome and the Catholic Church'.

am eu 'bywiogrwydd' a'u 'brwdfrydedd', gan eu hannog i barhau â'r gwaith gan gyfeirio at y teulu fel '[the] most precious treasure' yn Ewrop ac fel 'the fundamental cell of society'.[140]

Ceir ymwneud ysbeidiol rhwng FAFCE a chyrff Catholig fel JESC a Caritas Europa. Mae'r ffocws pennaf ar rannu gwybodaeth a syniadau; er enghraifft, mae Caritas Europa yn weithgar ym maes tlodi,[141] ac un ffactor sy'n gallu arwain at dlodi yw problemau teuluol, maes lle y mae gan FAFCE arbenigedd polisi. Serch y parodrwydd, nid oes llawer o gydweithio ar brosiectau concrit oherwydd bod ffocws y mudiadau ar feysydd polisi gwahanol[142] a bod safbwyntiau FAFCE ar brydiau yn fwy ceidwadol. Ceir peth cydweithio â'r EESC, ond bu cyn-lywydd FAFCE, Antoine Renard, yn cyfarfod yn ysbeidiol â dau aelod o'r EESC sy'n arwain mudiadau'r teulu yn Hwngari a Ffrainc,[143] a chynhaliodd FAFCE gynhadledd ar y thema 'teulu a chyllid' yn adeilad yr EESC yn 2018, gyda llywydd yr EESC a'r aelod o Hwngari yn annerch.[144] Mae FAFCE hefyd yn barod i gydweithio â mudiadau o gymunedau ffydd eraill a rhai di-ffydd, cyhyd â'u bod yn rhannu buddiannau cyffredin:[145]

> The idea is not to be ideological. When you start being ideological then you are not working for the common good, you're working for your own agenda. But if you are working for the common good ... [then] it doesn't matter with whom you are working – within limits: it must be transparent and very fair and so on, but the idea really is to talk to everybody and to work with everybody.[146]

Mae tir cyffredin amlwg rhwng FAFCE ac Eglwysi Uniongred ar faterion bioetheg, ond nemor ddim cydweithio amlwg, er i Eglwys Uniongred Romania gefnogi'r ymgyrch *One of Us* a drafodir isod.[147] Cynhaliodd FAFCE gynhadledd yn Senedd Ewrop ar y cyd â'r Mormoniaid a dau ASE ym mis Mai 2017 ar y thema amddiffyn plant rhag pornograffi.[148]

---

140 Y Pab Francis (2017), *Address of His Holiness Pope Francis to participants in the meeting promoted by the Federation of Catholic Family Associations in Europe (FAFCE)* <https://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2017/june/documents/papa-francesco_20170601_associazioni-familiari-cattoliche.html> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].

141 Cyfweliad M.

142 Cyfweliad O.

143 FAFCE (2019) *Notre Président, Antoine Renard, a eu une réunion de travail aujourd'hui* <https://m.facebook.com/FAFCEurope/photos/a.508555112515927/2416163095088443/?type=3&source=57> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

144 Sallux: ECPM Foundation (2018), *Event report: Family and Finance, a possible alliance?* <https://sallux.eu/news/event-report-family-and-finance-a-possible-alliance.html> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

145 Cyfweliad O; cyfweliad A; cyfweliad G.

146 Cyfweliad O.

147 Representation of the Romanian Orthodox Church to the European Institutions (2013), *8/07/2013: The Romanian Patriarchate Supports the 'One of Us' European Citizens' Initiative* <http://www.orthodoxero.eu/pages/posts/8072013-the-romanian-patriarchate-supports-the-one-of-us-european-citizens-initiative604.php> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

148 Deseret News (2017), *LDS Church represented in European Parliament's conference on children and pornography* <https://www.deseret.com/2017/2/9/20605838/lds-church-represented-in-european-parliament-s-conference-on-children-and-pornography#the-church-of-jesus-christ-of-latter-day-saints-

Dyfarnodd y Mormoniaid eu gwobr flynyddol, gwobr Gwerthoedd y Teulu yr UE, i FAFCE yn 2015.[149] Dewisa ei bartneriaid yn ofalus: rhaid i'r partneriaid rannu ei safbwyntiau polisi a rhoi pwys mawr arnynt, gan gofio nad ydynt ar y cyfan yn rhai sy'n cael eu rhannu gan sefydliadau'r UE. Nid oes cydweithio agos â grwpiau pwyso Iddewig a Mwslemaidd am nad yw'n amlwg eu bod yn blaenoriaethu'r maes polisi hwn i'r un graddau.[150]

Mae rhwydweithio yn ganolog i waith FAFCE, gan gynnwys â rhwydwaith danddaearol,[151] sy'n cynnwys mudiadau Cristnogol fel ADF International, sy'n eirioli a darparu cymorth cyfreithiol ar faterion urddas dynol; European Dignity Watch, sy'n darparu hyfforddiant eiriolaeth; a hyd yn ddiweddar â Christian Action Research and Education (CARE) for Europe.[152] Canolbwynt y rhwydwaith yw staff ac ASEau yr European Christian Political Movement,[153] plaid wleidyddol a oedd â chwech ASE yn ystod tymor 2014–19, yn Gatholigion a Phrotestaniaid.[154] Yn draddodiadol, bu cysylltiadau agos rhwng FAFCE a swyddfeydd ASEau penodol.[155] Yn ôl ei wrthwynebwyr, mae'n rhwydwaith sydd wedi'i chyllido a'i threfnu'n dda,[156] ond yn ôl aelod ohono, 'when you look at us we are a bunch of amateurs with almost no money between us, chaotic, [and] not always united'.[157] Cydnebydd mai rhwydwaith 'clandestine' ydyw a bod cydweithio'n ffurfiol a datblygu strategaeth unedig yn anodd o'r herwydd.[158] Ceisia'r gwrthwynebwyr danseilio mudiadau fel FAFCE ac felly 'most people are fairly nervous, cautious, fearful' o sgileffaith cael eu cysylltu'n gyhoeddus â rhai o'r actorion eraill.[159] Serch yr heriau, mae cysylltiadau cryf rhwng FAFCE a'i gynghreiriaid.[160]

Awgryma'r dystiolaeth hon fod rhyngberthynas rhwng polisïau a dulliau gweithredu. Gweithreda'r rhwydwaith yn gyfrinachol yn benodol am fod ei safbwyntiau polisi ar faterion fel gwerthoedd teulu yn dra gwahanol i safbwyntiau prif ffrwd yr UE.

Fel JESC, mae FAFCE yn ymgymryd â gweithgaredd sy'n arferol i lobïwyr: meithrin cysylltiadau o fewn y sefydliadau Ewropeaidd, trefnu digwyddiadau cyhoeddus a chyfrannu i

was-represented-at-the-exposure-of-children-to-pornography-in-the-european-union-conference-hosted-by-the-european-parliament-on-wednesday> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

[149] Y Mormoniaid (2015), *Leading Catholic European Federation receives 2015 EU Family Values Award* <https://www.mormonnewsroom.org.uk/article/leading-catholic-european-federation-receives-family-values-award> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

[150] Cyfweliad D; cyfweliad G; cyfweliad E; cyfweliad I. Yn ôl cynrychiolydd grŵp sy'n lobïo o blaid hawliau atgenhedlu, 'I haven't seen any Jewish group involved. I don't know why, but they simply don't appear. I have no explanation for it ... When it comes to sexual and reproductive health and rights the challenge that we encounter with Muslim communities has been more that at a community level, and we haven't seen any professional attempts to engage in politics ... They're simply not there [in Brussels]. It looks that that is not something they are doing at the moment for whatever reasons.'

[151] Cyfweliad G; cyfweliad A; cyfweliad E.

[152] Cyfweliad G; cyfweliad A; cyfweliad E.

[153] Cyfweliad G.

[154] Cyfweliad J; cyfweliad C.

[155] Cyfweliad E; cyfweliad G.

[156] Cyfweliad E.

[157] Cyfweliad G.

[158] Ibid.

[159] Ibid.

[160] Ibid.; cyfweliad E.

ymgyngoriadau.[161] Mae Senedd Ewrop yn darged cyson. Gweithia FAFCE gyda'i rwydwaith i baratoi cyngor pleidleisio i ASEau.[162] Gellid dibynnu ar tua 70 ASE – nid Catholigion bob un – i bleidleisio yn ôl ei ddymuniad ar faterion gwerthoedd y teulu.[163] Cymerodd FAFCE rôl flaenllaw yn ymgyrchoedd Menter y Dinasyddion (*Citizens' Initiative*),[164] sef mecanwaith a grëwyd gan Gytundeb Lisbon ac sy'n galluogi dinasyddion i orfodi'r Comisiwn Ewropeaidd i ystyried deddfu ar fater penodol. Er mwyn gorfodi ymateb gan y comisiwn, rhaid i'r trefnwyr gasglu o leiaf filiwn o lofnodion dinasyddion sy'n byw mewn o leiaf saith aelodwladwriaeth.[165] Nid oes rheidrwydd ar y comisiwn i ddeddfu hyd yn oed os yw'r meini prawf hyn yn cael eu cyflawni.

Cymerodd FAFCE rôl arweiniol ym Menter y Dinasyddion *One of Us*, ymgyrch i geisio dwyn perswâd ar y comisiwn 'to end the financing of activities which presuppose the destruction of human embryos, in particular in the areas of research, development aid and public health'.[166] Roedd yn ymgyrch sylweddol, lle'r oedd FAFCE yn gweithio gyda chlymblaid o tua 25 mudiad cenedlaethol ac Ewropeaidd i ddenu llofnodion ac i ymwneud â sefydladiau'r UE.[167] Dyma'r tro cyntaf i unrhyw Fenter y Dinasyddion groesi'r trothwy o filiwn o lofnodion. Fel rhan o'r broses ffurfiol o gyflwyno'r ddeiseb yn 2014, cyfarfu'r trefnwyr yn ffurfiol â'r Comisiwn Ewropeaidd a chynhaliwyd gwrandawiad yn Senedd Ewrop.[168] Er croesi'r trothwy, ni lwyddodd *One of Us* i berswadio'r Comisiwn Ewropeaidd i weithredu.[169] Er y gellir cydnabod bod ymgyrchoedd o'r fath yn agor drysau, sylweddola FAFCE fod angen adnoddau helaeth i weithredu yn y fath fodd ac na ellir gweithredu fel hyn yn rheolaidd.[170]

## Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi ystyried sut y mae'r Eglwys a'r gymuned Gatholig ehangach yn ymwneud â'r UE. Dengys fod rhwydwaith o actorion yn gweithredu i hybu buddiannau Catholig ym Mrwsel a'u bod yn amrywio o ran natur eu perthynas â'r Eglwys, eu ffurf a'r math o gyfleon sydd ar gael iddynt ymwneud â phrosesau polisi yr UE. Prif ganfyddiad

[161] Cyfweliad E; cyfweliad G; cyfweliad O.
[162] Cyfweliad G.
[163] Cyfweliad C.
[164] Cyfweliad G.
[165] Y Comisiwn Ewropeaidd (2019b), *The European Citizens' Initiative* <https://ec.europa.eu/citizens-initiative/public/basic-facts> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].
[166] Y Comisiwn Ewropeaidd (2014), *European Citizens' Initiative: European Commission replies to 'One of Us'* <http://europa.eu/rapid/press-release_IP-14-608_en.htm> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018].
[167] One of Us (2018), *History* <https://oneofus.eu/about-us/history/> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018]; cyfweliad G; cyfweliad O.
[168] Cyfweliad G; cyfweliad E.
[169] Y Comisiwn Ewropeaidd, *European Citizens' Initiative: European Comission replies to 'One of Us'*; cyfweliad C; cyfweliad G. Derbyniodd y Pab Ffransis fwrdd gweithredol *One of Us* yn y Fatican yn 2018 i ddangos ei gefnogaeth. Gw. One of Us (2018), *Pope Francis received the Executive Committee of the One of Us European Federation for Life and Human Dignity* <https://oneofus.eu/2018/05/pope-francis-received-the-executive-com...e-of-the-one-of-us-european-federation-for-life-and-human-dignity/> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018].
[170] Cyfweliad O.

yr astudiaeth yw bod y gymuned Gatholig yn ymwneud â'r UE ar dair lefel. Yn gyntaf, fod perthynas ddiplomyddol rhwng y Babaeth a'r UE fel dau endid sofran. Cyferfydd y Pab yn ysbeidiol ag aelodau haen uchaf arweinyddiaeth yr UE, a chynhelir y berthynas o ddydd i ddydd gan y Nuncio Apostolaidd, cynrychiolydd ffurfiol y Pab i'r UE. Cyflwynwyd tystiolaeth fod y Nuncio Apostolaidd yn hyrwyddo safbwyntiau polisi wrth gyfarfod â chomisiynwyr Ewropeaidd. Yn ail, ceir perthynas strwythuredig a lled ffurfiol rhwng COMECE, cynrychiolydd ffurfiol yr Eglwys ym Mrwsel, a'r UE, a hynny drwy fframwaith y ddeialog a gynhelir yn ôl gofynion Erthygl 17 Cytundeb Lisbon. Dangoswyd sut y mae COMECE yn defnyddio dulliau tebyg i grwpiau pwyso er nad yw'n derbyn mai grŵp pwyso ydyw. Yn drydydd, ceir clytwaith o grwpiau pwyso sy'n gweithredu o hyd braich neu'n gyfan gwbl annibynnol ar yr Eglwys. Nid oes ganddynt berthynas ffurfiol â'r UE ac felly defnyddiant yr un dulliau lobïo â grwpiau pwyso seciwlar. Gan fod astudiaethau blaenorol yn canolbwyntio ar weithgaredd mudiadau Catholig unigol, ergyd yr astudiaeth hon yw bod yn rhaid cadw golwg ar y tair lefel o weithgaredd er mwyn deall natur y berthynas sy'n bodoli rhwng yr Eglwys a'r UE.

Cyflwynwyd peth tystiolaeth fod perthynas rhwng safbwyntiau polisi a dulliau gweithredu. Mae natur y safbwyntiau polisi – ac, yn benodol, y graddau y rhanna'r sefydliadau Catholig ddaliadau prif ffrwd rhyddfrydol sefydliadau'r UE – yn effeithio ar eu dulliau gweithredu. Gall JESC a'r JRS, dau fudiad rhyddfrydol, weithredu'n agored a chydweithio'n gyfforddus â phartneriaid amrywiol tu hwnt am nad yw eu safbwyntiau'n ddadleuol. Rhaid i COMECE dymheru ei geidwadaeth naturiol wrth ymgyrchu a chadw at ddulliau gweithredu confensiynol er mwyn meithrin ei ddelwedd fel partner sy'n ddigon agos at y prif ffrwd i fod yn un derbyniol. Ymhellach o'r prif ffrwd, gweithreda FAFCE a'i gynghreiriaid dethol yn ofalus ac weithiau yn y dirgel.

Datblygir tair set o oblygiadau ar sail y canfyddiadau empeirig. Yn gyntaf, ni waeth beth a ddywedir am seciwlareiddio'r sffêr wleidyddol, mae'r Eglwys a'r gymuned Gatholig yn ymwneud yn agos â'r UE ac nid oes awgrym eu bod am gilio o'r sffêr hon.

Yn ail, mae'r rhwydwaith o actorion a astudiwyd yn darparu ffurf ar gynrychiolaeth wleidyddol i'r 240 miliwn o Gatholigion sy'n ddinasyddion yr UE. Er eu hadnoddau cyfyngedig, gellid dadlau bod y mudiadau a astudiwyd yn darparu ffynhonnell werthfawr o gynrychiolaeth i Gatholigion, a hynny yng nghyd-destun y gofid mawr presennol am gyflwr cynrychiolaeth ar lefel Ewropeaidd.[171]

Yn drydydd, dengys y canfyddiadau fod lle i gymunedau ffydd mewn gwleidyddiaeth seciwlar gyfoes. Canfyddiad empeirig yw hwn yn hytrach na safbwynt normadol. Cynigia system lywodraethiant yr UE gyfleon i gymunedau ffydd ymwneud â phrosesau gwleidyddol ac i geisio dylanwadu ar bolisi. Yn wir, mae statws cymunedau ffydd yng nghylchoedd yr UE wedi cryfhau yn ystod y blynyddoedd diweddar yn dilyn sefydlu'r ddeialog, er cyfyngiadau ymarferol y fframwaith.

[171] E.e. Hix, S. (2008), *What's Wrong with the European Union and How To Fix It?* (Rhydychen: Polity Press).

Gellid datblygu'r agenda ymchwil hon drwy astudio'r gweithgaredd o safbwynt yr UE (ar sail cyfweliadau), neu fynd gam ymhellach drwy ddefnyddio methodoleg (meintiol) Klüver er mwyn mesur dylanwad yr actorion ar yr UE.[172] Tanseilia'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon honiad yr EESC ei fod yn sianel werthfawr i gymdeithas sifil gyfrannu at brosesau polisi'r UE, felly byddai'n fuddiol gwneud gwaith pellach i ddeall diffyg apêl yr EESC a goblygiadau hyn ar lywodraethiant yr UE. Ymhellach, byddai'n fuddiol canfod i ba raddau y mae cymunedau ffydd eraill yn ymwneud â phrosesau polisi'r UE. Byddai hyn oll yn cynnig sail i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r berthynas sy'n bodoli rhwng crefydd a llywodraethiant yn y cyfnod cyfoes.

## Llyfryddiaeth

Albrieux, C. (dim dyddiad), *History: 1980–2015* <http://www.comece.eu/dl/tploJmoJKKJqx4KJKJKJnmll/COMECE_HISTORY_EN.pdf> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

Burns, David P. (2009), 'The Laying of Hands: Pope John Paul II and the Catholic Church's Political Role in Poland Pre- and Post-1989', yn Blaney, Joseph R. a Zompetti, Joseph P. (goln), *The Rhetoric of Pope John Paul II* (Lanham, MD: Lexington Books), tt. 151–72.

Byrnes, T. A. (2001), *Transnational Catholicism in Postcommunist Europe* (Lanham, MD: Rowman & Littlefield).

Coen, D. a Richardson, J. (goln) (2009), *Lobbying the European Union: Institutions, Actors, and Issues* (Rhydychen: Oxford University Press).

COMECE (2018), *Archbishop Jean-Claude Hollerich S.J. elected new President of COMECE* <http://www.comece.eu/archbishop-jean-claude-hollerich-s.j.-elected-new-president-of-comece> [Cyrchwyd: 5 Mehefin 2018].

COMECE (2018), *Commissions & Working Groups* <http://www.comece.eu/site/en/whoweare/commissionsworkinggroups> [Cyrchwyd: 11 Gorffennaf 2018].

COMECE (2018), *Dialogue with EU Institutions* <http://www.comece.eu/site/en/ourmission/dialoguewitheuinstitution> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2018].

COMECE (2018), *Shaping the future of work: A faith-based contribution to the ILO centenary initiative* <http://www.comece.eu/shaping-the-future-of-work-a-faith-based-contribution-to-the-ilo-centenary> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].

COMECE (2018), *Who we are* <http://www.comece.eu/site/en/whoweare> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

COMECE (2019), *The COMECE President created Cardinal by Pope Francis* <http://www.comece.eu/the-comece-president-created-cardinal-by-pope-francis> [Cyrchwyd: 14 Ionawr 2020].

COMECE (2020), *Ecology & Sustainability* <http://www.comece.eu/ecology-and-sustainabilitycomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

[172] Klüver, H. (2013), *Lobbying in the European Union: Interest Groups, Lobbying Coalitions, and Policy Change* (Rhydychen: Oxford University Press).

COMECE (2020), *Factsheet: Health, Research & Bioethics* <http://www.comece.eu/dl/KpMqJmoJKkJqx4KJKJKJnmLN/3_Factsheet_Health_Research_Bioethics_EN.pdf> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

COMECE (2020), *Justice & Fundamental Rights* <http://www.comece.eu/ustice-and-fundamental-rightscomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

COMECE (2020), *Religious Freedom* <http://www.comece.eu/religious-freedomcomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

COMECE (2020), *Migration & Asylum* <http://www.comece.eu/migration-asylum-comece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

COMECE (2020), Social & Economic Policies <http://www.comece.eu/social-and-economic-policiescomece-the-catholic-church-in-the-eu> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

COMECE a CEC (2010), *Article 17 of the Treaty on the Functioning of the European Union: General considerations on the implementation of the dialogue forseen by its paragraph 3* <http://www.comece.eu/dl/qkrrJKJKoKkkJqx4KJK/20100521_COMECE-CSC_CEC_joint_position_Art.17.pdf> [Cyrchwyd: 25 Mehefin 2018]).

Y Comisiwn Ewropeaidd (2012), *Special Eurobarometer 393: Discrimination in the EU in 2012* <http://ec.europa.eu/public_opinion/archives/ebs/ebs_393_en.pdf> [Cyrchwyd: 15 Awst 2015].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2014), *European Citizens' Initiative: European Commission replies to 'One of Us'* <http://europa.eu/rapid/press-release_IP-14-608_en.htm> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *Future of Europe: Commission brings together religious leaders to discuss a value-based and effective Union* <http://europa.eu/rapid/press-release_IP-17-4342_en.htm> [Cyrchwyd: 9 Awst 2018].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *High-level meeting with religious leaders from across Europe* <https://ec.europa.eu/commission/news/high-level-meeting-religious-leaders-across-europe-2017-nov-07_en> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2017), *Meeting with Archbishop Alain Paul Charles Lebeaupin* <https://www.asktheeu.org/en/request/6738/response/22136/attach/5/ARES%202019%203282165%20Annex%20Briefing.pdf> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2020].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2018), *Accession criteria* <https://ec.europa.eu/neighbourhood-enlargement/policy/glossary/terms/accession-criteria_en> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2018), *Rencontre avec le Nonce Apostolique Auprès de l'Union Européenne* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/22235/attach/6/Briefing.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *Briefing file for Commissioner Thyssen: Bilateral meeting with H.E. Monsignor Lebeaupin, Apostolic Nuncio to the European Union* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/22153/attach/4/147%202019%20MT%20B%201265%20Mtg%20Lebeaupin%20Apostolic%20Nuncio%20to%20EU%2029%2003%20docx%20Redacted.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *The European Citizens' Initiative* <https://ec.europa.eu/citizens-initiative/public/basic-facts> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *Meeting with Archbishop Lebeaupin, Apostolic Nuncio to EU Commissioner's Office, Berlaymont* <https://www.asktheeu.org/en/request/6752/response/21991/attach/4/BASIS%20823%20Meeting%20Apostolic%20Nuncio%20to%20EU%20rev10%2001%20002%20Redacted.pdf?cookie_passthrough=1> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

The Council of Europe (2019), *Participatory status with the Council of Europe* <https://www.coe.int/en/web/ingo/participatory-status> [Cyrchwyd: 30 Tachwedd 2019].

Delegation of the European Union to the Holy See/L'Osservatore Romano (2017), *The Popes and Sixty Years of European Integration* (Y Fatican: Delegation of the European Union to the Holy See/L'Osservatore Romano).

Deseret News (2017), *LDS Church represented in European Parliament's conference on children and pornography* <https://www.deseret.com/2017/2/9/20605838/lds-church-represented-in-european-parliament-s-conference-on-children-and-pornography#the-church-of-jesus-christ-of-latter-day-saints-was-represented-at-the-exposure-of-children-to-pornography-in-the-european-union-conference-hosted-by-the-european-parliament-on-wednesday> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

*The Economist* (2007), *Papal diplomacy: God's ambassadors* <https://www.economist.com/international/2007/07/19/gods-ambassadors> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

Eder, F. a Barigazzi, J. (2018), *God's man in Brussels: With allies in Brussels and the Vatican, Cardinal Reinhard Marx has shaped the European debate* <https://www.politico.eu/article/cardinal-reinhard-marx-gods-man-in-brussels-catholic-church/> [Cyrchwyd: 31 Hydref 2019].

Eising, Rainer (2016), 'Interest Groups and the European Union', yn Cini, Michelle a Borragán, Nieves Pérez-Solórzano (goln), *European Union Politics* (5ed argraffiad) (Rhydychen: Oxford University Press), t. 182.

European Economic and Social Committee (2016), *Georges Dassis, EESC President, receives His Excellency Monsignor Lebeaupin, Apostolic Nuncio to the European Union* <https://www.eesc.europa.eu/en/news-media/news/georges-dassis-eesc-president-receives-his-excellency-monsignor-lebeaupin-apostolic-nuncio-european-union> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].

European External Action Service (2016), *About the Delegation of the European Union to the Holy See, Order of Malta, UN Organisations in Rome, Republic of San Marino* <https://eeas.europa.eu/delegations/un-rome/1703/about-delegation-european-union-holy-see-order-malta-un-organisations-rome-republic-san-marino_en> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

European External Action Service (2016), *The Holy See and the EU* <https://eeas.europa.eu/headquarters/headquarters-homepage_en/2355/The%20Holy%20See%20and%20the%20EU> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

FAFCE (2016), *Press Release: Life overcomes! Pro-euthanasia written declaration fails in the European Parliament* <https://www.fafce.org/press-release-life-overcomes-pro-euthanasia-written-declaration-fails-in-the-european-parliament/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

FAFCE (2017), *Press Release: Full support to the Polish citizens initiative #StopAbortion* <https://www.fafce.org/press-release-full-support-to-the-polish-citizens-initiative-stopabortion/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

FAFCE (2018), *History* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=101&Itemid=200&lang=en> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].

FAFCE (2018), *The FAFCE in a nutshell* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=98&Itemid=197&lang=en> [Cyrchwyd: 29 Mai 2018].

FAFCE (2019), *FAFCE's Board & Secretariat* <http://www.fafce.org/index.php?option=com_content&view=article&id=100&Itemid=199&lang=en> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].

FAFCE (2019) *Notre Président, Antoine Renard, a eu une réunion de travail aujourd'hui* <https://m.facebook.com/FAFCEurope/photos/a.508555112515927/2416163095088443/?type=3&source=57> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

FAFCE (2020), *Family Policies* <*https://www.fafce.org/family-policies/*> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

FAFCE (2020), *Surrogacy: the slippery slope towards 'the right to a child'* <https://www.fafce.org/surrogacy-the-slippery-slope-towards-the-right-to-a-child/> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

Foret, F. (2015), *Religion and Politics in the European Union* (Efrog Newydd: Cambridge University Press).

Grötsch, F. a Schnabel, A. (2012), 'Integration – what integration? The religious framing of the European integration process between 1990 and 2000', *European Societies*, 14 (4), 586–610.

*The Guardian* (2014), *30,000 lobbyists and counting: is Brussels under corporate sway?* <https://www.theguardian.com/world/2014/may/08/lobbyists-european-parliament-brussels-corporate> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

Hix, S. (2008), *What's Wrong with the European Union and How To Fix It?* (Rhydychen: Polity Press).

Hogebrink, Laurens (2015), *Europe's Heart and Soul: Jacques Delors' Appeal to the Churches* (Genefa: Globethics.net a CEC).

The Holy See (1983), 'Code of Canon Law' <http://www.vatican.va/archive/ENG1104/__P1L.HTM> [Cyrchwyd: 10 Gorffennaf 2018].

The Holy See (2018), *Liste du CORPS DIPLOMATIQUE près le Saint-Siège: Janvier 2018* <http://www.vatican.va/roman_curia/secretariat_state/cd/rc-saint-siege_cd.html> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

JESC (2018), *Jesuit European Social Centres* <https://jesuits.eu/home/what-we-do/finding-god-2/jesc> [Cyrchwyd: 2 Gorffennaf 2018].

JESC (2018), *Our Partners* <http://jesc.eu/our-partners/> [Cyrchwyd: 3 Gorffennaf 2018].

JESC (2019), *Ready for a European Renaissance?* <https://jesc.eu/ready-for-a-european-renaissance/> [Cyrchwyd: 1 Medi 2020].

Kaiser, W. (2007) *Christian Democracy and the Origins of European Union* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Klüver, H. (2013), *Lobbying in the European Union: Interest Groups, Lobbying Coalitions, and Policy Change* (Rhydychen: Oxford University Press).

Kratochvíl, P. a Doležal, T. (2015), *The European Union and the Catholic Church: Political Theology of European Integration* (Basingstoke: Palgrave MacMillan).

Leustean, Lucian N. (2013), 'Does God matter in the European Union?', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God Matter?* (Llundain: Routledge), tt. 1–31.

Liedhagener, Antonius (2013), 'Why Brussels is neither Washington nor Berlin: Political Catholicism in differing political systems', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God Matter?* (Llundain: Routledge), tt. 185–98.

Medrano, J. D. (2003), *Framing Europe: Attitudes to European Integration in Germany, Spain, and the United Kingdom* (Princeton, NJ: Princeton University Press).

Y Mormoniaid (2015), *Leading Catholic European Federation receives 2015 EU Family Values Award* <https://www.mormonnewsroom.org.uk/article/leading-catholic-european-federation-receives-family-values-award> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

Nelsen, B. F., Guth, J. L. a Highsmith, B. (2011), 'Does Religion Still Matter? Religion and Public Attitudes toward Integration in Europe', *Politics and Religion*, 4 (1), 1–26.

O'Mahony, A. (2009), 'The Vatican and Europe: Political Theology and Ecclesiology in Papal Statements from Pius XII to Benedict XVI', *International Journal for the Study of the Christian Church*, 9 (3), 177–94.

One of Us (2018), *History* <https://oneofus.eu/about-us/history/> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018].

One of Us (2018), *Pope Francis received the Executive Committee of the One of Us European Federation for Life and Human Dignity* <https://oneofus.eu/2018/05/pope-francis-received-the-executive-com...e-of-the-one-of-us-european-federation-for-life-and-human-dignity/> [Cyrchwyd: 30 Mai 2018].

Ornatowski, Cezar M. (2009), 'Rhetoric of Pope John Paul II's Visits to Poland 1979–99', yn Blaney, Joseph R. a Zompetti, Joseph P. (goln), *The Rhetoric of Pope John Paul II* (Lanham, MD: Lexington Books), tt. 103–50.

Y Pab Francis (2014), *Address of Pope Francis to the European Parliament* <http://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2014/november/documents/papa-francesco_20141125_strasburgo-parlamento-europeo.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

Y Pab Francis (2015), *Laudato Si'* <w2.vatican.va/content/francesco/en/encyclicals/documents/papa-francesco_20150524_enciclica-laudato-si.html> [Cyrchwyd: 20 Chwefror 2020].

Y Pab Francis (2017), *Address of His Holiness Pope Francis to participants in the meeting promoted by the Federation of Catholic Family Associations in Europe (FAFCE)* <https://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2017/june/documents/papa-francesco_20170601_associazioni-familiari-cattoliche.html> [Cyrchwyd: 22 Mehefin 2018].

Y Pab Francis (2017), *Address of His Holiness Pope Francis to the Heads of State and Government of the European Union in Italy for the celebration of the 60th anniversary of the Treaty of Rome* <http://w2.vatican.va/content/francesco/en/speeches/2017/march/documents/papa-francesco_20170324_capi-unione-europea.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

Y Pab Ioan Pawl II (1988), *Address of the Holy Father John Paul II to the European Commission and the European Courts of Human Rights* <http://www.vatican.va/content/john-paul-ii/en/speeches/1988/october/documents/hf_jp-ii_spe_19881008_human-rights.html> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

Y Pab Ioan Pawl II (1988), *Discorso di Giovanni Paolo II durante la visita al Parlamento Europeo* <http://www.vatican.va/content/john-paul-ii/en/speeches/1988/october/documents/hf_jp-ii_spe_19881011_european-parliament.html> [Cyrchwyd: 31 Rhagfyr 2019].

Y Pab Ioan Pawl II (1998), *Apostolos Suos* <http://w2.vatican.va/content/john-paul-ii/en/motu_proprio/documents/hf_jp-ii_motu-proprio_22071998_apostolos-suos.html> [Cyrchwyd: 10 Gorffennaf 2018].

Permanent Office of the Romanian Orthodox Church to the European Institutions (2017), *Meeting between CROCEU and COMECE delegations* <https://www.romorth.eu/single-post/2018/09/20/Meeting-between-CROCEU-and-COMECE-delegations> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

Press Office of the Holy See (2018), *Note on the Diplomatic Relations of the Holy See, 08.01.2018* <https://press.vatican.va/content/salastampa/en/bollettino/pubblico/2018/01/08/180108a.html> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

Representation of the Church in Cyprus to the European Union (2019), *Churches-EU Dialogue: Meeting with the Romanian Presidency of the EU Council. 28-01-2019* <https://www.churchofcypruseu.com/index.php/en/news/296-churches-eu-dialogue-meeting-with-the-romanian-presidency-of-the-eu-council-28-01-2019> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

Representation of the Romanian Orthodox Church to the European Institutions (2013), *8/07/2013: The Romanian Patriarchate Supports the 'One of Us' European Citizens' Initiative* <http://www.orthodoxero.eu/pages/posts/8072013-the-romanian-patriarchate-supports-the-one-of-us-european-citizens-initiative604.php> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

Rojas, G. (2019), *Meetings held with the Apostolic Nuncio, Alain Paul Lebeaupin* <https://www.asktheeu.org/en/request/meetings_held_with_the_apostolic> [Cyrchwyd: 1 Ionawr 2020].

Rowland, T. (2008), *Ratzinger's Faith: The Theology of Pope Benedict XVI* (Rhydychen: Oxford University Press).

Sallux: ECPM Foundation (2018), *Event report: Family and Finance, a possible alliance?* <https://sallux.eu/news/event-report-family-and-finance-a-possible-alliance.html> [Cyrchwyd: 2 Medi 2020].

Schulz-Forberg, H. a Stråth, B. (2010), *The Political History of European Integration: The Hypocrisy of Democracy-Through-Market* (Abingdon: Routledge).

Selaru, Sorin (2015), 'Representing the Orthodox Churches to the European Union', *Ortodoksia*, 54, 54–80.

SIR (2016), *International Scenarios: 'Close relations between Europe and the Holy See' for Jan Tombinski, new EU envoy to the Vatican* <https://agensir.it/europa/2016/11/10/close-relations-between-europe-and-the-holy-see-for-jan-tombinski-new-eu-envoy-to-the-vatican/> [Cyrchwyd: 6 Awst 2018].

Sutton, M. (1997), 'John Paul II's Idea of Europe', *Religion, State & Society*, 25 (1), 17–29.

Transparency International EU (2016), *How many lobbyists are there in Brussels?* <https://transparency.eu/lobbyistsinbrussels/> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

Turner, Frank (2013), 'The Roman Catholic Church and the European institutions: dialogue and advocacy at the European Union', yn Leustean, Lucian N. (gol.), *Representing Religion in the European Union: Does God Matter?* (Llundain: Routledge), tt. 77–90.

Vatican City State (2018), *Numismatic Issues – 2018* <http://www.vaticanstate.va/content/vaticanstate/en/servizi/ufficio-filatelico-e-numismatico/emissioni-numismatiche/ultime-emissioni.paginate.1.html> [Cyrchwyd: 7 Awst 2018].

Vatican City State (2018), *State Departments* <http://www.vaticanstate.va/content/vaticanstate/en/stato-e-governo/organi-dello-stato.html> [Cyrchwyd: 3 Awst 2018].

Walsh, Michael (2008), 'From Karol Wojtyla to John Paul II: Life and Times', yn Mannion, Gerard (gol.), *The Vision of John Paul II: Assessing His Thought and Influence* (Collegeville, MN: Liturgical Press), tt. 10–28.

Weigel, G. (2010), *The End and the Beginning: Pope John Paul II – The Victory of Freedom, the Last Years, the Legacy* (Efrog Newydd: Doubleday).

# Perthnasedd Poen ac Undonedd: Kate Roberts a Ffuglen y 1930au

Jerry Hunter

*Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Bangor*

Cyflwynwyd: 4 Mawrth 2020; Derbyniwyd: 22 Hydref 2020

**Crynodeb:** Mae'r erthygl hon yn ystyried datblygiad ffuglen Gymraeg yn y 1930au, a hynny trwy archwilio gwahanol syniadau ynglŷn â natur realaeth. Mae craffu ar ohebiaeth Saunders Lewis a Kate Roberts yn fodd i ddadansoddi'r modd y syniai'r ddau lenor am hanfodion estheteg realaidd. Trafodir ymateb Saunders Lewis i ddrafft cyntaf y nofel *Traed mewn Cyffion* ac awgrym Kate Roberts wrth amddiffyn hanfod y gwaith fod 'poen ac undonedd' yn berthnasol yn y 1930au ac yn themâu llenyddol dilys. Awgrymir bod apêl Kate at waith y nofelydd Gwyddelig, Peadar O'Donnell, yn bwysig er mwyn deall ei hestheteg hi. Edrychir wedyn ar y berthynas rhwng *Traed mewn Cyffion* ac un o nofelau O'Donnell, *Islanders*.

**Allweddeiriau:** Kate Roberts, Saunders Lewis, Peadar O'Donnell, W. J. Gruffydd, realaeth, ffuglen, nofel, *Y Llenor*, *Traed mewn Cyffion*, *Islanders*.

## The Relevance of Pain and Monotony: Kate Roberts and Fiction of the 1930s

**Abstract:** This article considers the development of Welsh fiction in the 1930s by examining various ideas concerning the nature of realism. Reading the correspondence between Saunders Lewis and Kate Roberts is a means of analysing the ways in which the two authors perceived the essentials of a realist aesthetics. Saunders Lewis's reaction to the first draft of the novel *Traed mewn Cyffion* ('Feet in Chains') is discussed along with Kate Roberts's suggestion made while defending the work that 'pain and monotony' are relevant in the 1930s and valid literary themes. It is suggested that Kate's appeal to the work of the Irish novelist Peadar O'Donnell is important in order to understand her aesthetics. The relationship between *Traed mewn Cyffion* and one of O'Donnell's novels, *Islanders*, is then examined.

**Key words**: Kate Roberts, Saunders Lewis, Peadar O'Donnell, W. J. Gruffydd, realism, fiction, novel, *Y Llenor*, *Traed mewn Cyffion*, *Islanders*.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Mae ffawd y nofel Gymraeg yn ystod y can mlynedd ddiwethaf yn un o'r agweddau hynotaf ar hanes llenyddiaeth Gymraeg. Clywir darllenwyr brwd heddiw yn ochneidio – yn orfoleddus ac yn rhwystredig ar yr un pryd – a chwyno nad yw'n bosibl darllen yr holl nofelau Cymraeg a gyhoeddir. Rydym yn tystio i barhad 'dadeni rhyddiaith' degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Nododd Gerwyn Wiliams yn 1999 'fod yr hatsys creadigol hyn wedi eu codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf'.[1] Fel hyn y crisialodd arwyddocâd y tro cyffrous hwn ar y byd llenyddol Cymraeg:

> O'r diwedd, fe ymddengys fod yma ddilyniant, sef to cyfan o nofelwyr yn fodlon ymestyn ffiniau'r *genre* gyda'u dychymyg ac nid ambell unigolyn yn cyhoeddi testun eithriadol unwaith yn y pedwar amser.[2]

Nodwyd lawer tro mai bregus oedd cyflwr y nofel Gymraeg cyn y 1980au. Mynegwyd y pryder beirniadol ar ffurf gofiadwy gan John Rowlands tua chanol y 1970au. '[P]rin y mae'r nofel Gymraeg wedi'i geni hyd yn hyn', meddai, gan ychwanegu: 'Nid nofel Gymraeg sydd gennym, ond nofelau mewn Cymraeg.'[3]

Disgrifiodd W. J. Gruffydd gyflwr y nofel gyfoes ar dudalennau *Y Llenor* yn 1939 mewn modd sydd o bosibl yn fwy digalon hyd yn oed: 'Byddwn yn aml yn cwyno nad oes neb ond rhyw ddau awdur yn ysgrifennu nofel hir o ddim gwerth y dyddiau hyn.'[4] Yn debyg i lawer o sylwadau W. J. Gruffydd, mae'n bryfoclyd o amhendant ac felly ni ellir ond dyfalu pa ddau lenor a oedd ganddo dan sylw. Cyhoeddwyd nifer o nofelau Cymraeg yn ystod y 1930au, ond go brin bod llawer o ddarllenwyr heddiw wedi agor cloriau'r rhan fwyaf ohonynt (e.e. *Ffynnonloyw* gan Moelona, *Creigiau Milgwyn* gan Grace Wynne Griffiths neu *Plasau'r Brenin* gan Gwenallt). Ond mae dwy nofel Gymraeg o'r degawd hwnnw sydd wedi ennill statws canonaidd – a barnu'n ôl nifer yr adargraffiadau sydd wedi'u cyhoeddi a pha mor aml y cânt sylw ar feysydd llafur modiwlau prifysgol – sef *Monica* gan Saunders Lewis a *Traed mewn Cyffion* gan Kate Roberts.

---

[1] Wiliams, Gerwyn (1999), 'Rhagymadrodd', yn Wiliams, Gerwyn (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 15.

[2] Ibid., t. 114. Gw. hefyd y modd y mae John Rowlands yn ymateb i'r sylwadau a wnaeth yn 1974 wrth drafod y 'dadeni rhyddiaith'; Rowlands, John (2000), 'Rhagair', yn Rowlands, John (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar Ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 1–2.

[3] Rowlands, John (1992), *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 242. Dywed am y bennod hon, 'Agweddau ar y Nofel Gymraeg Gyfoes', ei bod yn cyflwyno 'sylwadau ... fwy neu lai yn y ffurf ... y traddodwyd hwy i Gylch Llenyddol Caerdydd yn Ionawr 1974' (t. 260, n. 1).

[4] Gruffydd, W. J. (1939), 'Adolygiadau', *Y Llenor*, 123. Adolyga argraffiadau newydd o ddwy o nofelau Daniel Owen yn yr ysgrif. Am drafodaeth bellach, gw. Hunter, Jerry (2012), 'Dwy Storm, Dau Lenor: Kate Roberts, Daniel Owen a Ffuglen y 1930au', *Y Traethodydd*, 167, Ionawr, 44–53.

## Estheteg Realaidd Kate Roberts a Saunders Lewis

'Gwreiddiodd realaeth naturiolaidd yn ddwfn yn nhraddodiad y nofel Gymraeg,' yn ôl Angharad Price.[5] Mae nifer o feirniaid eraill wedi casglu mai realaeth fu prif ffrwd ffuglen Gymraeg rhwng oes Daniel Owen a'r 'dadeni rhyddiaith', fel y gwna John Rowlands wrth drafod y wedd realaidd ar *Hunangofiant Rhys Lewis Gweinidog Bethel*: 'o hynny ymlaen y maen prawf pwysicaf oll wrth drafod nofelau [Cymraeg] oedd a oedd y cymeriadau'n rhai cig-a-gwaed'.[6]

Yn anad un wedd arall ar ei gwaith, canmolid a chanmolir ffuglen Kate Roberts am y modd y mae'n darlunio bywyd cymunedau chwarelyddol Arfon. Ond o safbwynt ei henw da llenyddol, roedd y realaeth hon yn gleddyf deufin, yn enwedig ar ddechrau'i gyrfa. Ar ôl i'w chyfrol gyntaf o straeon byrion, *O Gors y Bryniau*, ymddangos yn 1925, adolygodd W. J. Gruffydd hi yn *Y Llenor*:

> Buddiol ... esbonio ... mai yn ei hardal enedigol ... yn sir Gaernarfon, y cafodd yr awdures yr awen i wneuthur ei champwaith. Yn wir, od oes wendid amlwg ar y naw stori, yn y cysylltiad hwn y mae chwilio amdano; tueddir ni i gredu fod Miss Roberts yn dibynnu weithiau ar y cof yn hytrach nag ar y dychymig, ei bod yn rhy barod i wneuthur ffotograff yn lle paentio darlun ... Oriau diog Miss Roberts yw pan demtir hi i adgynhyrchu yn lle creu.[7]

Mewn llythyr a ysgrifennodd at Saunders Lewis ddwy flynedd yn gynharach, awgrymodd mai anallu i 'ddisgrifio' pethau mewn modd realistig oedd ei phrif fethiant: 'mae ol ymdrech ar bob stori a sgrifennais, ac maent yn fylchog iawn oherwydd f'anallu i ddisgrifio manylion'.[8] Gwedd arall ar ei realaeth yn y cyfnod cynnar hwn oedd y modd y defnyddiai dafodiaith; datganodd yn ei rhagymadrodd i *Laura Jones* (1930) ei bod hi'n 'amhosibl gwneuthur stori'n naturiol yn Gymraeg heb ddefnyddio ffurfiau llafar pan fo pobl yn siarad â'i gilydd'.[9]

Fel y dengys yr ohebiaeth faith a fu rhwng y ddau lenor, roedd Saunders Lewis yn ymwybodol iawn o'r cefndir hwn pan ddarllenodd 'Suntur a Chlai' tua diwedd 1934, sef drafft o'r nofel y byddai Kate Roberts yn ei chyhoeddi ymhen dwy flynedd o dan y teitl

---

[5] Price, Angharad (2002), *Rhwng Gwyn a Du* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 124.

[6] Rowlands, John (1996), 'Chwarae â chwedlau: cip ar y nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', *Y Traethodydd*, Ionawr, 5.

[7] Gruffydd, W. J. (1925), 'Adolygiadau', *Y Llenor*, 254.

[8] Ifans, Dafydd (gol.) (1993), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923–1983* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol), t. 5.

[9] Roberts, Kate (1930), *Laura Jones* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth), t. 5. Flwyddyn yn ddiweddarach, byddai'n mynd ati i amddiffyn y wedd hon ar ei ffuglen mewn ysgrif arall: Roberts, Kate (1931), 'Tafodiaith Mewn Storïau', *Y Llenor*, 55–8. Er na ellir manylu ar y gymhariaeth hon yma, mae'n werth nodi bod deialog *Monica* yn bell iawn oddi wrth y dafodiaith y credai Kate ei bod yn wedd bwysig ar realaeth ei ffuglen hithau.

*Traed mewn Cyffion*. Mewn llythyr a ysgrifennodd at Kate, mae Saunders yn cyflwyno'i feirniadaeth. Dywedodd yn blaen nad oedd yn credu bod y nofel yn cyrraedd safon casgliad diweddaraf o straeon byrion Kate, *Rhigolau Bywyd*. Barnodd nad oedd hi wedi dewis y ffurf fwyaf addas ar gyfer ei themâu a natur ei hymdriniaeth â'r themâu hynny: 'ni ddylech fod wedi sgrifennu *nofel* ar y fath destun', meddai, gan awgrymu y byddai ffurf y stori fer wedi gweddu'n well.[10]

Cwynodd nad oedd gwaith newydd Kate yn rhoi digon o sylw i '[b]rofiad crefyddol', rhywbeth a oedd yn ei farn ef yn rhan annatod o gymdeithas chwarelwyr Arfon yn y cyfnod dan sylw: 'mae'ch cymeriadau chi'n byw ar yr wyneb i gyd ... nid oes ganddynt fywyd ysbrydol o gwbl'.[11] Atebodd Kate gan daeru nad oedd y gymdeithas honno mor grefyddol mewn gwirionedd, gan awgrymu bod Saunders ac eraill yn delfrydu gwerin Gymreig grefyddol y cyfnod. Pwysleisiodd ei barn mewn modd di-flewyn-ar-dafod:

> Petaswn i'n mynd i ysgrifennu nofel am fywyd crefyddol mi wnawn fy ngwron yn anffyddiwr ac fe ymosodwn ar grefydd ym mhob ffurf arni. Mae'n gas gan fy enaid Gristionogaeth.[12]

Ychwanegodd ei bod yn credu mai crefydd 'sydd yn gyfrifol bod y fath drefn ar y byd heddiw' gan ei bod 'wedi noddi cyfalafwyr rhagrithiol ar hyd y canrifoedd'.[13] Deillia sylw Saunders ynghylch (diffyg) profiad crefyddol o feirniadaeth ehangach: 'Y mae'r bywyd a ddisgrifir yn y nofel ar y cyfan yn undonog iawn.'[14] Ymateb Kate oedd gofyn cwestiwn rhethregol: 'onid peth perthnasol yw poen, ac undonedd?'[15]

Yn sicr, roedd poen ac undonedd yn hynod berthnasol i lawer iawn o Gymry pan ysgrifennodd y geiriau hynny. A gafael y Dirwasgiad Mawr yn dynn ar economi'r wlad, roedd 32.2% o weithwyr Cymru'n ddi-waith yn 1934.[16] Cyn diwedd y degawd, byddai dros 300,000 o drigolion Cymru yn allfudo i chwilio am waith, gyda'r wlad yn colli dros 10% o'i phoblogaeth.[17] Ond, a dyfynnu'r hanesydd John Davies, 'aros gartref mewn segurdod fu tynged cannoedd o filoedd o Gymry'r tridegau'.[18] Gan awgrymu bod ei fagwriaeth yn ei osod ar wahân i ddosbarth gweithiol Cymru, dywedodd Kate fod Saunders 'yn gwbl ddieithr ... i fywyd gweithwyr yn gyffredinol'.[19] Mae Kate yn dehongli'i nofel ei hun mewn modd sy'n gosod dosbarth cymdeithasol yn ganolog iddi. Cysylltir gweithgareddau

---

[10] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 108.
[11] Ibid.
[12] Ibid., t. 110.
[13] Ibid.
[14] Ibid., t. 108.
[15] Ibid., t. 112.
[16] Beveridge, William Henry (1937), *An Analysis of Unemployment* (Washington, DC: Social Security Board), t. 18. Gw. hefyd Gooberman, Leon (2017), *From Depression to Devolution: Economy and Government in Wales, 1934–2006* (Caerdydd: University of Wales Press), tt. 12–20.
[17] Davies, John (1990), *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin), tt. 555–6.
[18] Ibid., t. 556.
[19] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 111.

gwleidyddol Kate Roberts yn bennaf â'r Blaid Genedlaethol (Plaid Cymru, fel y daethpwyd i'w galw).[20] Daeth Kate yn genedlaetholwraig selog, ond coleddai ddaliadau sosialaidd yn null 'an instinctive socialist', chwedl Katie Gramich.[21] Awgryma'r beirniad hwn fod *Traed mewn Cyffion* yn arddangos 'a nationalist and a socialist consciousness being born in the people of one corner of Wales'.[22] Gellid gofyn a yw'r 'ymwybyddiaeth' yn cael 'ei geni' yn y 'gongl o Gymru' y mae'r nofel yn canolbwyntio arni mewn gwirionedd: fel y nodir isod, diffyg chwyldro a ddisgrifir yn *Traed mewn Cyffion*, cymeriadau sy'n methu â chyfodi a chwalu'r cyffion sy'n eu dal yn gaeth. Ond mae'n bosibl cytuno'n rhwydd â gosodiad Katie Gramich yn un peth: mae ideoleg genedlaetholgar-sosialaidd yn cyflyru'r nofel, ond yn hytrach na darlunio 'genedigaeth' o'r fath, mae'n gofyn i'r darllenwyr ystyried gormes cymdeithas sy'n rhwystro pobl rhag y fath gyfodi. Dyma hanfod ei hymdriniaeth â 'phoen ac undonedd'.

Er bod y drafodaeth ar 'Suntur a Chlai' a geir yng ngohebiaeth Kate a Saunders yn ddiddorol yng nghyd-destun *Traed mewn Cyffion*, mae arwyddocâd ehangach i'r sylwadau hyn gan eu bod yn dadlennu gwahanol safbwyntiau ynglŷn â natur ffuglen realaidd. Yn wir, gellir awgrymu bod y ddau lenor yn coleddu mathau tra gwahanol o estheteg realaidd. Wrth gyplysu natur 'undonog' y nofel â'r diffyg bywyd ysbrydol a welodd yn ei chymeriadau, awgrymodd Saunders y gellid cyrraedd gwell estheteg 'trwy ddewis arwynebedd undonog ond bod y diddordeb yn yr ymchwil i fywyd cynhyrfus oddiantodd'.[23] Nododd hefyd y dylai nofelydd sy'n dewis trafod bywyd arwynebol lunio '[d]adansoddiad mwy treiddiol' o'r rhesymau dros y diffygion sy'n nodweddu'r bywyd hwnnw.[24] Ymddengys fod Saunders yn derbyn y gall darlunio 'undonedd' bywyd fod yn ganolog i nofel realaidd lwyddiannus, cyn belled â bod yr undonedd hwnnw'n gyfrwng i ddadlennu ymsymud mewnol y cymeriadau o dan wyneb diflastod eu bywydau.

Nid yw'n syndod nodi bod y geiriau hyn yn ddisgrifiad addas iawn o'r nofel a gyhoeddodd Saunders Lewis yntau yn 1930. Mae *Monica* yn archwilio dirywiad seicolegol ei phrif gymeriad, chwalfa fewnol sy'n ddrych i afiechyd corfforol, a'r cyfan yn digwydd yn erbyn cefnlen bywyd undonog ac arwynebol maestref.[25] Mae'n werth nodi wrth fynd heibio fod Iorwerth C. Peate wedi beirniadu *Monica* mewn adolygiad mewn modd a fyddai'n rhagweld un o gwynion Saunders am nofel Kate, sef ei fod wedi dewis ffurf y nofel yn hytrach na'r stori fer: 'Dyna yw hon – stori fer wedi ei sgrifennu'n ddigon anghynnil i gymryd maintioli nofel, heb odid un o hanfodion gwir nofel yn perthyn iddi.'[26] Gwelwyd y byddai Kate yn nodi bod '[b]ywyd gweithwyr' y wlad 'yn gwbl ddieithr' i Saunders; mae'n ddiddorol nodi

[20] Gw. e.e. Llwyd, Alan (2011), *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891–1985* (Talybont: Y Lolfa), tt. 111–12, 115–16, 173–5 a 295–6. Gw. hefyd Williams, Nia (1998), '"Fy iaith, fy ngwlad, fy nghenedl": hanes ymgyrchoedd gwleidyddol Kate Roberts 1915–1961' (traethawd MA, Prifysgol Cymru Aberystwyth).
[21] Gramich, Katie (2011), *Kate Roberts* (Caerdydd: University of Wales Press), t. 30.
[22] Ibid., t. 53.
[23] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 109.
[24] Ibid., t. 108.
[25] Lewis, Saunders (1930), *Monica* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).
[26] Peate, Iorwerth C. (1931), 'Adolygiad', *Y Tyst*, 12 Chwefror, 9.

bod Iorwerth Peate wedi gweld diffyg cydymdeimlad â dosbarth cymdeithasol penodol fel bai arall ar nofel Saunders bedair mlynedd yn gynharach: 'Bai pwysig yn y stori yw nad oes gan yr awdur (yn amlwg ddigon) unrhyw gydymdeimlad â'r bobl yr ysgrifenna amdanynt.'[27]

Yn ei hateb i lythyr Saunders, mae Kate yn amddiffyn natur ei hymdriniaeth â chymdeithas chwarelyddol Arfon: 'gwn am bobl Rhosgadfan'.[28] Mae dweud ei bod yn gwybod am yr hyn y mae'n ysgrifennu amdano yn arwyddocaol iawn yn nhermau estheteg realaidd. Mae'n amddiffyn seiliau ffeithiol ei realaeth gan ei dilysu felly. Mae'r amddiffyniad hwn yn creu cylch dehongliadol caeedig: cynrychioli realiti 'fel yr oedd' yw nod y nofel, mae'n gwneud hynny'n gywir, ac felly mae'r wedd honno ar y gwaith y tu hwnt i feirniadaeth. Ond yn fwy na hynny, gwelir bod Kate yn ailddiffinio ystyr yr ansoddair 'arwynebol'. Roedd amgylchiadau materol y bobl yr ysgrifenna amdanynt yn gyfrifol am y ffaith mai crafu byw ac nid archwilio'r ysbryd oedd eu prif gonsern:[29] 'Yr oedd gan y bobl ddigon i'w wneud i dynnu eu bywioliaeth o'r ddaear, ac ymladd yn erbyn Ffawd.'[30]

Yn ddadlennol iawn, gwêl Geraint Wyn Jones fod y cwestiwn mawr hwn yn hydreiddio *Traed mewn Cyffion*: 'pa un yw'r boen fwyaf – poen tlodi, ynteu poen colli enaid?'[31] Yn groes i feirniadaeth Saunders, awgryma'r sylw hwn fod agweddau 'ysbrydol' dyfnach ar fywydau cymeriadau'r nofel, ond bod y nofel yn archwilio 'enaid' yn ystyr hanfod unigolyn a'i allu i ystyried ac ymresymu, nid enaid o'r math Cristnogol, sef yr hyn yr oedd gan Saunders dan sylw. A Saunders yntau'n dyrchafu estheteg realaidd sy'n symud ar echel a gysyllta (i) undonedd a natur arwynebol bywyd a (ii) goblygiadau seicolegol ac ysbrydol y bywyd hwnnw, mae echel wahanol yn gyrru estheteg realaidd Kate, sef un sy'n cysylltu (i) amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd a (ii) methiant i ddilyn trywydd a fyddai'n eu galluogi i dorri'n rhydd o'r cyffion hynny. Yn wahanol i'r mewnolion sy'n ganolog i *Monica*, mae gormes allanolion dan sylw yn *Traed mewn Cyffion*; dyna yw perthnasedd poen ac undonedd iddi hi.

Gellid cyd-destunoli'r modd yr wyf yn diffinio'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath o estheteg realaidd trwy oedi ac ystyried hanfod realaeth. Er nad yw'r ddau lenor yn defnyddio'r term 'realaeth' yn eu gohebiaeth, mae'n ddiddorol nodi bod *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn ein tywys i feddwl bod y gair Cymraeg yn ymddangos yn ystod y cyfnod dan sylw yn fras: cysyllta'r enw 'realaeth' â'r flwyddyn 1927 a'r ansoddair 'realaidd' yntau â 1932.[32] Cyfeiria Iorwerth C. Peate at realaeth yn ei adolygiad, er nad yw'n defnyddio'r gair Cymraeg,

[27] Ibid., 9.
[28] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 110.
[29] Am drafodaeth ar y modd y mae un o weithiau eraill Kate Roberts yn archwilio caethiwed yr amgylchiadau materol hyn, gw. Hunter, Jerry (2011), 'From Death Token to O. Henry Ending: Traditional Narrative and the Early Fiction of Kate Roberts', yn Eska, Joseph F., *Narrative in Celtic Tradition: Essays in Honor of Edgar M. Slotkin* (Hamilton: Colgate University Press), tt. 129–46.
[30] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 110.
[31] Jones, Geraint Wyn (2010), *Fel Drôr i Fwrdd: Astudiaeth o Waith Kate Roberts hyd 1962* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn), t. 133.
[32] *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1987–98), cyfrol III, t. 2977.

gan ddefnyddio 'traethawd ar *Realism* ... [gan] un o feirniad llenyddol diweddar Lloegr' i gefnogi'r modd y mae'n beirniadu nofel Saunders Lewis.[33]

Gellid camu y tu allan i'r iaith Gymraeg ac ystyried cyd-destun beirniadol ehangach. Mae astudiaeth fawr Erich Auerbach, *Mimesis*, yn greiddiol i'r maes hwn. Craffa ar ddatblygiad y ffyrdd y mae llenyddiaeth orllewinol yn cynrychioli realiti, gan gychwyn gyda chysyniadau clasurol yn ymwneud ag 'urddas' neu 'wedduster' (*decorum*). Roedd gweithiau megis *Ars Poetica* Horace yn dal y dylid trin materion difrifol gydag arddull nad yw'n realistig; hynny yw, dylai bardd neu awdur ddangos dyledus barch pan fo'n trafod themâu pwysfawr trwy arddel technegau sy'n bell oddi wrth fanylion budron bywyd go iawn. Mewn oesoedd diweddarach, daeth awduron i gefnu ar yr egwyddorion esthetaidd hyn wrth iddynt ddyfeisio dulliau eraill o ysgrifennu am bynciau difrifol. Gwelwyd trawsffurfiad erbyn y cyfnod modern, yn ôl Auerbach, pan ddaeth 'difrifoldeb' a 'realaeth' yn gwbl gydnaws.[34]

Dadansodda Raymond Williams realaeth mewn modd sy'n esgor ar ddiffiniad cymharol hyblyg. Casgla fod amrywiaeth fawr o ddulliau a thechnegau y gall nofelydd eu defnyddio er mwyn darbwyllo darllenwyr fod ei nofel yn darlunio realiti profiad.[35] Ond dywed fod un elfen yn hanfodol:

> The realist novel needs ... a genuine community; a community of persons linked not merely by one kind of relationship – work or friendship or family – but by many, interlocking kinds.[36]

Byddai derbyn y gosodiad hwn fel fframwaith beirniadol a derbyn geiriau Iorwerth Peate a Kate Roberts a ddyfynnwyd uchod yn esgor ar farn bod *Traed mewn Cyffion* yn llwyddo i gyfleu profiad cymunedol realaidd a bod *Monica* o bosibl yn methu â chyfleu'r realiti hwnnw.

Ar y llaw arall, mae Raymond Williams yn gwahaniaethu rhwng dau fath o nofel realaidd, 'the personal novel' a'r 'social novel', ac awgrymaf fod y gwahaniaeth hwn rhwng y nofel realaidd bersonol a'r nofel realaidd gymdeithasol yn cynnig ffordd hylaw o dderbyn y ddwy nofel Gymraeg ar eu telerau esthetaidd eu hunain.[37] Dyna swyddogaeth y ddwy echel a ddisgrifwyd uchod, gyda'r naill yn cysylltu undonedd bywyd â goblygiadau seicolegol ac ysbrydol, a'r llall yn cysylltu poen ac undonedd bywyd â dioddefaint unigolion sy'n gaeth i'r bywyd hwnnw.

---

[33] Peate, 'Adolygiad', 9.

[34] Auerbach, Erich (1946), *Mimesis: Dargestellte Wirklichkeit in der abendländischen Literatur* (Bern: A. Francke AG); cyf. Saesneg cyntaf (1953), *Mimesis: The Representation of Reality in Western Literature* (Princeton: Princeton University Press).

[35] Williams, Raymond (1961), 'Realism and the Contemporary Novel', *The Long Revolution* (Llundain: Parthian), tt. 274–89.

[36] Ibid., t. 286.

[37] Ibid., tt. 280–1.

## *Traed mewn Cyffion* ac *Islanders*

Ar wahân i'r dadleuon a nodwyd yn barod, prif strategaeth Kate er mwyn amddiffyn ei nofel yn wyneb beirniadaeth Saunders oedd cyfeirio at nofelau eraill. Nododd fod gweithiau tebyg wedi'u cyhoeddi 'yn Lloegr ac Iwerddon', a manylodd ar un ohonynt a oedd yn ei thyb hi yn berthnasol iawn i'r drafodaeth:

> A ddarllenasoch chwi *Islanders* gan Peadar O'Donnell. Ni ddigwydd *dim* yn honno, ac nid oes gennych ond arlliw gwan o syniad am y bobl. Nid oes ynddi ddim ond cefndir, ac eto mae'n ddiddorol.[38]

Nid atebodd Saunders ei chwestiwn, hyd y gwyddys, ac mae'i dawelwch yn ddiddorol o ystyried bod Peadar O'Donnell yn ffigwr gwleidyddol ac yn llenor y gellid meddwl y byddai Saunders wedi cymryd diddordeb ynddo.[39] Roedd O'Donnell yn gallu siarad Gwyddeleg, ac yn ôl Philip O'Leary, credai cefnogwyr llenyddiaeth Wyddeleg ei fod yn awdur 'who should be urged to write in Irish'.[40] Cyfaddefodd O'Donnell mewn ysgrif a gyhoeddodd yn 1932 ei fod yn teimlo cymhelliad i ysgrifennu yn y Wyddeleg: 'I feel even in myself the need for the Gaelic medium to voice aspects of the life of the Ireland of today.'[41]

Nid dyna'r tro cyntaf i Kate Roberts gyfeirio at Peadar O'Donnell wrth amddiffyn ei ffuglen ei hun. Yn y llith honno am dafodiaith mewn straeon byrion a gyhoeddodd yn *Y Llenor*, mae hi'n ei enwi ymhlith nifer o awduron Saesneg:

> Ni welais i'r un Cymro'n condemnio Hardy, Sheila Kaye-Smith, Louis Golding, Theodore Dreiser, Liam O'Flaherty, Jane Barlow, Peadar O'Donnell, am ddefnyddio tafodiaith. Ond, dyma'r gwir, nid yw'r Cymro'n condemnio mewn nofelau Saesneg y pethau a gondemnia mewn nofelau Cymraeg.[42]

Felly, er bod Peadar O'Donnell ei hun wedi mynegi awydd i ddefnyddio'r iaith Wyddeleg ac wedi lled-awgrymu ei fod yn teimlo'n euog am fethu â gwneud hynny, roedd ei ymdrechion wedi'i wneud yn awdur Saesneg tafodieithol y gallai Kate Roberts alw arno yn y cyd-destun hwn. Fel y trafodwyd uchod, awgryma ysgrifau cynnar Kate ei bod yn gweld y wedd dafodieithol ar ei ffuglen fel un o glustnodau'i realaeth.

Ymddangosodd *Islanders*, ail nofel O'Donnell, bum mlynedd ar ôl iddo gyhoeddi'r geiriau

[38] Ifans (gol.), *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t. 112.

[39] Gw. e.e. Lewis, Saunders (1986), 'Iwerddon a'i Hiaith', yn Dafydd, Marged (gol.), *Ati, Wyr Ifainc* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 68–72. Am gyflwyniad i waith gwleidyddiol a diwylliannol O'Donnell, gw. Ó Drisceoil, Donal (2001), *Peadar O'Donnell* (Cork: Cork University Press).

[40] O'Leary, Philip (2004), *Gaelic Prose in the Irish Free State, 1922–1939* (University Park, PA: Pennsylvania State University Press), t. 445.

[41] Peadar O'Donnell yn *An Phoblacht*, 23 Gorffennaf 1932. Wedi'i ddyfynnu gan O'Leary, *Gaelic Prose in the Irish Free State*.

[42] Roberts, Kate (1931), 'Tafodiaith Mewn Storïau', *Y Llenor*, 55.

a ddyfynnir uchod. Saesneg yw iaith y nofel, ond mae'r arddull yn awgrymu tynfa'r 'Gaelic medium'. Mae deialog *Islanders* mewn tafodiaith gref sy'n cynnwys geiriau ac ymadroddion Gwyddeleg heb eu cyfieithu. Er enghraifft, ceir cyfarchiadau megis *a mhic*, 'fy mab', ar ganol brawddeg Saenesg ('True a mhic, but under God what can I do?').[43] Mae profiad y darllenydd bron fel pe bai'n ymweld â chymuned Wyddeleg ac yn synhwyro bod y trigolion yn siarad eu hail iaith er ei fwyn ef.

Pysgotwyr sy'n byw ar un o ynysoedd bychain Donegal yw'r trigolion hyn, a theimlir bod agendor economaidd a chymdeithasol rhwng y tir mawr a'r ynys fechan hon. Mae'r naratif yn troi o gwmpas teulu Mary Doogan, gweddw dlawd sy'n fam i ddeg o blant. Daw mab hynaf Mary, Charlie, fwy-fwy i ganol y naratif yn ystod y nofel, wrth iddo geisio ysgwyddo baich y fam a gofalu am eu teulu mawr. Mae beirniaid wedi canmol *Islanders* am ymdrin â thlodi mewn modd sy'n gignoeth o realistig. Ond awgryma Robert Lynd fod y nofel yn fwy na ffotograff syml o galedi bywyd: fe'i disgrifia fel 'a piece of heroic literature' sy'n rhoi profiad o fath arbennig i'r darllenydd:

> as we read it we positively rejoice in the heroism of human beings who can force a living from the rocks and live in charity with one another among the uncharitable stones.[44]

Mae'r darllenydd yn talu'n ddrud am dystio i'r fath arwriaeth, gan fod dioddefaint yn mynd law-law â chaledi bywyd yr ynyswyr tlawd hyn.

Ar lawer ystyr, mae *Traed mewn Cyffion* yn rhyfeddol o debyg i *Islanders*. Mae tirwedd garegog Arfon yn ddrych i 'unchartiable stones' ynysoedd Donegal. Mae'r ddwy gymuned yn gaeth i allanolion economaidd: fel y mae chwarelwyr Arfon ar drugaredd masnach lechi ryngwladol, felly hefyd y mae pysgotwyr Donegal ar drugaredd gwamalrwydd y farchnad bysgod.

Mae llawer am Jane Gruffydd sy'n adlewyrchu Mary Doogan, y fam ddewr sy'n brwydro i gael dau ben llinyn ynghyd yn wyneb tlodi didostur. Pwysleisia'r ddau nofelydd swyddogaeth ganolog y fam gyda thechnegau tebyg hefyd. Un o'r technegau hyn yw osgoi'r enw personol (Jane Gruffydd/Mary Doogan) ar drobwyntiau dramatig a defnyddio'r enw cyffredin a'r fannod ('y fam'/'the mother'). Er enghraifft, ar ddiwedd un o benodau'r nofel Gymraeg ceir y brawddegau hyn:

> Wrth roi ei phen ar y gobennydd, a cheisio cau ei llygaid ar boen, daeth ugeiniau o feddyliau trist i feddwl y fam. Ond yn eu plith fe wibiodd un meddwl arall, na buasai'n rhaid iddi ofni clywed sŵn y postmon drannoeth.[45]

---

[43] O'Donnell, Peadar (1988), *Islanders* [1927], adargraffiad (Dulyn: Dufour Editions), t. 17.
[44] Lynd, Robert (1988), 'Introduction', yn O'Donnell, Peadar, *Islanders* [1927], adargraffiad (Dulyn: Dufour Editions), t. 6.
[45] Roberts, Kate (1936), *Traed mewn Cyffion* (Dinbych: Gwasg Aberystwyth), t. 177.

Yn yr un modd, daw un o benodau'r nofel Wyddelig i ben gyda'r frawddeg hon: 'He went up to the room to bed, but the mother was still sitting and he heard the jingle of her rosary beads.'[46]

Ceir tebygrwydd yn y modd y mae caledi economaidd yn bygwth dryllio'r teuluoedd yn y ddwy nofel hefyd. Un o arwyddion cyntaf y dryllio hwn yw awydd y meibion i adael a chwilio am waith. Yn *Traed mewn Cyffion*, gwelwn Wiliam yn symud i weithio mewn pwll glo yn y de, gan greu pellter daearyddol, sef agwedd newydd ar fywyd Jane Gruffydd y mae arwyddocâd cynyddol y postmon yn ei phwysleisio. Yn ogystal, mae'r pellter daearyddol hwn yn rhagweld y pellter mwy terfynol a ddaw maes o law gyda marwolaeth Twm yn y Rhyfel Mawr. Mudo i'r Alban ac i America sydd yn bygwth chwalu'r teulu yn *Islanders*, ac mae'r bwgan hwn yn codi'i ben yn gynnar yn y nofel mewn sgwrs rhwng Charlie Doogan a'i fam:

> 'There's not much hope of getting either tay or flour,' she reflected. 'There's not a penny credit. We have the roof nearly ate from over our heads as it is. The only thing they'll give me now 'ud be the few shillin's to take Sally and Nellie to the hirin' fair. An' God knows I don't like to see me wee girls go away.' 'I'll go to Scotland myself,' Charlie said, rooting through the potatoes for one that he could eat. 'Charlie a mhic, what'd we do then? Who'd be here to do anythin?' the mother pleaded ... 'Somebody'll have to do somethin', he said, going out. The mother sat very still, looking into the fire.[47]

Er bod mudo am waith yn fygythiad parhaol, marwolaeth, wrth gwrs, yw'r rhwyg eithaf; agor 'y bwlch cyntaf yn y teulu', fel y dywed Kate Roberts yn *Traed mewn Cyffion*.[48]

Yn y ddwy nofel mae plentyn yn marw oddi cartref, ac maent yn disgrifio'r modd y mae'r newyddion yn cyrraedd mewn modd tebyg iawn, sef trwy gyfrwng di-deimlad llythyr neu delegram. Mae'n debyg mai cyrhaeddiad llythyr Saesneg na all Jane Gruffydd ei ddarllen yw golygfa enwocaf *Traed mewn Cyffion*. Ar glywed caniad pib y postmon, mae Jane yn rhedeg at 'lidiart y llwybr':

> Ond nid llythyr oddi wrth Twm ydoedd, nac oddi wrth yr un o'r plant eraill, ond llythyr hir a marc y llywodraeth arno.
>
> 'Drap,' meddai hi wrthi ei hun, 'dyma ryw hen gwestiynau eisiau eu hateb eto. Maen nhw fel tasa gin rywun ffarm o fil o aceri.'
>
> Ond wedi ei agor, canfu nad un o'r cyfryw bapurau ydoedd. Rhyw bapurau Saesneg oedd y rhai hyn. Gwelodd enw Twm a'i rif yn y fyddin, ac yr oedd papur gwyn arall tew a dim ond tamaid bach ar hwnnw yn Saesneg.

[46] O'Donnel, *Islanders*, t. 33.
[47] Ibid., tt. 16–17.
[48] Roberts, *Traed mewn Cyffion*, t. 177.

> Rhedodd â'r llythyr i'r siop.
> 'Rhyw hen lythyr Saesneg wedi dwad acw, Rhisiart Huws. Fasach chi ddim yn dweud byth ydi o? Rhywbeth ynghylch Twm ydi o, beth bynnag.'
> Darllenodd y siopwr ef, a daliodd ef yn ei law sbel.
> 'Steddwch i lawr, Jane Gruffydd,' meddai'n dyner.
> 'Be sy?' meddai hithau. 'Does dim wedi digwydd?'
> 'Oes, mae arna i ofn,' meddai yntau.[49]

Yn *Islanders*, gwelwn fod merched ifanc Mary Doogan, Nellie a Sally, yn mynd i'r ffair gyflogi yn y diwedd er mwyn cael gwaith ar ffermydd ar y tir mawr. Daw newyddion erchyll dros y dŵr un diwrnod, wrth i gymeriad arall, Ned, gludo telegram i'r teulu:

> 'It's a wire that came in when I was in the Port. It's for the Doogans, an' I said I'd bring it,' Ned explained.
> 'About wan of the girls?' Neil asked.
> 'Aye, about the Nellie wan. She's dead.'
> 'Dead?' Neil questioned. 'God rest her soul,' he added. He put his hand to his hat, but he didn't take it off for fear the news would spread before the Doogans were told.[50]

Yn debyg i garedigrwydd y siopwr Rhisiart Huws a'i wraig, mae cydymdeimlad y gymuned yn iawndal annigonol am y ffaith greulon bod galar y teulu'n cael ei amlygu mewn modd mor gyhoeddus. Os yw Jane Gruffydd yn gorfod clywed y newyddion yn siop y pentref, yn *Islanders* cawn ddisgrifiad poenus o fanwl o daith y newyddion yr holl ffordd o'r cwch i stepan drws y bwthyn, a'r cymdogion yn gwylio pob cam o'r daith ac yn chwilio am arwydd ynglŷn â natur y neges.

A bodloni ar un enghraifft arall, mae ymson un o feibion 'y fam' yn ganolog i strwythur naratifol y ddwy nofel. Mae pennod olaf *Traed mewn Cyffion* yn canoli ar ymson Owen. Gwelwn ef yn ymgodymu ag ansicrwydd y dyfodol yn wyneb y trychinebau sydd wedi taro'i deulu'n ddiweddar, ac er mwyn cael llonydd i hel ei feddyliau, mae'n gadael y tŷ a mynd am dro:

> Yr oedd yn noson olau leuad, ac yr oedd y ffordd yn llwydwen o dan ei draed ... Eisteddodd ar garreg fawr. Gorweddai'r pentref odano fel gwlad y Tylwyth Teg dan hud y lleuad. Yma ac acw fel smotiau duon yr oedd tai'r ffermydd bychain a chlwstwr o goed o'u cwmpas yn cysgodi'r gadlesi a'r tai ... Troes ei olygon at domen y chwarel. Heno nid oedd ond clwt du ar ochr y mynydd ... Daeth ei feddyliau'n ôl at ei deulu ei hun ... Cofiai

[49] Ibid., tt. 175–6.
[50] O'Donnell, *Islanders*, t. 46.

> glywed Ann Ifans yn dweud rywdro, dillad mor grand oedd gan ei fam pan ddaeth i'r ardal gyntaf. Ni châi ddillad newydd byth yn awr.[51]

Yn ogystal ag ystyried ffawd ei deulu, mae syllu ar y pentref a thomen y chwarel yn sbardun i ehangu'i fyfyrdod ac felly dechreua Owen ystyried amgylchiadau'i gymuned. Cwyd awydd i weithredu: 'Ac fe agorwyd ei lygaid i bosibilrwydd *gwneud* rhywbeth, yn lle dioddef fel mudion.'[52] Ond nid yw'n gwneud dim ac mae'r nofel yn gorffen gydag Owen yn dychwelyd i'r tŷ:

> Pan gyrhaeddodd y tŷ, yr oedd y gath yn eistedd ar garreg y drws ... Troes yntau'r fflam i fyny, a rhoi pwniad i'r tân. Daliai'r gath i hel yn ei goesau a chanu'r grwndi. Eisteddodd yntau yn y gadair freichiau, ac estyn ei bibell i gymryd smôc, y gyntaf y diwrnod hwnnw.[53]

Gyda'r brawddegau olaf hyn, awgryma Kate Roberts yn gynnil fod Owen yn ymsuddo i gysur y cartref yn hytrach na gweithredu'n wleidyddol. Mae rhawd hanes yn parhau'n ddigyfnewid ac mae traed Owen, ei deulu a'u cymdogion yn parhau mewn cyffion.

Yn hytrach na chloi'r nofel, mae ymson Charlie Doogan yn drobwynt strwythurol ar ganol *Islanders*. Ond mae sbardun yr ymson yn debyg gan ei bod yn dod ar sodlau anffawd sydd wedi taro'r teulu. Ac yn debyg i Owen, mae Charlie yn mynd am dro fin nos, gan eistedd i lawr ac ystyried y pentref wrth iddo fyfyrio:

> He was in a field and he sat down on o brugh. He listened like a man startled. But the night was full of the usual island sounds only. In Fartown a woman was calling ducks. A boy was whistling in Point. Oars rattled in rowlocks at the Spink. Keadue Bar war roaring. From within himself came an explanation of his fear.[54]

Yn achos y ddwy ymson, mae symudiad corfforol y cymeriad o'r cartref i'r awyr agored yn ddrych o chwith i'r modd y mae'i feddyliau'n dychwelyd at amgylchiadau'r teulu. Ac mae'r ffaith bod y pentref yn gefnlen i'w myfyrdodau yn pwysleisio mai un teulu ymysg llawer o deuluoedd ydynt; os yw Owen yn gweld tai'i bentref ef, mae Charlie'n clywed panaroma o synau'i ynys yntau.

Mae'r ddau fab yn poeni am ddioddefaint eu mamau, ond mae'r ddwy nofel hefyd yn darlunio cymeriadau nad ydynt yn gallu mynegi'u cariad yn agored yn hawdd. Disgrifia Kate Roberts chwithdod perthynas Owen a'i fam: 'Yr oedd arno eisiau ei chariad yn gyfan

---

[51] Roberts, *Traed mewn Cyffion*, tt. 189–90.
[52] Ibid., t. 191.
[53] Ibid., t. 193.
[54] O'Donnell, *Islanders*, tt. 27–8.

gwbl, ond nis câi byth.'[55] Mae Peadar O'Donnell yn dehongli'r chwithdod rhwng Charlie Doogan a'i fam mewn modd a fyddai'n crisialu hanfod stori *Traed mewn Cyffion* yn berffaith o'u Cymreigio: 'How was she to know that it was his helplessness made him shy of discussing their poverty? He didn't know it himself.'[56] Mae Owen yn wahanol i Charlie gan ei fod yn fwy addysgedig ac yn fwy o ddeallusyn, ond mae'r ddwy nofel yn defnyddio chwithdod emosiynol teuluol tebyg er mwyn cynyddu gwewyr y darllenydd. Rydym yn tystio i'r modd y mae aelodau'r teulu yn cyd-ddioddef yng nghafael eu hamgylchiadau, ac rydym yn gresynu nad ydynt yn gallu rhannu'u teimladau'n well er mwyn dod â hynny o gysur i'w haelwyd.

Bydd y drafodaeth fer hon yn ddigon i awgrymu bod *Islanders* wedi dylanwadu'n drwm ar *Traed mewn Cyffion*. Ond nid dyna brif nod eu cymharu yn hyn o lith: trwy archwilio'r modd y mae'r ddwy nofel yn ymdrin â 'phoen ac undonedd', gwelir eu bod yn amlygu estheteg realaidd debyg. Dyma ddwy nofel realaidd gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar allanolion bywyd – yr agwedd 'arwynebol' y cwynodd Saunders amdani – er mwyn amlygu creulondeb y bywyd hwnnw. Mae'n ein helpu i ddeall yn well y modd y syniai Kate Roberts am ei hestheteg realaidd ei hun yn y 1930au. Wedi'r cwbl, mewn llythyr personol anghyhoeddedig y tynnodd Kate sylw Saunders at y nofel Wyddelig, nid mewn ysgrif feirniadol a gyhoeddwyd. Ni ddefnyddiodd eiriau megis 'estheteg' a 'realaeth' o gwbl, ond yn hytrach cyfiawnhau gwerth 'Sunter a Chlai' trwy dynnu sylw Saunders at y nofel Wyddelig. Llaw fer feirniadol yw cymhariaeth o'r fath. 'A ddarllenasoch chwi *Islanders*', oedd ei chwestiwn, ond mae'n amhosibl gwybod a oedd awdur y nofel realaidd bersonol honno, *Monica*, yn gallu darllen llaw fer feirniadol Kate gan nad atebodd ei chwestiwn hi.

[55] Roberts, *Traed mewn Cyffion*, t. 190.
[56] O'Donnell, *Islanders*, t. 27.

# Adolygiad o Ffynonellau Amgylcheddol Twbercwlosis Buchol (*Mycobacterium bovis*)

Cennydd Owen Jones, Arwyn Edwards a Hefin Wyn Williams

*Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth*

Cyflwynwyd: 17 Medi 2020; Derbyniwyd: 3 Ionawr 2021

**Crynodeb:** Mae twbercwlosis buchol (*bovine tuberculosis*; bTB) yn un o brif heriau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, a bu'n gyfrifol am ddifa 10,974 o wartheg rhwng Mehefin 2019 a Mai 2020 (DEFRA, 2020). Amcangyfrifir cost flynyddol i'r trethdalwr o £15 miliwn yng Nghymru yn unig i reoli'r clefyd sydd yn cynnwys costau milfeddygol, iawndal i'r ffermwyr, costau gweinyddol, ac ati. Yn ogystal â hyn, mae delio â'r clefyd yn cael effaith ar iechyd meddwl yr holl unigolion sydd ynghlwm ag ef. Mae'r cyswllt rhwng bywyd gwyllt a thwbercwlosis buchol yn amlwg yn bwnc llosg parhaol, ond beth am y rôl y mae'r amgylchedd yn ei chwarae o ran meithrin a lledaenu'r clefyd hwn? Mae rhai gwyddonwyr wedi ymchwilio i'r cwestiwn hwn gan lwyddo i brofi ar lefel labordy bod yr amodau sydd yn bresennol yn amgylchedd y fuwch yn rhai ffafriol i *M. bovis*. Serch hynny, prin yw'r ymchwil ar lefel fferm, yn enwedig mewn ardaloedd sydd yn dioddef achosion cronig o dwbercwlosis buchol. Diben yr adolygiad llenyddiaeth hwn yw amlygu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a'r wyddoniaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd parthed TB buchol amgylcheddol.

**Allweddeiriau:** TB, twbercwlosis, gwartheg, microbioleg, amgylchedd, clefyd, amaethyddiaeth, moch daear.

## A review of environmental reservoirs of bovine tuberculosis (*Mycobacterium bovis*)

**Abstract:** Bovine TB (bTB) is one of the main animal health and welfare challenges in Wales and was responsible for the slaughter of 10,974 cattle in Wales between June 2019 and May 2020 (DEFRA, 2020). It is estimated that the disease costs the taxpayer £15 million annually in Wales alone, which includes veterinary costs, compensation to farmers, administrative costs, etc. Furthermore, dealing with the disease has an effect on the mental health of those involved. The link between wildlife and bTB is an obvious one that fuels much debate, but what about the role that the environment plays in nurturing and spreading this disease? There are scientists who have already explored this question by successfully demonstrating at laboratory level that the conditions present in the cow's environment are favourable for *M. bovis*. Despite this, research at farm level remains scarce, especially in areas that suffer from chronic cases of bTB. The purpose of this literature review is to summarise the current situation in Wales, and the state of our knowledge regarding environmental bTB.

**Key wo**rds: TB, bovine TB, cattle, microbiology, environment, disease, agriculture, badgers.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

# Twbercwlosis buchol

## 1.1 *Cefndir*

Mae twbercwlosis mewn cyd-destun milfeddygol yn glefyd sydd yn effeithio ar wartheg yn bennaf ac fe'i hachosir gan y bacteria *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*) (Sanchez-Hidalgo et al., 2017). Yn y Deyrnas Unedig (DU), mae twbercwlosis buchol yn glefyd hysbysadwy (*notifiable disease)* (Gov.uk 2018). Yn 1934, amcangyfrifwyd bod dros 40% o wartheg Prydain Fawr wedi'u heintio gan *M. bovis*, gydag o leiaf 5% o'r gwartheg hyn yn cynhyrchu llaeth a oedd yn cynnwys y bacteria (Reynolds 2006). Amcangyfrifir y bu twbercwlosis yn gyfrifol am 6% o holl farwolaethau pobl ym Mhrydain Fawr yn ystod y 1930au (Krebs et al., 1997), er mae'n rhaid pwysleisio bod hyn yn cynnwys heintiau a achoswyd gan *Mycobacterium tuberculosis* yn ogystal â rhywogaethau eraill o'r cymhlygyn sy'n achosi TB (*M. tuberculosis complex* – MTBC). Gall twbercwlosis buchol gael ei achosi gan unrhyw facteria o'r MTBC, sef *M. tuberculosis*, *M. bovis*, *M. africanum*, *M. canettii*, *M. microti*, *M. orygis*, *M. caprae*, *M. pinnipedii*, *M. suricattae* a *M. mungi* (Sinha et al., 2016). Yn sgil pryderon am iechyd cyhoeddus, cyflwynwyd rhaglenni gwirfoddol ar gyfer profi am dwbercwlosis mewn gwartheg yn 1935, cyn i'r profi ddod yn angenrheidiol yn 1950 (Krebs et al., 1997). Daeth pasteureiddio (gwresogi i ladd bacteria) llaeth yn weithred reolaidd yn y 1930au hwyr, gan lwyddo i leihau'r trosglwyddiad o *M. bovis* o laeth anifeiliaid wedi eu heintio i'r boblogaeth (Krebs et al., 1997). O ganlyniad i'r datblygiad hwn, mae'r ffocws wedi symud i ddelio â *M. bovis* fel clefyd milfeddygol yng Nghymru a'r DU yn hytrach na chlefyd dynol. Bu profi a difa gwartheg wedi'u heintio yn llwyddiannus yn ystod y 1960au a'r 1970au, gan lwyddo i gael mynychder buchesi wedi'u heintio ledled Prydain Fawr i lawr i 0.49% (Krebs et al., 1997). Bu difa eang o foch daear ledled Prydain Fawr ers y gwnaed y canfyddiad eu bod yn gallu cario'r clefyd: parhaodd yr arfer hwn mewn amryw o wahanol ffyrdd nes cyflwyno'r Ddeddf Gwarchod Moch Daear yn 1992 (Godfray et al., 2018). Er bod mynychder twbercwlosis buchol ar ffermydd Prydain Fawr yn isel yn y 1970au a'r 1980au, gwelwyd twf yn nigwyddedd y clefyd yn ystod y 1990au, ac yn benodol yn dilyn gohirio profi am TB yn ystod clwy'r traed a'r genau yn 2001 (Johnston et al., 2011). Ers y twf ar droad y mileniwm, mae TB wedi lledaenu i nifer o ardaloedd ledled y DU (ac eithrio'r Alban). Ceir nifer o resymau am ymlediad y clefyd sy'n cynnwys buchesi mwy o faint, dwysedd stocio uwch a mwy o symud anifeiliaid o gwmpas ardal fwy eang, i enwi ychydig. Disgrifiwyd twbercwlosis buchol fel 'yr her fwyaf sydd yn wynebu iechyd a lles anifeiliaid mewn cenhedlaeth', gan brif swyddog milfeddygol Cymru, yr Athro Christanne Glossop (BBC 2016).

Roedd mynychder TB ar ddaliadau yng Nghymru ar ddiwedd 2019 yn 5.5% (amrywiaeth o ardal TB isel – 0.5% i ardal TB uchel yn y gorllewin – 11.5%), sydd yn dwf o 0.3% o'r flwyddyn gynt, gyda'r mynychder yn Lloegr wedi gostwng 0.4% i 5.3%, gydag amrywiaeth mewn ardaloedd risg o rhwng 0.3% a 10.1% (Dangosfwrdd Ystadegau TB 2020). Diwygiwyd polisi rheoli TB yng Nghymru yn 2017 gyda'r nod o ennill statws swyddogol fel gwlad sy'n rhydd o dwbercwlosis erbyn 2038 (Llywodraeth Cymru 2017).

## 1.2 *Mycobacteria*

Mae twbercwlosis mewn gwartheg yn perthyn i'r genws Mycobacterium o facteria, sydd yn cynnwys dros 150 o wahanol rywogaethau (King et al., 2017). Un o rinweddau'r genws hwn o facteria yw bod ganddo gellfur trwchus, sydd yn achosi i nifer o fycobacteria wrthsefyll cyfryngau therapiwtig (Brennan a Nikaido 1995), ac yn eu galluogi i oroesi mewn amgylchoedd anffafriol megis corsydd arfordirol, morydau, tyllau dŵr a phriddoedd sydd yn uchel mewn deunydd organig (Falkinham 2009).

Nid yw pob math o fycobacteriwm yn bathogenaidd, gyda nifer o'r genws yn byw yn y pridd ac yn chwarae rôl bwysig yn torri lawr deunydd organig marw a'i newid yn hwmws (Brennan a Nikaido 1995). Mae *Mycobacterium smegmatis* yn enghraifft o fycobacteriwm nad yw mor bathogenaidd o gymharu ag *M. bovis*. Serch hynny, mae nifer o'r genws, gan gynnwys *M. bovis*, yn bathogenaidd, ac yn bathogenau y dylid eu trafod mewn labordai bioddiogelwch lefel 2 neu 3 (Prifysgol Stanford 2018; Lab Manager 2019).

## 1.3 *Clefyd milheintiol*

Mae twbercwlosis yn cael ei adnabod fel clefyd sydd yn lladd nifer fawr o bobl yn fyd-eang yn flynyddol, gyda 1.4 miliwn o bobl yn marw o'r clefyd bob blwyddyn, ac 8.7 miliwn achos newydd ohono yn y boblogaeth (Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) 2012). Rhaid nodi mai *M. tuberculosis* sy'n gyfrifol am y mwyafrif o'r achosion hyn, sydd gan amlaf yn lledaenu o berson i berson, yn enwedig mewn gwledydd llai economaidd-ddatblygedig (WHO 2019). Mae *M. bovis* ar y llaw arall yn glefyd milheintiol sydd hefyd yn achosi twbercwlosis, ac amcangyfrifa Sefydliad Iechyd y Byd (WHO 2019) fod 147,000 achos o *M. bovis* ledled y byd mewn pobl, a'i fod wedi achosi 12,500 o farwolaethau yn 2016. Rhaid pwysleisio mai brasamcan yw'r ffigurau hyn gan fod nifer o'r profion a ddefnyddir i brofi am dwbercwlosis mewn pobl mewn gwledydd llai economaidd-ddatblygedig yn brofion nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng *M. bovis* ac *M. tuberculosis*, ac felly mae'n debygol bod nifer yr achosion o heintio gan *M. bovis* yn dipyn uwch (Pérez-Lago, Navarro a García-de-Viedma 2014).

Yn ogystal ag achosi clefyd TB, mae *M. bovis* yn gallu chwarae rôl fel cychwynnydd nifer o glefydau eraill megis Crohn's, diabetes math 1, soriasis, sglerosis gwasgaredig, asthma, arthrosis, awtistiaeth, syndrom Blau a sarcoidosis (Hruska a Kaevska 2012). *M. tuberculosis* sydd yn gyfrifol am y mwyafrif o achosion o dwbercwlosis yn y boblogaeth yn y DU, gan gynnwys achosion diweddar, a effeithiodd ar o leiaf 76 o bobl yn Llwynhendy, Sir Gâr (BBC Cymru Fyw 2019). Er y cyfeirir at achosion o *M. bovis* ac *M. tuberculosis* ill dau fel 'twbercwlosis' (de la Rua-Domenech 2006), *M. bovis* y sonnir amdano yn yr erthygl hon, oni nodir yn wahanol.

Rhwng 2005 a 2008, cafwyd 129 achos o *M. bovis* ym mhoblogaeth y DU (Mandal et al., 2011). Yn 2017, cafwyd 40 achos o *M. bovis* ym mhoblogaeth y DU (35 yn Lloegr, 2 yng Nghymru, 1 yng Ngogledd Iwerddon a 2 yn yr Alban) (Public Health England 2018). Yn dilyn protocolau pasteureiddio, archwiliadau mewn lladd-dai a phrofi gwartheg yn fwy cyson, mae'r risg o drosglwyddo *M. bovis* o anifeiliaid i'r boblogaeth mewn gwledydd mwy economaidd-ddatblygedig wedi gostwng yn sylweddol (de la Rua-Domenech 2006).

Mae arwyddion o'r haint mewn pobl yn cynnwys twymyn, chwysu, peswch cyson, dolur rhydd, colli pwysau a phoenau abdomenol (Gov.uk 2018). Rhan o'r rheswm pam nad yw gwartheg gyda thwbercwlosis yn cael eu trin gyda gwrthfiotigau yw er mwyn gallu defnyddio gwrthfiotigau i drin pobl wedi'u heintio. Gan amlaf, mae'r driniaeth yn cynnwys cymysgedd o wrthfiotigau cryf am 6 mis (Public Health England 2014). Unwaith y bydd person wedi ei heintio, gall *M. bovis* ledaenu i bobl eraill trwy aerosol gan amlaf, gydag unigolion imiwnoataliedig (*immunosuppressed*) yn wynebu'r perygl mwyaf o gael eu heintio (Bilal et al., 2010).

Mae canllawiau iechyd a diogelwch yn nodi bod ffermwyr, milfeddygon a gweithwyr lladd-dai â risg uwch o ddal *M. bovis* oherwydd y tebygolrwydd o ddod i gysylltiad ag aerosol a hylifau corfforol o wartheg heintiedig. Bu enghraifft yn yr 1980au yn Awstralia, lle cafwyd pum achos gwahanol o *M. bovis* mewn dwy flynedd mewn gweithwyr lladd-dai (Robinson et al., 1988). Yn dilyn achosion tebyg, mae'r prosesau o ddelio gydag anifeiliaid wedi eu heintio wedi gwella iechyd a diogelwch gweithwyr a'r gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd.

Mae Mandal et al. (2011) yn dangos bod risg uwch i'r rhan helaeth o'r boblogaeth a gafodd eu geni cyn i basteureiddio cynnyrch llaeth ddod yn gyffredin ddal y clefyd; nid trwy ei ddal o'r newydd, ond trwy actifadu'r TB sydd yn eu system eisoes. Mae data Public Health England (2018) yn cefnogi hyn, gyda 93% o achosion *M. bovis* yn cael eu canfod mewn pobl dros 65 oed, sy'n awgrymu bod y bacteria yn eu cyrff ers iddynt yfed/bwyta cynnyrch llaeth heb ei basteureiddio pan oeddent yn iau. Mae'r data hyn yn dangos bod *M. bovis* fel pathogen yn medru byw am gyfnod hir o fewn y corff mewn cyflwr cwsg, cyn cael ei actifadu yn nes ymlaen. Amcangyfrifir mai 5–10% o'r boblogaeth sydd ag *M. bovis* yn eu systemau fydd yn datblygu arwyddion clinigol o'r clefyd yn ystod eu hoes (Comstock 1982).


Er bod y tebygolrwydd o ddal *M. bovis* o fwyta cig wedi ei goginio mor isel fel ei fod bron â bod yn amhosibl (Public Health England 2014), mae lladd-dai yn archwilio carcasau gwartheg am ddifrodau twbercwlosis, cyn trosglwyddo sampl o'r meinwe i labordai am gadarnhad, sydd hefyd yn lleihau'r risg y bydd *M. bovis* yn heintio'r boblogaeth (prif bwrpas hyn yw darganfod ffermydd sydd ag anifeiliaid heintiedig) (APHA 2018). Nid yw *M. bovis* yn lluosogi yn gyflym ar gig chwaith, sydd yn gwneud y bacteria yn dra gwahanol i E. coli a Salmonella (Krebs et al., 1997). Mae Krebs et al. (1997) hefyd yn nodi bod coginio cig yn lladd *M. bovis*. Er hyn, dengys ymchwil pellach nad yw coginio cig eidion sydd â difrodau *M. bovis* yn cael gwared ar bathogenedd y bacteria, a'i fod yn llwyddo i heintio moch cwta (*Cavus porcellus*) (Jibril et al., 2015), sydd yn pwysleisio pwysigrwydd arolygu cig mewn lladd-dai.

Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd nod o dargedu achosion o *M. bovis* yn y boblogaeth, yn enwedig yn y rhanbarthau daearyddol yr effeithiwyd arnynt fwyaf, gyda'r amcanion yn cael eu rhannu'n dair rhan:

- Gwella dealltwriaeth wyddonol.
- Lleihau trosglwyddiad rhwng anifeiliaid a phobl.
- Cryfhau gwaith amlddisgyblaethol gan annog dulliau cydweithredol (WHO 2019).

Fel rhan o'u hamcanion ymchwil amlddisgyblaethol, mae WHO yn cydweithio â'r OIE (Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd) a'r FAO (Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig) er mwyn cael system 'Iechyd Cyfunol' (*One Health*) i daclo'r clefyd mewn pobl ac anifeiliaid.

## 1.4 *Twbercwlosis buchol yng Nghymru*




Ffigur 1: Nifer y gwartheg a gafodd eu difa yng Nghymru a nifer y daliadau a fu dan gyfyngiadau yn ystod cyfnod o flwyddyn. DEFRA, 2020.

Dengys Ffigur 1 y bu twf sylweddol yn nifer y gwartheg a gafodd eu difa yng Nghymru yn 2019, gyda chynnydd o 9.1% ar y flwyddyn gynt sy'n dod â'r cyfanswm i 12,256 – y nifer uchaf mewn blwyddyn galendr i Gymru ers i DEFRA ddechrau cofnodi'r data yn 1996. Mae Ffigur 1 hefyd yn dangos bod nifer y daliadau a fu dan gyfyngiadau yn ystod y flwyddyn galendr wedi aros yn gymharol gyson yn 2019 o gymharu â'r blynyddoedd cynt (1,350 yn 2019). Er gwaetha'r twf yn nifer y gwartheg a gafodd eu difa, mae nifer yr achosion newydd mewn buchesi a oedd yn glir wedi gostwng bron 4% (DEFRA, 2020), sydd yn awgrymu bod y clefyd yn parhau o fewn y buchesi sydd wedi'u heintio eisoes, ac yn sgil hynny'n heintio mwy o wartheg. Pan fydd buches yn mynd o dan gyfyngiadau twbercwlosis, defnyddir prawf mwy sensitif (a fydd yn cynyddu nifer y gwartheg positif) nes y bydd y fuches yn cyrraedd y gofynion priodol – mae hyn hefyd yn rhan o'r eglurhad am y patrymau a welwyd yn Ffigur 1 o ran y lleihad diweddar mewn achosion newydd mewn buchesi clir. Yn ychwanegol at hyn, mae mynychder twbercwlosis yng Nghymru wedi cynyddu i 5.5% (647 o fuchesi dan gyfyngiadau allan o 11,801) (Dangosfwrdd Ystadegau TB 2020). Mae'r ganran

uchaf o achosion TB yn parhau i fod yn yr ardal TB uchel yn y gorllewin, gyda 67.5% o'r holl wartheg a gafodd eu difa yng Nghymru yn 2019 yn dod o ddaliadau yn yr ardal hon (DEFRA 2020). Mae nifer y daliadau a oedd o dan gyfyngiadau TB yn yr ardal TB uchel wedi gostwng o 470 i 450 ar ddiwedd 2019 o gymharu â'r flwyddyn gynt (DEFRA 2020).

## 2 Cronfeydd *M. bovis*

O graffu ar leoliadau difrodau *M. bovis* ar garcasau gwartheg mewn lladd-dai, mae modd darogan sut yr heintiodd y clefyd yr anifail. Mae mwyafrif y difrodau'n cael eu darganfod yn y system resbiradol, sy'n awgrymu trosglwyddiad ar ffurf aerosol (Phillips et al., 2003). Pan fydd buwch heintiedig yn pesychu, mae'n ffurfio aerosol o *M. bovis*, gyda 94% o'r aerosol yn parhau i fod yn bathogenaidd am 10 munud yn yr aer, ac yn arddangos hanner oes (*half-life*) o 1.5 awr (Gannon et al., 2007). Mewn buchesi modern, mae gwartheg yn dod i gysylltiad â'i gilydd yn gyson, gan gynnig cyfleoedd i drosglwyddo *M. bovis* o un fuwch i'r llall wrth i fuwch iach anadlu aerosol buwch heintiedig (Courtenay et al., 2006; Palmer, Walters a Whipple 2002). Serch hynny, mae difrodau'n parhau i gael eu darganfod (gan amlaf dan amodau post-mortem) ym meinwe'r gadair, y system dreulio ac ardaloedd eraill nad ydynt gan amlaf yn cael eu harchwilio mewn lladd-dai (Whipple et al., 1996).

### 2.1 *Gwartheg*

Mewn buchesi sydd wedi'u heintio gyda thwbercwlosis, gall gwartheg heintiedig drosglwyddo *M. bovis* i wartheg eraill o fewn 28 diwrnod iddynt gael eu heintio (Cassidy et al., 1999). Y prif arf a ddefnyddir yn y DU i ddarganfod gwartheg sydd wedi'u heintio gan dwbercwlosis yw'r prawf croen, sydd wedi'i ddefnyddio ers dros ganrif. Chwistrellir dau ddeilliad proteinau puredig (PPD) o *M. bovis* ac *M. avium* i groen yr anifail gan filfeddyg. Mae ymateb imiwn yn achosi i'r croen chwyddo ac felly bydd y milfeddyg yn archwilio'r croen 72 awr yn ddiweddarach i feintioli'r chwydd a welir. Byddai dros 4mm yn fwy o chwydd ar y safle *M. bovis* o gymharu â'r safle *M. avium* yn dynodi anifail positif o dan amodau safonol, er gellir newid y dehongliad i fod yn un 'difrifol' mewn buchesi lle y mae hanes sylweddol o'r clefyd sydd yn newid y trothwy o 4mm i 2mm o chwydd (Srinivasan et al., 2019).

Dengys Tabl 1 nad yw'r prawf croen a ddefnyddir yn y DU yn un arbennig o dda ar gyfer adnabod unigolion wedi'u heintio, yn enwedig mewn buchesi gydag achosion uchel o dwbercwlosis oherwydd ei sensitifrwydd isel (gallu'r prawf i adnabod anifeiliaid heintiedig yn gywir) (Karolemeas et al., 2012). O ganlyniad, mae'n debygol iawn bod gwartheg heintiedig yn cael eu dynodi yn rhydd o'r clefyd ar gam, yn enwedig mewn buchesi sydd ag achosion uchel o dwbercwlosis. Oherwydd hyn, mae'n debygol fod y pathogen yn lledaenu ymhellach; boed yn uniongyrchol i wartheg neu anifeiliaid gwyllt, neu i'r amgylchedd. Er bod y sensitifrwydd yn is na'r sefyllfa ddelfrydol, mae penodolrwydd y prawf (y gallu i adnabod anifail nad yw'r clefyd arno yn gywir) yn dipyn gwell o dan amodau safonol (Goodchild et al., 2015). Pan fydd buches yn mynd dan gyfyngiadau, mae'r prawf yn newid o ddehongliad *safonol* i un *difrifol*, sydd yn cynyddu'r sensitifrwydd, ond mae'r penodolrwydd yn gostwng (Tabl 1). Mae'n ymddangos bod y PPD a ddefnyddir fel rhan

| Math o brawf | Sensitifrwydd | Penodolrwydd |
|---|---|---|
| **Prawf croen (dehongliad safonol)** | 80% (70 – 89%) (Karolemeas *et al.,* 2012) | 99.98 (99.979 – 99.987%) (Goodchild *et al.*, 2015) |
| **Prawf croen (dehongliad difrifol)** | 85% (78 – 91%) (Karolemeas *et al.,* 2012) | 99.91% (99.897 – 99.923%) (Goodchild *et al.*, 2015) |
| **IFNγ** | 90% (87.2 – 92.8%) (Godfray *et al.*, 2018) | 96.6% (85 – 99.6%) (Godfray *et al.*, 2018) |
| **IDEXX ELISA** | 64.6% (59.7 – 69.5%) (Godfray *et al.*, 2018) | 98% (97.5 – 98.4%) (Godfray *et al.*, 2018) |


Tabl 1: Cymhariaeth sensitifrwydd a phenodolrwydd profion sydd wedi eu dilysu gan yr OIE ar gyfer twbercwlosis mewn gwartheg. Nodir y cyfwng hyder mewn cromfachau.

o'r brechiad adeg profi gyda'r prawf croen hefyd yn lleihau effeithlonrwydd profion am glefydau eraill megis profion ELISA am glefyd Johne o fewn 10 wythnos i'r prawf croen am dwbercwlosis (Kennedy et al., 2014).

Mewn rhai achosion, mae modd defnyddio prawf gwaed Interfferon-gama (IFNγ) i gyd-fynd â'r prawf croen, yn benodol er mwyn adnabod anifeiliaid mewn cyfnod cynnar o'r haint (Gormley et al., 2006). Gellir dadlau bod y sensitifrwydd uwch sydd ar gael o'r IFNγ yn ei wneud yn brawf gwell ar gyfer canfod twbercwlosis, ond oherwydd y penodolrwydd is, byddai llawer mwy o wartheg sy'n negatif am dwbercwlosis yn ymddangos yn bositif yn yr IFNγ (oddeutu 3–4 o bob 100 a brofir), a fyddai'n broblem mewn buchesi gydag achosion isel o'r clefyd. O achos ei sensitifrwydd a'i benodolrwydd is o gymharu â'r profion eraill, defnyddir IDEXX ELISA fel prawf ategol mewn ffermydd sydd ag achosion uchel o'r clefyd, gyda'r un nod â'r IFNγ, sef canfod anifeiliaid y byddai'r prawf croen wedi'u methu (Llywodraeth Cymru 2020).

Ers 1921, defnyddiwyd *M. bovis Bacille Calmette-Guerin* (BCG) fel brechlyn yn erbyn TB dynol (Brewer a Colditz 1995) er bod astudiaethau yn dangos bod y brechlyn yn aneffeithiol mewn oedolion (ICMR 1999). Profwyd bod y straen *M. bovis BCG* yn frechlyn effeithiol gogyfer gwarchod gwartheg rhag *M. bovis* (Rizzi et al., 2012), gyda lloi heb eu brechu 2.4 gwaith yn fwy tebygol o ddal twbercwlosis o gymharu â lloi wedi'u brechu (Lopez-Valencia et al., 2010). Y prif reswm pam nad yw *M. bovis BCG* yn cael ei ddefnyddio fel arf yn erbyn twbercwlosis mewn gwartheg ar hyn o bryd yw ei fod yn achosi ymateb positif i'r prawf croen presennol; hynny yw, nid yw'r prawf yn gallu gwahaniaethu rhwng anifeiliaid wedi eu heintio â rhai wedi eu himiwneiddio. Ymgeisiodd Buddle et al. (2011) frechu lloi gyda chyfanswm is o *M. bovis BCG* mewn ymgais i gryfhau imiwnedd, heb achosi ymateb i'r prawf croen. Dengys fod lloi a oedd wedi eu dosio gyda $10^8$ uned ffurfio cytref

(CFU) o *M. bovis BCG* yn dangos cryfder yn eu himiwnedd yn erbyn *M. bovis*, ond yn ymateb yn bositif i'r prawf croen, ac er nad oedd hyn yn ymyrryd â chanlyniadau'r prawf croen yn achos lloi gyda $10^6$ a $10^7$ CFU o *M. bovis BCG*, nid oedd yn driniaeth ddigonol i gynyddu imiwnedd, oherwydd cafodd y grŵp hwn o loi eu heintio (Buddle et al., 2011). Byddai strategaeth o frechu gwartheg o gymorth enfawr i'r polisi o reoli twbercwlosis, ond mae'n rhaid cael prawf sy'n gallu gwahaniaethu rhwng anifeiliaid heintiedig a rhai sydd wedi eu brechu cyn ei ystyried ymhellach (Srinivasan et al., 2019).




Ffigur 2: Canran meithrin *M. bovis* mewn rhannau gwahanol o'r corff mewn gwartheg godro (n=56), lloi (n=24) a chathod domestig (n=21). Addaswyd o Fitzgerald et al., 2016.

Aerosol yw'r brif ffordd o drosglwyddo *M. bovis* o fuwch i fuwch (oedolion), yn benodol i ledaenu'r bacteria i'r ysgyfaint (Ffigur 2; Palmer, Walters a Whipple 2002; Waters et al., 2006). Er bod difrodau gan amlaf yn ffurfio yn y system resbiradol, mae'n debygol bod y fuwch yn amlyncu *M. bovis* yn ystod y broses o besychu, sydd yn achosi i'r bacteria fynd trwy'r system dreulio a chael eu bwrw allan mewn tail, llaeth, ac ati. (Robinson 2019). Yn dilyn archwiliadau o anifeiliaid positif am *M. bovis* mewn lladd-dai rhwng 1986 a 1994, gwelwyd bod y rhan fwyaf o ddifrodau (69.2%) yn y thoracs, sydd yn cefnogi'r ddamcaniaeth mai trwy aerosol y ceir y trosglwyddiad pennaf rhwng gwartheg (Goodchild a Clifton-Hadley 2001).

Fel y mae'r achosion o *M. bovis* ym mhoblogaeth y DU cyn pasteureiddio yn ei gadarnhau, gellir trosglwyddo'r clefyd trwy'r llaeth (Public Health England 2018; Erequat et al., 2013). Mae llaeth amrwd o wartheg heintiedig yn cael ei adnabod fel ffynhonnell TB mewn lloi a

chathod, oherwydd bod *M. bovis* yn cael ei amlyncu, sy'n achosi difrodau yn yr abdomen (Fitzgerald et al., 2016).

Yn gefnogol i Ffigur 2, pan gymharwyd pum llo wedi'u heintio ag *M. bovis* yn eneuol gyda phum llo wedi eu heintio â *M. bovis* yn resbiradol, darganfuwyd mwy o ddifrodau yn y thoracs (5 allan o 5 wedi profi'n bositif wrth feithrin meinwe, prawf chi sgwâr, $P<0.001$) a'r ysgyfaint (3/5, $P<0.05$) yn y lloi wedi'u heintio'n resbiradol o gymharu â'r difrodau (2/5, $P=0.23$) a'r meithriniadau positif (4/5, $P<0.05$) a welwyd yn abdomen y lloi wedi eu heintio'n eneuol (Serrano et al., 2018). Gwelwyd meinwe abdomen un llo a gafodd ei heintio'n resbiradol yn ymateb yn bositif ($P<0.05$) (Serrano et al., 2018).

Mae hefyd yn bosibl i wartheg sydd wedi profi'n negatif am *M. bovis* yn y prawf croen barhau i drosglwyddo *M. bovis* yn eu llaeth, oherwydd sensitifrwydd is y prawf croen (Zarden et al., 2013). Dengys Ffigur 2 bod trosglwyddiad *M. bovis* o wartheg i loi yn digwydd o ganlyniad i'r llo yn amlyncu'r bacteria, oherwydd i ganran uchel o *M. bovis* gael ei feithrin o'r abdomen, yn hytrach nag o'r thoracs a'r pen. Oherwydd y canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru (2019b) yn argymell y dylai ffermwyr basteureiddio llaeth amrwd cyn ei fwydo i loi'r fferm.

## 2.2 *Bywyd gwyllt*

| **Rhywogaeth** | **Mynychder *M. bovis*** | **Nifer a samplwyd** |
|---|---|---|
| Gwahaddod (*Talpa europaea*) | 1.21% | 166 |
| Cadnoaid (*Vulpes vulpes*) | 1.15% | 954 |
| Mincod (*Mustela vison*) | 0.58% | 172 |
| Llygod ffyrnig (*Rattus norvegicus*) | 1.21% | 412 |
| Ceirw gwyllt: ceirw coch (*Cervus elaphus*), iyrchod (*Capreolus capreolus*), danasod (*Dama dama*), ceirw sica (*Cervus nippon*) | 1.05% | 1,817 |
| Ffwlbartod (*Mustela putorius furo*) | 3.85% | 26 |
| Moch daear (*Meles meles*) | 4.05% | 21,731 |

Tabl 2: Mynychder M. bovis mewn bywyd gwyllt. Addaswyd o Krebs et al., 1997.

Darganfuwyd *M. bovis* mewn moch daear am y tro cyntaf yn 1971 (Muirhead, Gallagher a Burns 1974). Un o'r awgrymiadau o adolygiad Krebs et al. (1997) oedd bod perthynas gref rhwng y twbercwlosis yn y mochyn daear Ewropeaidd (*Meles meles*) a'r clefyd mewn gwartheg, er roedd y dystiolaeth mai'r mochyn daear a oedd yn *gyfrifol* am ledaenu twbercwlosis i wartheg yn dipyn llai cadarn. Rhwng 1972 a 1994, gwnaeth MAFF (y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd; bellach wedi newid i DEFRA) samplu 21,731

o foch daear ym Mhrydain am *M. bovis*, gyda 4.05% yn profi'n bositif i'r haint (880) (Krebs et al., 1997). Dengys Tabl 2 fynychder *M. bovis* mewn bywyd gwyllt o astudiaeth Krebs et al. (1997), ond mae'n bwysig nodi bod tuedd yn y data oherwydd i niferoedd uchel o foch daear gael eu samplu fel rhan o ymgyrch gan MAFF rhwng 1972 ac 1996. Mae Krebs et al. (1997) hefyd yn cydnabod nad yw'r mynychder mewn moch daear yn adlewyrchiad diduedd yn yr astudiaeth, oherwydd daeth 40% o'r samplau o aelodau'r cyhoedd yn riportio ynghylch moch daear trig sydd wedi'u canfod ar yr heolydd, a gall hyn olygu bod pobl sydd yn fwy ymwybodol o dwbercwlosis yn fwy tebygol o riportio ynghylch moch daear i MAFF. Samplodd Mathews et *al.* (2006) fywyd gwyllt am *M. bovis*, gan ddod i ganfyddiad bod mynychder tipyn is ymysg bywyd gwyllt, ond ei fod yn uwch ymysg moch daear. Gwnaeth 2 allan o 16 rhywogaeth (y llygoden bengron goch (*Clethrionomys glareolus*) a'r mochyn daear (*Meles meles*)) ddangos arwyddion o'r clefyd gan gynrychioli mynychder o 0.1% a 7% ar draws samplau eu rhywogaeth (Mathews et al., 2006). Mewn arolwg o foch daear wedi eu darganfod yn farw yng Nghymru rhwng 2014 a 2016, llwyddwyd i feithrin *M. bovis* mewn 50 allan o 681 carcas, sy'n golygu mynychder TB cenedlaethol o 7.3% (cyfwng hyder 95% 5.6%-9.5%) (Schroeder et al., 2020). Wrth ddadansoddi'r data o fewn ardaloedd rheolaeth TB Llywodraeth Cymru (2017), gwelwyd bod y mynychder yn yr ardal TB uchel yn y dwyrain (sydd yn ffinio â Lloegr) yn 18.6% (12.7-26.2%), sy'n dipyn uwch na'r ardal TB uchel yn y gorllewin sydd yn 7.4% (4.7-11.2%, P= 0.003) (Schroeder et al., 2020). Yn yr ardaloedd TB isel a chanolig, gwelwyd mynychder o TB mewn carcasau moch daear o 0.7% (0.1-4.0%) a 2.7% (1.1-6.7%) (Schroeder et al., 2020).

Gan nad yw moch daear yn cael eu monitro ar gyfer y clefyd yn yr un modd â gwartheg, mae defnyddio *M. bovis BCG* i'w brechu yn strategaeth a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru a DEFRA. Dengys gwaith gan Chambers et al. (2011) bod brechu moch daear gyda BCG yn gallu lleihau'r achosion ohonynt yn profi'n bositif am *M. bovis* hyd at 73.8%, ac o ganlyniad yn lleihau'r trosglwyddiad o fywyd gwyllt i wartheg ac o wartheg i fywyd gwyllt. Gwelodd Corner et al. (2010) fod moch daear a gafodd eu brechu ac yna eu heintio 17 wythnos ar ôl y brechiad yn dangos llai o safleoedd gyda difrodau, difrodau llai o faint, a llai o lwyth bacteria yn yr ysgyfaint o gymharu â moch daear heb eu brechu. Yn yr un modd nad yw'r brechlyn *M. bovis BCG* mor effeithiol mewn oedolion o gymharu â phlant, credir bod yr un peth yn wir mewn moch daear a gwartheg â'u hepil, oherwydd dangosodd anifeiliaid hŷn (sydd wedi dod i gysylltiad â TB amgylcheddol) ymateb imiwn is i'r brechlyn *M. bovis BCG* o gymharu ag anifeiliaid iau (Buddle et al., 2002). Er y buddion o frechu moch daear, rhaid cofio nad yw BCG yn llwyddo i roi imiwnedd 100% yn erbyn twbercwlosis (Balseiro et al., 2020), ac mae sicrhau bod y boblogaeth gyfan o foch daear mewn ardal yn cael eu brechu bron yn amhosibl, felly mae'r cyfuniad hwn yn golygu nad yw'r cynllun brechu mor llwyddiannus ag y gallai fod.

Cafodd cynllun difa moch daear ar hap (*The randomised badger culling trial* – RBCT) ei gynnal yn Lloegr rhwng 1998 a 2005. Diben yr RBCT oedd targedu ardaloedd penodol er mwyn naill ai:

I. Difa moch daear mewn modd rhagweithiol;
II. Difa moch daear mewn modd ymatebol; neu
III. Monitro yn unig.

Er i ganlyniadau'r RBCT nodi bod cwymp arwyddocaol yn nifer y gwartheg gyda thwbercwlosis yn yr ardaloedd lle cafodd moch daear eu difa (23.2%, CH 95% 12.4–32.7%), roedd yr ardaloedd a oedd o fewn 2 km wedi gweld cynnydd yn nifer y gwartheg gyda thwbercwlosis o 24.5% (CH 95% cwymp 0.6% – cynnydd o 56.0%). Awgryma hyn bod moch daear heintiedig yn mudo o ardaloedd lle cynhelir cynllun difa (Donnelly et al., 2007). Pwysleisia hyn bwysigrwydd cael strategaeth glir wrth geisio mynd i'r afael â chlefyd mewn poblogaeth o anifeiliaid gwyllt (Robinson et al., 2012). Fel rhan o gynllun difa moch daear DEFRA yn Lloegr, brechwyd moch daear mewn ardaloedd sydd yn ffinio ag ardaloedd lle y mae difa rhagweithiol yn digwydd er mwyn ceisio lleihau mudiad moch daear wedi eu heintio.

Yn Seland Newydd, adnabyddir posymod (*Thricosurus vulpecula*) fel anifeiliaid gwyllt sy'n cario *M. bovis*, gydag astudiaethau yn cydnabod bod posymod yn chwarae rôl bendant o ran lledaenu *M. bovis* i wartheg (Porphyre, McKenzie a Stephenson 2011), sydd yn wahanol i awgrymiadau Krebs et al. (1997) parthed rôl bywyd gwyllt mewn heintio gwartheg ym Mhrydain Fawr. Adnabyddir y gellir cysylltu'r rhan fwyaf o'r achosion newydd o dwbercwlosis mewn gwartheg a cheirw yn Seland Newydd yn uniongyrchol â phosymod heintiedig (Hutchings, Hancox a Livingstone 2013).


Yng Nghymru, adnabyddir sawl mamolyn gwyllt fel rhywogaethau sy'n gallu cario *M. bovis*, gyda meinwe cadnoaid, ceirw a hyd yn oed morloi wedi profi'n bositif am *M. bovis* yn 2012 (Harris et al., 2014). Mae'r ffaith y gall nifer o famolion gwyllt ddal *M. bovis* yn ei wneud yn glefyd sy'n anodd ei reoli mewn bywyd gwyllt (de la Rua-Domenech 2006). Yn ychwanegol, mae'r ystod eang o gyd-fyw rhwng bywyd gwyllt a gwartheg, yn ogystal â diffyg profi bywyd gwyllt, yn gwneud y ffordd hon o ledaenu *M. bovis* yn un anodd ei rheoli.

## 2.3 *Anifeiliaid domestig*

Mae *M. bovis* yn bathogen i'r mwyafrif o famolion, gyda ffigyrau o 2012 yn dangos bod meinweoedd wedi eu harwahanu o foch, cathod, cŵn ac alpacas wedi profi'n bositif am *M. bovis* (Harris et al., 2014). Mae anifeiliaid domestig yn gallu chwarae rôl bwysig o ran epidemioleg *M. bovis*, gan nad ydynt, fel bywyd gwyllt, yn cael eu rheoli gan ganllawiau'r Llywodraeth o ran cael eu profi'n gyson, er bod anifeiliaid fel alpacas yn gallu lledaenu'r pathogen ar raddfa uchel (Twomey et al., 2010).

Mewn arbrawf gan Mendoza et al. (2015), a oedd yn edrych ar y posibilrwydd o ddefaid yn cario *M. Bovis*, darganfuwyd trwy histopatholeg bod 83.23% o ddefaid a gafodd eu lladd wedi profi'n bositif am *M. bovis*. Gwelwyd difrodau twbercwlosis ar 97 o'r 159 (61%) o ddefaid a laddwyd, gyda phrofion croen, IFN$\gamma$ a serolegol ar y ddiadell yn dangos bod *M. bovis* wedi heintio 24.92%, 4.86% a 59.42% o'r defaid yn y drefn honno (Mendoza et al., 2015).

### 2.4 *Yr amgylchedd*




Ffigur 3: Tri dull posibl o drosglwyddo *M. bovis*. Dull a: yn uniongyrchol o fewn rhywogaethau (boed yn wyllt neu'n ddomestig). Dull b: yn uniongyrchol rhwng rhywogaethau gwahanol. Dull c: yn anuniongyrchol naill ai o fewn neu rhwng rhywogaethau, gyda'r amgylchedd yn cynnal/ meithrin *M. bovis* ac yn gronfa i'r anifail a gaiff ei heintio.

Mae adrannau 2.1–2.3 wedi sôn am fecanweithiau dulliau trosglwyddo a & b (Ffigur 3). Wrth edrych ar y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, mae'r rhyngweithio uniongyrchol rhwng mamolion yn ffactor gref yn nhrosglwyddiad y pathogen.

Mae'r syniad y gallai *M. bovis* oroesi yn yr amgylchedd amaethyddol yn bodoli ers degawdau, gyda Duffield a Young (1985) yn profi bod y pathogen yn gallu goroesi am bedair wythnos mewn pridd gwlyb ac mewn ardal gysgodol (80% *shade*) mewn amodau labordy. Mae Young, Gormley a Wellington (2005) yn dadlau bod dulliau dadlygru pridd Duffield a Young (1985) yn golygu bod hirhoedledd *M. bovis* yn y pridd yn is na'r disgwyl. Mewn adolygiad gan Courtenay a Wellington (2008), soniwyd am y posibilrwydd uchel y gall yr amgylchedd fod yn gronfa gref o *M. bovis*, a fyddai'n egluro pam mae twbercwlosis yn glefyd sy'n dangos hirhoedledd mewn ambell i fuches ac nid mewn eraill.

Er mwyn i'r amgylchedd fod yn gronfa weithredol o *M. bovis* i wartheg a mamolion eraill, rhaid bod nifer uchel o facteria yn bresennol. Gan mai drwy amlyncu y bydd unigolyn

yn cael ei heintio, mae angen o leiaf $10^6$ CFU o *M. bovis* i heintio ffuret trwy'r modd hwn (Cross, Labes a Mackintosh 2000), tra byddai niferoedd tipyn llai ar ffurf aerosol yn gallu heintio anifeiliaid eraill (Phillips et al., 2003).

Roedd tywydd oerach y gaeaf yn ffafrio hirhoedledd *M. bovis* yn yr amgylchedd yn Seland Newydd, er roedd Jackson, De Lisle a Morris (1995) yn nodi mai am gyfnod byr yr oedd yn aros yn bathogenaidd, ac felly nid oedd yn rhyngweithiad epidemiolegol arwyddocaol i'r clefyd. Mae tymheredd a chynefin ill dau yn enghreifftiau o ffactorau sy'n chwarae rôl ym mhathogenedd *M. bovis* yn yr amgylchedd (King et al., 2017). Dengys gwaith Palmer a Whipple (2006) bod *M. bovis* yn ffafrio tymheredd oerach y gaeaf er mwyn gallu goroesi am gyfnodau hwy ar fwyd a oedd yn cael ei fwyta gan wartheg a bywyd gwyllt. Yn ôl Young, Gormley a Wellington (2005), y cyflwr delfrydol i *M. bovis* yn yr amgylchedd yw pridd llaith â thymheredd o 37°C, gyda'r gyfradd oroesi yn gostwng yn gyflym pan fydd y tymheredd o dan 4°C. Mae'n annhebygol y gellir cael pridd sydd â thymheredd mor uchel ag a geir yn awgrymiadau Young, Gormley a Wellington (2005), felly rhaid cofio mai amodau *delfrydol* yw'r rhain.

Er bod trosglwyddo uniongyrchol rhwng gwartheg a bywyd gwyllt (yn benodol moch daear) yn digwydd, mae'n ymddangos ei fod yn annhebygol o chwarae rôl enfawr, gyda 4 cyswllt uniongyrchol rhwng gwartheg a moch daear yn digwydd i bob 500,000 mesuriad gyda choleri GPS (Drewe et al., 2013). Ni wnaeth astudiaeth Woodroffe et al. (2016) weld unrhyw gyswllt uniongyrchol o gwbl yn ystod eu harbrawf hwy, gan nodi bod y coleri GPS yn mesur bod lleoliad y moch daear gan amlaf o leiaf 50 metr o leoliad y gwartheg. Mae hyn yn cefnogi'r syniad bod cronfa amgylcheddol yn cysylltu gwartheg â bywyd gwyllt, a bod yr haint yn gallu heintio rhywogaethau fel hyn, yn hytrach na thrwy gyswllt uniongyrchol. Roedd gwartheg a moch daear ill dau yn ymweld yn gyson â geudai (tai bach) moch daear (Drewe et al., 2013), sydd yn ffordd effeithiol o drosglwyddo'r bacteria pe bai gwartheg neu foch daear heintiedig yn dod i gyswllt â'i gilydd. Er i'r gyfran o bacili *M. bovis* sydd yn yr amgylchedd ostwng yn yr wythnos i bythefnos cyntaf ar ôl eu hysgarthu, mae'r gyfran sydd ar ôl yn goroesi am gyfnod o 4 i 12 wythnos ar lafur, gwair, pridd a dŵr (Fine et al., 2011a). Targedu'r MTBC wnaeth dulliau moleciwlaidd Young, Gormley a Wellington (2005) gan ymdrechu i ddarganfod *M. bovis BCG* mewn microcosmau pridd, ac *M. bovis* mewn samplau pridd o'r Iwerddon. Roedd Young, Gormley a Wellington (2005) yn defnyddio primyddion i dargedu ardaloedd *mpb 64* ac *mpb 70* o enom holl facteria MTBC, cyn defnyddio PCR (adwaith cadwynol polymeras – dull moleciwlaidd o dargedu a mwyhau ardal benodol DNA organeb sydd yn cadarnhau/diddymu presenoldeb yr organeb) a oedd yn targedu'r 16S rRNA sydd ond yn bresennol mewn mycobacteria sydd yn tyfu'n araf. Dengys y gwaith ei bod yn bosibl darganfod genynnau MTBC mewn pridd hyd at 21 mis wedi iddo gael ei lygru, gydag *M. bovis BCG* yn weithredol mewn microcosmau pridd am 15 mis.

Dengys Courtenay et al. (2006) fod carthion moch daear heintiedig yn cynnwys *M. bovis*, sydd yn medru cael ei drosglwyddo i wartheg, gyda 78% o garthion moch daear ar 60 o ffermydd mewn ardaloedd TB uchel yn profi'n bositif am MTBC sydd yn debygol o gynnwys DNA *M. bovis*.

| **Awdur** | **Math o samplau organig** | **Nifer a samplwyd** | **Dull canfod a'r ardal a dargedir** | **Nifer a oedd yn bositif** | **Cywerthyddion genom a oedd yn bresennol ($g^{-1}$)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Barbier et al., 2017 | Pridd tir pori | 63 | qPCR – MTBC IS1561 + nested IS1561 + RD4 | 0 (0%) | 0 |
| Barbier et al., 2017 | Carthion moch daear | 21 | qPCR – MTBC IS1561 + nested IS1561 + RD4 | 3 (14.3%) | Rhy fach i'r prawf ei feintoli. |
| Barbier et al., 2017 | Pridd y tu allan i setiau moch daear | 150 | qPCR– MTBC IS1561 + nested IS1561 + RD4 | 11 (7.3%) | 2.54 x $10^2$ - 3.7 x $10^4$ |
| Barbier et al., 2017 | Dŵr | 67 | qPCR – MTBC IS1561 + nested IS1561 + RD4 | 7 (10.45%) | Rhy fach i'r prawf ei feintoli. |
| Sweeney et al., 2007 | Carthion a phridd o gwmpas geudai moch daear wedi'u heintio | 11 | qPCR – mpb 70 ac RD4 | 11 (100%) | 6.8 x $10^4$ – 5.4 x $10^6$ |
| Young, Gormley a Wellington, 2005 | Pridd tir pori | 180 | qPCR mpb 70, mpb 64 a 16s rRNA | 17 (9.44%) | 1 x $10^3$ – 1.5 x $10^3$ |
| Young, Gormley a Wellington, 2005 | Pridd y tu allan i setiau moch daear | 40 | qPCR mpb 70, mpb 64 a 16s rRNA | 34 (85%) | 2.1 x $10^3$ – 3.6 x $10^3$ |

Tabl 3: *M. bovis* mewn samplau organig, a'r dulliau o'u darganfod.

Gall lefelau isel o *M. bovis* ymddangos mewn samplau organig amgylcheddol o gwmpas ardaloedd gyda gwartheg a moch daear wedi'u heintio (Barbier et al., 2017). Dengys Tabl 3 fod MTBC wedi ei ddarganfod mewn nifer o samplau amgylcheddol, gyda'r qPCR a oedd yn targedu'r ardal RD4 (sydd ond yn bresennol mewn *M. bovis*) yn cadarnhau presenoldeb/absenoldeb *M. bovis*.

Gwaith Barbier et al. (2017) yw un o'r papurau prin sydd wedi edrych ar ddŵr fel cronfa o *M. bovis*, gan lwyddo i ddarganfod DNA o'r MTBC mewn 7 allan o 67 (10.45%) sampl dŵr ffynnon. Roedd y DNA a ddarganfuwyd mewn niferoedd bach a oedd yn agos iawn at isafswm datgeliad y qPCR, felly ni fedrwyd eu meintoli (Barbier et al., 2017), ac felly mae'n annhebygol y byddai'n cyrraedd y trothwy o $10^6$ CFU sydd ei angen i heintio ffuret hyd yn oed (Cross, Labes a Mackintosh 2000). Er nad yw gwaith King et al. (2017) mewn cyd-destun amaethyddol, mae'n nodi bod *M. bovis* wedi llwyddo i aros yn bathogenaidd mewn cyflenwad dŵr, gyda chynifer â 0.073 o gywerthyddion genom (*genome equivalents*) ym mhob mililitr. Noder hefyd fod pridd yn gronfa gref o *M. bovis* i'r boblogaeth yn Ethiopia, a'i bod yn debygol bod hyn yn wir ar gyfer anifeiliaid hefyd (King et al., 2017).

Wrth ymchwilio i'r rôl y mae'r amgylchedd yn ei chwarae wrth ledaenu *M. bovis* o wartheg i geirw ym Michigan, UDA, gwelwyd bod *M. bovis* yn gallu goroesi ar fwyd y byddai ceirw a gwartheg yn ei fwyta, megis llafur, gwair, tatws a betys siwgr o dan amodau artiffisial tebyg i Michigan (Palmer a Whipple 2006). Yn benodol, gwelwyd nad oedd pelydriad heulog, cynnydd mewn tymheredd ac anwedd-drydarthiad ($P<0.001$), a glaw ($P<0.05$) yn rhwystro *M. bovis* rhag goroesi yn yr amgylchedd (Fine et al., 2011a).

Gan fod gwaith Fine et al. (2011a) wedi llwyddo i ddarganfod *M. bovis* o dan amgylchiadau amgylcheddol yn y labordy, ac wedi llwyddo i'w ddarganfod mewn samplau mewn amgylchedd go iawn, mae'n profi bod *M. bovis* yn facteria sy'n gallu goroesi'r amgylcheddau hynny. Pan fydd papurau yn sôn eu bod wedi methu a darganfod *M. bovis* yn yr amgylchedd, mae Fine et al. (2011a) yn dadlau mai methiant samplu yw'r broblem yn hytrach na diffyg *M. bovis*. Ceir hefyd achosion pan fydd technegau amhriodol wedi eu defnyddio gogyfer â darganfod *M. bovis* mewn samplau organig (Fine et al., 2011b).

Er bod silwair yn ymddangos yn gronfa ddeniadol gogyfer â *M. bovis*, pe bai'r cnwd yn cael ei heintio gan y pathogen cyn y broses silweirio, ymddengys nad oes modd canfod *M. bovis* chwe wythnos yn ddiweddarach (DEFRA, 2002). Gall hyn fod oherwydd bod y broses silweirio naill ai'n lladd *M. bovis*, neu'n ei roi mewn cyflwr cwsg, gyda'r ail sefyllfa yn awgrymu y gall silwair fod yn gronfa amgylcheddol o *M. bovis* (Grooms et al., 2019). Darganfuwyd DNA *M. bovis* mewn samplau o silwair porfa, india-corn a maglys rhuddlas, ond ni wnaeth *M. bovis* lwyddo i dyfu ar yr india-corn nac ar faglys rhuddlas (Grooms et al., 2019).

Llwyddodd Martínez-Guijosa et al. (2020) i ddarganfod DNA MTBC mewn samplau a gasglwyd o ysgwyddau gwartheg (fel sampl amgylcheddol y tu allan i'r fuwch) mewn 31% o samplau (15 allan o 48). Awgryma hyn y gall samplu amgylcheddol fod yn ffordd arall o helpu i adnabod buchesi sydd ag achosion o *M. Bovis* yn yr amgylchedd, a fyddai, mwy na thebyg, yn cynyddu'r achosion o anifeiliaid sydd â'r clefyd.

### *2.5 Rhyngweithiad gyda rhywogaethau/micro-organebau eraill*

Mae hirhoedledd *M. bovis* mewn pridd di-haint (*sterile*) tipyn yn is nag *M. bovis* mewn pridd heb ei drin, sydd yn awgrymu rhyngweithiadau gyda rhywogaethau eraill yn y pridd, yn benodol micro-organebau a fyddai'n helpu i drwsio, cynnal a chadw celloedd *M. bovis* (Young, Gormley a Wellington 2005). Rheswm arall posibl am y gwahaniaeth mewn hirhoedledd *M. bovis* yn y ddau bridd oedd y byddai'r pridd di-haint yn cynnwys maetholion a thocsinau o gelloedd organebau'r pridd a fyddai wedi eu lladd, ac o ganlyniad byddai hyn yn rhoi celloedd *M. bovis* mewn cyflwr actif yn hytrach nag mewn cyflwr cwsg, sydd yn ychwanegu at eu hirhoedledd (Young, Gormley a Wellington 2005).

Mae protosoa yn organebau ungellog sydd eisoes wedi dangos eu gallu i gario heintiau eraill (Lambrecht et al., 2015). Gall protosoa (yn benodol amoebau achiliadau) amlyncu bacteria pathogenaidd, eu pecynnu mewn adeiledd pilennol i amddiffyn eu hunain, a rhyddhau'r bacteria wedyn mewn amgylchedd gwahanol (Denoncourt et al., 2014; Lambrecht et al., 2015). Mae bacteria sydd wedi'u gwarchod yn y modd hwn yn fwy tebygol o wrthsefyll heriau amgylcheddol o gymharu â bacteria rhydd (Denoncourt et al., 2014; Lambrecht et al., 2015; Taylor et al., 2003).

Mae'r rhyngweithio rhwng amoebau ac *M. bovis* yn bodoli (Taylor et al., 2003; Rhodes, De Leij a Dale 2007; Sanchez-Hidalgo et al., 2017), er i Mardare, Delahay a Dale (2013) geisio ein darbwyllo mai rôl fach iawn y mae'r amoebau yn ei chwarae yn yr hirdymor. Clustnodwyd protosoa fel cronfa amgylcheddol o *M. bovis* gan Rhodes, De Leij a Dale (2007), gan nodi bod *M. bovis* firwlaidd wedi goroesi amgystiad (*encystment*) o fewn yr amoebau. Er i *M. bovis* firwlaidd oroesi o fewn yr amoebau, nid oedd mycobacteria eraill (yn benodol rhai llai pathogenaidd megis *M. smegmatis* ac *M. bovis BCG*) yn gallu goroesi, sydd yn rhoi cydberthyniad rhwng pa mor bathogenaidd yw'r bacteria a'u gallu i oroesi mewn amoebau (Taylor et al., 2003). Mae'r cydberthyniad hwn yn cael ei gryfhau ymhellach, oherwydd llwyddodd dau bathogen arall o'r genws, *Mycobacterium leprae* a *Mycobacterium avium*, i oroesi o fewn amoebau (Cirillo et al., 1997; Steinert et al., 1998). Dengys Butler et al. (2020) bod mycobacteria pathogenaidd yn defnyddio'r un mecanweithiau fel pathogenau ag y maent i oroesi o fewn amoebau, yn benodol system secretu math VII ESX-1 sydd yn gyfrifol am lysu (*lyse*) celloedd yr organeb letyol (Conrad et al., 2017).

Wrth gloi'u trafodaeth, mae Cook, Britt a Bolster (2010) yn egluro bod *Mycobacterium avium subsp. Paratuberculosis* (MAP) yn rhyngweithio â phrotosoa amgylcheddol sydd yn helpu hirhoedledd y bacteria o fewn bioffilmiau. Llwyddodd Whan, Grant a Rowe (2006) i ddarganfod MAP o fewn gwagolynnau *Acanthamoeba castellanii CCAP 1501/1B*, sydd yn cyd-fynd â darganfyddiadau Mura et al. (2006).

Yn ddiweddar, mae gwaith Sanchez-Hidalgo et al. (2017) wedi profi bod *M. bovis* yn gallu goroesi fel pathogenau ar ôl cael eu cludo gan amoebau, gan drosglwyddo'r clefyd i lygod. Mae'n bosibl i *M. bovis* oroesi o fewn yr amoebau (*A.polyphaga, A.castellani, A.lenticulata* a *V.Vermiformis* yn benodol) am hyd at 60 diwrnod (Sanchez-Hidalgo et al., 2017). Pan fu'r *M. bovis* o fewn troffosöit (*trophozoite*) yn yr arbrawf, roedd yn gallu ail-gydio fel pathogen ar ôl dianc, gan lwyddo i heintio llygod yn yr achos hwn (Sanchez-

Hidalgo et al., 2017). Mae Butler et al. (2020) yn dangos bod *M. bovis* yn goroesi o fewn *Dictyostelium discoideum* (amoeba sydd yn byw mewn pridd ac yn bwyta bacteria) ac yn osgoi ffagocytosis, gan aros yn bathogenaidd. Er yn arwyddocaol ar lefel labordy, nid oes prawf o hyd fod hyn yn digwydd yn yr amgylchedd, er bod gwaith Sanchez-Hidalgo et al. (2017) a Butler et al. (2020) yn awgrymu i bob pwrpas y dylai ddigwydd.

Mae'r mwydyn (*Lumbricus terrestris*) yn medru gwasgaru *M. bovis* o garthion gwartheg heintiedig i mewn i'r amgylchedd (Barbier et al., 2016a). Yn yr arbrawf hwn, llwyddodd y mwydod i ledaenu *M. bovis* o garthion gwartheg wedi eu heintio gan *M. Bovis* drwy ei amlyncu a'i allyrru yn eu carthion eu hunain. Pan fyddai'r mwydod yn symud i amgylcheddau a oedd yn rhydd o *M. bovis*, byddai'r crynodiad yn gostwng yn raddol. Ond, dengys gwaith Barbier et al. (2016a) y byddai mwydod sydd ag *M. bovis* yn parhau i ledaenu'r bacteria am o leiaf 60 diwrnod. Mewn cyd-destun bywyd gwyllt, gall deiet moch daear gynnwys hyd at 89% o fwydod yn ystod y gwanwyn (Goszczyński et al., 2006), gyda chanfyddiadau Barbier et al. (2016a) yn awgrymu risg uchel o ledaenu *M. bovis* o fewn bywyd gwyllt. Gwelir mecanwaith eithaf tebyg rhwng mwydod a phathogenau eraill megis *Mycobacterium avium subsp. Paratuberculosis* (Johne's) (Fischer et al., 2003) ac *E. coli O157* (Williams et al., 2006).

## 3 Y dyfodol

Yn sgil y pwysau ychwanegol ar arian cyhoeddus mewn perthynas â'r cysylltiad rhwng twbercwlosis a moch daear, mae'r angen i lywodraethau sicrhau strategaeth effeithiol ar gyfer rheoli'r clefyd yn fwy nag erioed. Bydd masnachu â gwledydd eraill yn her yn y dyfodol agos, oherwydd bod y rheolau'n mynnu bod yn rhaid i bob gwlad fod â mynychder twbercwlosis o lai na 0.1% am chwe blynedd yn olynol er mwyn cael cydnabyddiaeth fel gwlad sydd yn glir o dwbercwlosis (Llywodraeth Cymru 2019c). Bydd *Brexit* yn ei gwneud yn anochel y byddwn yn gorfod llunio cytundebau masnachu newydd.

### Deddfwriaeth

Yn adroddiad Godfray et al. (2018) o bolisïau TB Lloegr, nodwyd bod angen i ffermwyr *berchnogi* mwy o reolaeth dros y clefyd. Golyga hyn eu bod am annog ffermwyr i edrych ar arferion y gallent hwythau eu rhoi ar waith, yn hytrach na disgwyl i'r llywodraeth ddifa'r clefyd. Ar un llaw, mae hyn yn bolisi a allai weithio i annog ffermwyr i strwythuro eu busnesau mewn ffordd well i leihau'r risg o dwbercwlosis ond, ar y llaw arall, rhaid cofio bod nenfwd eithaf isel o ran perchnogi rheolaeth dros glefyd hysbysadwy oherwydd y cyfyngiadau a ddaw o du'r llywodraeth; byddai mynd yn groes i'r cyfyngiadau yn dor cyfraith.

### Profion

Yn sgil yr holl dechnegau microbioleg sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd y dulliau ar gyfer darparu diagnosis o'r clefyd yn newid yn y dyfodol agos. Mae'r ffaith bod

DNA nifer o'r teulu MTBC wedi cael ei ddilyniannu yn ein galluogi i ddylunio profion sy'n gallu targedu *M. bovis* yn benodol a hyd yn oed wahaniaethu rhwng gwahanol straeniau ohono, os mai targedu'r bacteria yw'r nod. Byddai dylunio prawf sy'n gallu darganfod presenoldeb/absenoldeb *M. bovis* mewn samplau amgylcheddol mewn amser byr (h.y. gallu rhoi ateb o fewn diwrnod i'r ffermwr) yn newid y rheolaeth o dwbercwlosis gan alluogi iddynt osgoi pori eu stoc mewn ardaloedd risg uchel, a chanolbwyntio'r diheintio ar yr ardaloedd â chrynodiad uchel o'r bacteria. Mae'r broses o bori strategol yn unol â risg heintio yn arfer sy'n bodoli eisoes i reoli parasitiaid megis llyngyren yr afu (*liver fluke*) (Selemetas et al., 2015).

Yn ogystal â phrofion gogyfer â deunydd amgylcheddol, byddai profion mwy sensitif ar gyfer anifeiliaid (yn enwedig gwartheg) yn gallu profi stoc yn gywir gan leihau nifer yr anifeiliaid heintiedig sydd yn aros o fewn buches a lledaenu'r bacteria i'r amgylchedd ac i anifeiliaid eraill. Mae'n broses hir cael prawf wedi ei ddilysu yn llawn, ond mae'r prawf Actiphage (Swift, Convery a Rees 2016), math newydd o ELISA (Sahli et al., 2018) a phrawf newydd i wahaniaethu rhwng gwartheg wedi eu heintio a rhai wedi'u brechu (Srinivasan et al., 2019) i gyd yn esiamplau o brofion sydd wedi dangos y potensial mewn amodau labordy i gynyddu dibynadwyedd profion twbercwlosis, ond nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan yr OIE hyd yma. Yn ddiweddar, cafodd prawf Enferplex (Whelan et al., 2010) ei ddilysu gan yr OIE ar gyfer ei ddefnyddio ar y cyd â'r prawf croen. Yn ogystal â chynnig profion mwy gwydn, gellir defnyddio nifer o'r profion uchod fel prawf i wahaniaethu rhwng gwartheg wedi eu heintio a rhai wedi eu brechu, a fyddai'n gam sylweddol tuag at reoli'r clefyd ar ffermydd.

## TB amgylcheddol

Byddai darganfod nifer sylweddol o DNA *M. bovis* mewn samplau amgylcheddol yn sefyllfa a fyddai'n newid y ffordd o reoli'r clefyd. Er y byddai'n nodi cronfa arall ar gyfer lledaenu'r pathogen, mae'n gronfa y gellir ei rheoli mewn nifer o achosion trwy ddiheintio adeiladau rhwng grwpiau, rheoli stoc yn strategol (h.y. gosod ffens o amgylch ardaloedd risg uchel) a chynyddu bioddiogelwch ar ffermydd yn gyffredinol.

Mae bwlch sylweddol yn yr ymchwil wrth edrych ar y rhyngweithiadau sydd yn digwydd o fewn y gymuned ficrobaidd pan fydd *M. bovis* yn bresennol. Mae'n bosibl y gall rheolaeth o ficro-organebau eraill greu amgylchedd llai goroesadwy ar gyfer *M. bovis*, ac yn sgil hynny, greu ffyrdd amgen o reoli micro-organebau eraill er budd rheolaeth *M. bovis*. Pe darganfyddid bod TB amgylcheddol yn gronfa sylweddol o TB buchol, y cam nesaf fyddai trosglwyddo'r wybodaeth i ffermwyr, er mwyn newid agweddau a dulliau rheoli tuag at fioddiogelwch a sut y maent yn trin pathogenau amgylcheddol ar eu ffermydd.

## Llyfryddiaeth

APHA (2018), *Suspicion of Disease in a Carcase* <http://apha.defra.gov.uk/External_OV_Instructions/TB_Instructions/Passive_Surveillance/Slaughterhouse_Cases_and_Knackers_Yards.html> [Cyrchwyd: 5 Hydref 2018].

Balseiro, A. et al. (2020), 'Protective Effect of Oral BCG and Inactivated Mycobacterium bovis Vaccines in European Badgers (Meles meles) Experimentally Infected With M. Bovis', *Frontiers in Veterinary Science*, 7, Erthygl 41.

Barbier, E. et al. (2016a), 'Rapid dissemination of Mycobacterium bovis from cattle dung to soil by the earthworm Lumbricus terrestris', *Veterinary Microbiology*, 186, 1–7.

Barbier, E., et al. (2016b), 'First molecular detection of Mycobacterium bovis in environmental samples from a French region with endemic bovine tuberculosis', *Journal of Applied Microbiology*, 120 (5), 1193–1207.

Barbier, E. et al. (2017), 'Impact of temperature and soil type on Mycobacterium bovis survival in the environment', *PLOS ONE*, 12 (4), e0176315.

BBC (2016), 'Bovine TB: Prof Christianne Glossop on badger cull option' <https://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-36844571/bovine-tb-prof-christianne-glossop-on-badger-cull-option> [Cyrchwyd: 13 Gorffennaf 2020].

BBC Cymru Fyw (2019), *TB Sir Gaerfyrddin: Dim achos gweithredol ond 76 cudd* <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/48756806> [Cyrchwyd: 27 Mehefin 2019].

Bilal, S. et al. (2010), 'Human bovine tuberculosis – remains in the differential', *Journal of Medical Microbiology*, 59, 1379–82.

Brennan, P. J. a Nikaido, H. (1995), 'The Envelope of Mycobacteria', *Annual Review of Biochemistry*, 64, 29–63.

Brewer, T. F. a Colditz, G. A. (1995), 'Relationship Between Bacille Calmette-Guerin (BCG) Strains and the Efficacy of BCG Vaccine in the Prevention of Tuberculosis', *Clinical Infectious Diseases*, 20 (1), 126–35.

Buddle, B. M. et al. (2002), 'Influence of sensitisation to environmental mycobacteria on subsequent vaccination against bovine tuberculosis', *Vaccine*, 20 (7–8), 1126–1133.

Buddle, B. M. et al. (2011), 'Low oral BCG doses fail to protect cattle against an experimental challenge with Mycobacterium bovis', *Tuberculosis*, 91 (5), 400–5.

Butler, R. E. et al. (2020), 'Mycobacterium bovis uses the ESX-1 Type VII secretion system to escape predation by the soil-dwelling amoeba Dictyostelium discoideum', *The ISME Journal*, 14, 919–30.

Cassidy, J. P. et al. (1999). 'Lesions in cattle exposed to Mycobacterium bovis-inoculated calves', *Journal of Comparative Pathology*, 21 (4), 321–37.

Chambers, M. A. et al. (2011), 'Bacillus Calmette-Guérin vaccination reduces the severity and progression of tuberculosis in badgers', *Proceedings of The Royal Society of Biological Sciences*, 278 (1713), 1913–20.

Cirillo, J. D. et al. (1997), 'Interaction of Mycobacterium avium with environmental amoebae enhances virulence', *Infection and Immunity*, 65 (9), 3759–67.

Comstock, G. W. (1982), ‘Epidemiology of tuberculosis’, *American Review of Respiratory Disease*, 125, 8–15.

Conrad, W. H. et al. (2017), ‘Mycobacterial ESX-1 secretion system mediates host cell lysis through bacterium contact-dependent gross membrane disruptions’, *PNAS*, 114 (6), 1371–6.

Cook, K. L., Britt, J. S. a Bolster, C. H. (2010), ‘Survival of Mycobacterium avium subsp. Paratuberculosis in biofilms on livestock watering trough materials’, *Veterinary Microbiology*, 141 (1–2), 103–9.

Corner, L. A. L. et al. (2010), ‘Oral Vaccination of Badgers (Meles Meles) With BCG and Protective Immunity Against Endobronchial Challenge With Mycobacterium Bovis’, *Vaccine*, 28 (38), 6265–72.

Courtenay, O. (2006), ‘Is Mycobacterium bovis in the environment important for the persistence of bovine tuberculosis?’, *Biology Letters*, 2, 460–2.

Courtenay, O. a Wellington, E. M. H. (2008). ‘Mycobacterium bovis in the environment: towards our understanding of its biology’, *BCVA Cattle Practice*, 16 (2), 122–6.

Cross, M. L., Labes, R. E. a Mackintosh, C. G. (2000), ‘Oral infection of ferets with virulent Mycobacterium bovis or Mycobacterium avium: Susceptibility, Pathogenesis and Immune Response’, *Journal of Comparative Pathology*, 123 (1), 15–21.

de la Rua-Domenech, R. (2006), ‘Human Mycobacterium bovis infection in the United Kingdom: Incidence, risks, control measures and review of the zoonotic aspects of bovine tuberculosis’, *Tuberculosis*, 86 (2), 77–109.

DEFRA (2002), ‘Survival of Mycobacterium bovis in laboratory made silage’, *DEFRA Scientific Projects*, SE3022.

DEFRA (2020), *Tuberculosis (TB) in cattle in Great Britain* <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/tuberculosis-tb-in-cattle-in-great-britain> [Cyrchwyd: 29 Mehefin 2020].

Denoncourt, A. M., Paquet, V. E. a Charette. S. J. (2014), ‘Potential role of bacteria packaging by protozoa in the persistence and transmission of pathogenic bacteria’, *Frontiers in Microbiology*, 5, Erthygl 240.

Donnelly, C. A. et al. (2007), ‘Impacts of widespread badger culling on cattle tuberculosis: concluding analyses from a large-scale field trial’, *International Journal of Infectious Diseases*, 11 (4), 300–8.

Drewe, J. A. et al. (2013), ‘Patterns of direct and indirect contact between cattle and badgers naturally infected with tuberculosis’, *Epidemiology & Infection*, 141 (7), 1467–75.

Duffield, B. J. a Young, D. A. (1985), ‘Survival of Mycobacterium bovis in defined environmental conditions’, *Veterinary Microbiology*, 10 (2), 193–7.

Erequat, S. et al. (2013), ‘First-Time Detection of Mycobacterium bovis in Livestock Tissues and Milk in the West Bank, Palestinian Territories’, *PLos*, 7 (9), e2417.

Falkinham, J. O. (2009), ‘The biology of environmental mycobacteria’, *Environmental Microbiology Reports*, 1 (6), 477–87.

Fine, A. E. et al. (2011a), 'A Study of the Persistence of Mycobacterium bovis in the Environment under Natural Weather Conditions in Michigan, USA', *Veterinary Medicine International*, 26 (4), Erthygl 765430.

Fine, A. E. et al. (2011b), 'An Effort to Isolate Mycobacterium bovis from Environmental Substrates during Investigations of Bovine Tuberculosis Transmission Sites (Cattle Farms and Wildlife Areas) in Michigan, USA', *International Scholarly Research Notices*, 1–11.

Fischer, O. A. et al. (2003), 'Earthworms (Oligochaeta, Lumbricidae) and mycobacteria', *Veterinary Microbiology*, 91 (4), 325–38.

Fitzgerald, S. D. et al. (2016), 'Herd outbreak of bovine tuberculosis illustrates that route of infection correlates with anatomic distribution of lesions in cattle and cats', *Journal of Veterinary Diagnostic Investigation*, 28 (2), 129–32.

Gannon, B. W., Hayes, C. M. a Roe, J. M. (2007), 'Survival Rate of Airborne Mycobacterium Bovis', *Research in Veterinary Science*, 82 (2), 169–72.

Godfray, C. et al. (2018), 'Bovine TB Strategy Review' (Llundain: DEFRA).

Goodchild, A. V. a Clifton-Hadley, R. S. (2001), 'Cattle-to-cattle transmission of Mycobacterium bovis', *Tuberculosis*, 81 (1–2), 23–41.

Goodchild, A. V. et al. (2015), 'Specificity of the comparative skin test for bovine tuberculosis in Great Britain', *The Veterinary Record*, 117 (10), Erthygl 258.

Goszczyński, J., Jedrzejewska, B. a Jedrzejewski, W. (2006), 'Diet composition of badgers (Meles meles) in a pristine forest and rural habitats of Poland compared to other European populations', *Journal of Zoology*, 250 (4), 495–505.

Gov.uk (2018), *Bovine TB: How to spot and report the disease* <https://www.gov.uk/guidance/bovine-tb> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2018].

Grooms, D. L. et al. (2019), 'Survival of Mycobacterium bovis during forage ensiling', *American Journal of Veterinary Research*, 80 (1), 87–94.

Harris, K. A. et al. (2014), 'Bovine TB infection status in cattle in Great Britain in 2012', *Veterinary Record*, 174 (24), 600–4.

House of Commons (2017), 'Bovine TB statistics in Great Britain', *Papur briffio*, 6081, 16 Hydref 2017.

Hruska, K. a Kaevska, M. (2012), 'Mycobacteria in water, soil, plants and air: a review', *Veterinarni Medicina*, 57 (12), 623–79.

HSE (2018), *Report of the Advisory Committee on Dangerous Pathogens, Mycobacterium bovis Working Group* <http://www.hse.gov.uk/biosafety/gmo/acdp-m-bovis-working-group.pdf> [Cyrchwyd: 8 Hydref 2018].

Hutchings, S. A., Hancox, N. a Livingstone, P. G. (2013), 'A strategic approach to eradication of bovine TB from wildlife in New Zealand', *Transboundary and Emerging Diseases*, 60 (1), 85–91.

ICMR (1999), 'Fifteen-year follow-up of trial of BCG vaccines in south India for tuberculosis prevention', *Indian Journal of Medical Research*, 110, 56–69.

Jackson, R., De Lisle, G. W. a Morris, R. S. (1995), 'A study of the environmental survival

of Mycobacterium bovis on a farm in New Zealand', *New Zealand Veterinary Journal*, 43 (7), 346–52.

Jibril, A. H. et al. (2015), 'Survival of Mycobacterium bovis Following Heat Treatment of Infected Tissues Obtained from Slaughtered Cattle in Sokoto Metropolitan Abattoir, Nigeria', *Journal of Bacteriology and Parasitology*, 6 (6), 2–4.

Johnston, W. T. et al. (2011), 'Herd-level risk factors of bovine tuberculosis in England and Wales after the 2001 foot-and-mouth disease epidemic', *International Journal of Infectious Diseases*, 15 (12), 833–40.

Karolemeas, K. et al. (2012), 'Estimation of the Relative Sensitivity of the Comparative Tuberculin Skin Test in Tuberculous Cattle Herds Subjected to Depopulation', *PLOS ONE*, 7 (8), Erthygl e43217.

Gormley, E. et al. (2006), 'Diagnosis of Mycobacterium bovis infection in cattle by use of the gamma-interferon (Bovigam®) assay', *Veterinary Microbiology*, 112 (2–4), 171–9.

Kennedy, A. E. et al. (2014), 'The Single Intradermal Cervical Comparative Test Interferes with Johne's Disease ELISA Diagnostics', *Frontiers in Immunology*, 5, Erthygl 564.

King, H. C. et al. (2015), 'The variability and seasonality of the environmnetal reservoir of mycobacterium bovis shed by wild European badgers', *Scientific Reports*, 5, Erthygl 12318.

King, H. C. et al. (2017), 'Environmental reservoirs of pathogenic mycobacteria across the Ethiopian biogeographical landscape', *PLOS ONE*, 12 (3), Erthygl e0173811.

Krebs, J. R. et al. (1997), *Bovine Tuberculosis in Cattle and Badgers – An Independent Scientific Review*. (Llundain: MAFF Publications).

Lab Manager (2019), *Biosafety Levels 1, 2, 3 & 4* <https://www.labmanager.com/lab-health-and-safety/2010/12/biosafety-levels-1-2-3-4#.XG6qc1z7SUk> [Cyrchwyd: 21 Chwefror 2019].

Lambrecht, E. et al. (2015), 'Protozoan Cysts Act as a Survival Niche and Protective Shelter for Foodborne Pathogenic Bacteria', *Applied and Environmental Microbiology*, 81 (16), 5604–12.

Lopez-Valencia, G. et al. (2010), 'Field evaluation of the protective efficacy of Mycobacterium bovis BCG vaccine against bovine tuberculosis', *Research in Veterinary Science*, 88 (1), 44–9.

Llywodraeth Cymru (2017), *Cynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Llywodraeth Cymru (2019a), *Rhaglen dileu TB mewn Gwartheg* <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/bovinetberadication/?lang=cy> [Cyrchwyd: 10 January 2019].

Llywodraeth Cymru (2019b), *Biosecurity* <https://beta.gov.wales/biosecurity> [Cyrchwyd: 18 Ionawr 2019].

Llywodraeth Cymru (2019c), *Targedau dileu TB yng Nghymru* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tb-gwartheg-targedau-dileu.pdf> [Cyrchwyd: 12 Awst 2019].

Llywodraeth Cymru (2020), *TB Eradication Programme Frequently Asked Questions and Answers* <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/bovine-tb-eradication-programme-guidance-for-farmers.pdf> [Cyrchwyd: 29 Mehefin 2020].

Mandal, S. L. et al. (2011), 'Investigating transmission of Mycobacterium bovis in the United Kingdom in 2005 to 2008', *Journal of Clinical Microbiology*, 49, 1943–50.

Martínez-Guijosa, J. et al. (2020), 'Environmental DNA: A promising factor for tuberculosis risk assessment in multi-host settings', *PLOS ONE*, 5 (5), e0233837.

Mendoza, M. M. et al. (2015), 'Sheep as a Potential Source of Bovine TB: Epidemiology, Pathology and Evaluation of Diagnostic Techniques', *Transboundary and Emerging Diseases*, 63 (6), 635–46.

Mathews, F. et al. (2006), 'Bovine tuberculosis (Mycobacterium bovis) in British farmland wildlife: the importance to agriculture', *Proceedings of The Royal Society of Biological Sciences*, 273, 357–65.

Mardare, C., Delahay, R. J. a Dale, J. W. (2013), 'Environmental amoebae do not support the long-term survival of virulent mycobacteria', *Journal of Applied Microbiology*, 114, 1388–94.

Muirhead, R. H., Gallagher, J. a Burns, K. J. (1974), 'Tuberculosis in wild badgers in Gloucestershire: epidemiology', *Veterinary Record*, 95 (24), 552–5.

Mura, M. et al. (2006), 'Replication and long-term persistence of bovine and human strains of Mycobacterium avium subsp. paratuberculosis within Acanthamoeba polyphaga', *Applied Environmental Microbiology*, 72 (1), 854–9.

Palmer, M. V., Walters, W. R. a Whipple, D. L. (2002), 'Aerosol delivery of virulent Mycobacterium bovis to cattle', *Tuberculosis*, 82 (6), 275–82.

Palmer, M. V a Whipple, D. L. (2006), 'Survival of Mycobacterium bovis on Feedstuffs Commonly Used as Supplemental Feed for White-tailed Deer (Odocoileus virginianus)', *Journal of Wildlife Diseases*, 42 (4), 853–8.

Pérez-Lago, L., Navarro, Y. a García-de-Viedma, D. (2014), 'Current knowledge and pending challenges in zoonosis caused by Mycobacterium bovis: A review', *Research in Veterinary Science*, 97, 94–100.

Phillips, C. J. C. et al. (2003), 'The transmission of Mycobacterium bovis infection to cattle', *Research in Veterinary Science*, 74 (1), 1–15.

Porphyre, T., McKenzie, J. a Stevenson, M. A. (2011), 'Contact patterns as a risk factor for bovine tuberculosis infection in a free-living adult brushtail possum Trichosurus vulpecula population', *Preventative Veterinary Medicine*, 100 (3–4), 221–30.

Prifysgol Stanford (2018), *Biosafety Levels for Biological Agents* <https://ehs.stanford.edu/reference/biosafety-levels-biological-agents> [Cyrchwyd: 11 Hydref 2018].

Public Health England (2014), *Bovine tuberculosis: Guidance on management of the public health consequences of tuberculosis in cattle and other animals (England)* (Llundain: Public Health England).

Public Health England (2018), *Mycobacterium bovis surveillance data tables, UK, 1999–2017*

<https://www.gov.uk/government/publications/mycobacterium-bovis-mbovis-tuberculosis-annual-data> [Cyrchwyd: 3 Hydref 2018].

Reynolds, D. (2006), 'A review of tuberculosis science and policy in Great Britain', *Veterinary Microbiology*, 112 (2–4), 119–26.

Rhodes, S. G., De Leij, F. A. A. M. a Dale, J. W. (2007), 'Protozoa as an environmental reservoir of bovine tuberculosis', *Trends in Microbiology*, 15 (8), 338–40.

Rizzi, C. et al. (2012), 'Vaccination with a BCG Strain Overexpressing Ag85B Protects Cattle against Mycobacterium bovis Challenge', *PLOSOne*, 7 (12), Erthygl e51396.

Robinson, P., Morris, D. a Antic, R. (1988), 'Mycobacterium bovis as an occupational hazard in abattoir workers', *Australian and New Zealand Journal of Medicine*, 18 (5), 701–3.

Robinson, P. A. et al. (2012), 'BCG vaccination against tuberculosis in European badgers (Meles meles): A review', *Comparative Immunology, Microbiology and Infectious Diseases*, 35 (4), 277–87.

Robinson, P. A. (2019), 'Performativity and a microbe: Exploring Mycobacterium bovis and the political ecologies of bovine tuberculosis', *Biosocieties*, 14, 179–204.

Sahli, H. et al. (2018), 'An advanced intelligent ELISA test for bovine tuberculosis diagnosis', *Biomedical Signal Processing and Control*, 1 (46), 59–66.

Sanchez-Hidalgo, A. et al. (2017), 'Mycobacterium bovis hosted by free-living-amoebae permits their long-term persistence survival outside of host mammalian cells and remain capable of transmitting disease to mice', *Environmental Microbiology*, 19 (10), 4010–21.

Schroeder, P. et al. (2020), 'Temporal and spatial Mycobacterium bovis prevalence patterns as evidenced in the All Wales Badgers Found Dead (AWBFD) survey of infection 2014–2016', *Scientific Reports*, 10, Erthygl 15214.

Selemetas, N. et al. (2015), 'The effects of farm management practices on liver fluke prevalence and the current internal parasite control measures employed on Irish dairy farm', *Veterinary Parasitology*, 207 (3–4), 228–40.

Serrano, M. et al. (2018), 'Different lesion distribution in calves orally and intratracheally challenged with Mycobacterium bovis: implications for diagnosis', *Veterinary Research*, 49, Erthygl 74.

Sinha, P. et al. (2016), 'Differentiation of Mycobacterium tuberculosis complex from non-tubercular mycobacteria by nested multiplex PCR targeting IS6110, MTP40 and 32kD alpha antigen encoding gene fragments', *BMC Infectious Diseases*, 16, Erthygl 123.

Srinivasan, S. et al. (2019), 'A defined antigen skin test for the diagnosis of bovine tuberculosis', *Science Advances*, 5 (7), Erthygl eaax4899.

Stedman, A. et al. (2018), 'Lactic acid Bacteria isolated from European badgers (Meles meles) reduce the viability and survival of Bacillus Calmette-Guerin (BCG) vaccine and influence the immune response to BCG in a human macrophage model', *BMC Microbiology*, 18, Erthygl 74.

Steinert, M. et al. (1998), 'Mycobacterium avium bacilli grow saprozoically in coculture with Acanthamoeba', *Applied Environmental Microbiology*, 64 (6), 2256–61.

Sweeney, F. P. et al. (2007), 'Environmental Monitoring of Mycobacterium bovis in Badger Feces and Badger Sett Soil by Real-Time PCR, as Confirmed by Immunofluorescence, Immunocapture, and Cultivation', *Applied and Environmental Microbiology*, 73 (22), 7471–3.

Swift, B. M. C., Convery, T. W. a Rees, C. E. D. (2016), 'Evidence of Mycobacterium tuberculosis complex bacteraemia in intradermal skin test positive cattle detected using phage-RPA', *Virulence*, 7 (7), 779–88.

Tamada, Y. et al. (2012), 'Diagnosis of active tuberculosis using MPB64, a specific antigen of Mycobacterium bovis', *Microbiology and Immunology*, 56 (11), 740–7.

Taylor, S. J. et al. (2003), 'Infection of Acanthamoeba castellanii with Mycobacterium bovis and M. bovis BCG and Survival of M. bovis within the Amoebae', *Applied and Environmental Microbiology*, 69 (7), 4316–19.

TB Free England (2018), *FAQs about bovine TB in cattle and badger culling* <http://www.tbfreeengland.co.uk/faqs/> [Cyrchwyd: 5 Hydref 2018].

TB Stats Dashboard (2020), *Bovine TB stats* <https://btb-statistics.shinyapps.io/dashboard_v1/> [Cyrchwyd: 29 Mehefin 2020].

Twomey, D. F. et al. (2010), 'Cutaneous TB caused by Mycobacterium bovis in a veterinary surgeon following exposure to a tuberculous alpaca (Vicugna pacos)', *Veterinary Record*, 166, 175–7.

Waters, W. R. et al. (2006), 'Early Antibody Responses to Experimental Mycobacterium bovis Infection of Cattle', *Clinical and Vaccine Immunology*, 13 (6), 648–54.

Whan, L., Grant, I. R. a Rowe, M. T. (2006), 'Interaction between Mycobacterium avium subsp. paratuberculosis and environmental protozoa', *BMC Microbiology*, 6, Erthygl 63.

Whelan, C. et al. (2010), 'Performance of the Enferplex TB Assay with Cattle in Great Britain and Assessment of Its Suitability as a Test to Distinguish Infected and Vaccinated Animals', *Clinical and Vaccine Immunology*, 17 (5), 813–17.

Whipple, D. L., Bolin, C. A. a Miller, J. M. (1996), 'Distribution of Lesions in Cattle Infected with Mycobacterium Bovis', *Journal of Veterinary Diagnostic Investigation*, 8 (3), 351–4.

World Health Organisation (WHO) (2012), *Global tuberculosis control* (Genefa, y Swistir: WHO).

World Health Organisation (WHO) (2019), *Treatment and care* <https://www.who.int/tb/areas-of-work/zoonotic-tb/en/> [Cyrchwyd: 26 Mehefin 2019].

Williams, A. P. et al. (2006), 'Earthworms as vectors of Escherichia coli O157:H7 in soil and vermicomposts', *Microbiology Ecology*, 58 (1), 54–64.

Woodroffe, R. et al. (2016), 'Badgers prefer cattle pasture but avoid cattle: implications for bovine tuberculosis control', *Ecology Letters*, 19, 1201–8.

Young, J. S., Gormley, E. a Wellington, E. M. H. (2005), 'Molecular Detection of Mycobacterium bovis and Mycobacterium bovis BCG (Pasteur) in Soil', *Applied and Environmental Microbiology*, 71 (4), 1946–52.

Zarden, C. F. O. et al. (2013), 'Mycobacterium bovis detection from milk of negative skin test cows', *Veterinary Record*, 172 (5), 130.

# Cyfranwyr

### *Dr Charlotte Greenway*

Mae Charlotte W. Greenway, PhD, yn Uwch Ddarlithydd yn Nisgyblaeth Academaidd Seicoleg a Chynghori ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ADCG, iechyd meddwl plant, a sut y mae plant yn datrys problemau.

### *Alison Rees Edwards*

Mae Alison Rees Edwards, MA, yn Uwch Ddarlithydd yn Nisgyblaeth Academaidd Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae ei phrif ddiddordebau yn ymwneud â datblygiad plant, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

### *Dr Einion Dafydd*

Roedd Einion Dafydd yn Ddarlithydd mewn Astudiaethau Seneddol a Deddfwriaethol yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ac Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd rhwng 2014 a 2018. Bu'n Ysgolhaig Gwadd ym Mhrifysgol Wisconsin-Madison ac ym Mhrifysgol Pittsburgh (UDA), yn KU Leuven (Gwlad Belg), ac ym Mhrifysgol Tampere (y Ffindir). Dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth gan Brifysgol Aberystwyth am ei waith ar ddisgyblaeth bleidiol yn Senedd Ewrop. Mae ei ymchwil hefyd wedi canolbwyntio ar weithgaredd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ac ar etholiadau datganoledig Cymreig. Cyhoeddwyd ei astudiaethau mewn amryw gyfnodolion gan gynnwys *Parliamentary Affairs* a'r *Journal of Legislative Studies*.

### *Yr Athro Jerry Hunter*

Mae Jerry Hunter yn Athro yn Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Bangor. Bu hefyd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Harvard a Phrifysgol Caerdydd. Mae meysydd ei ymchwil yn amrywiol iawn ac mae wedi cyhoeddi am lenyddiaeth Gymraeg o bob cyfnod, o'r Oesoedd Canol i lenyddiaeth gyfoes. Yn ogystal â nifer o erthyglau, mae wedi cyhoeddi pump o gyfrolau academaidd, pump o nofelau ac un nofel fer ar gyfer plant. Enillodd wobr 'Llyfr y Flwyddyn' Llenyddiaeth Cymru yn 2004 a Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2010. Mae wedi cyflwyno a chyd-sgriptio tair cyfres ddogfen ar gyfer S4C, gan gynnwys un a enillodd wobr Gwyn Alf Williams BAFTA Cymru.

### *Cennydd Jones*

Mae Cennydd Jones yn fyfyriwr doethur ym Mhrifysgol Aberystwyth dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac IBERS, lle y mae'n ymchwilio i'r ffynonellau amgylcheddol o dwbercwlosis ar ffermydd sydd ag achosion hirdymor o'r afiechyd. Astudiodd Cennydd radd BSc mewn Amaethyddiaeth a Gwyddor Anifeiliaid (2012-16), cyn derbyn ysgoloriaeth gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i astudio MSc mewn Gwyddor Da Byw, gan

ganolbwyntio ar gloffni yn y fuches odro (2016-17). Treuliodd flwyddyn fel darlithydd pwnc dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gampws Gelli Aur, Coleg Sir Gâr, lle y bu'n addysgu myfyrwyr addysg bellach a myfyrwyr gradd mewn Amaethyddiaeth (2017-18). Erbyn hyn, mae yn ei flwyddyn olaf fel myfyriwr doethur, ac yn parhau i gyfrannu at addysgu pan fydd y galw yn codi.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

9 771741 426008